# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 23 GORFFENNAF 2024 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 23 JULY 2024 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Mai 2024.

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 5 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5 HUNAN ASESIAD CORFFORAETHOL 2023/24** (Tudalennau 13 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**6 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, ALLDRO 2023/24** (Tudalennau 41 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7 ALLDRO CYFALAF 2023/24** (Tudalennau 61 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, ALLDRO 2023/24** (Tudalennau 77 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9 CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2023/24 A DEFNYDD O GRONFEYDD WITH GEFN A BALANSAU** (Tudalennau 89 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 **<u>NEWID I'R CYFANSODDIAD: CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION</u>**
(Tudalennau 109 - 118)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

11 **CYFLWR ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL GOGLEDD YNYS MÔN A'R ACHOS DROS FUDDSODDI A CHYMORTH** (Tudalennau 119 - 162)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor a dros Zoom ar 23 Mai, 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Uwch Reolwr (Sector Addysg Uwchradd) (AE)<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (THJ)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Robin Williams, Marc Berw Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc), Lynn Ball (Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Aled Morris Jones, Derek Owen, Swyddog Cyfathrebiadau (GJ). |

---

### 1. DATGAN BUDDIANT

Bu i'r Cynghorydd Llinos Medi ddatgan buddiant personol yn unig mewn perthynas ag eitem rhif 5 gan ei bod yn cynrychioli'r Awdurdod Lleol ar gorff llywodraethol Ysgol Llanfechell.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 i'w cadarnhau.

**Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 yn gywir.**

### 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth, a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Mehefin 2024 i Ionawr 2025 i'w chadarnhau.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar gynnwys y Flaen Raglen Waith gan amlygu'r eitemau newydd a oedd wedi cael eu hychwanegu a'r rhai a oedd wedi cael eu haildrefnu.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Mehefin 2024 i Ionawr 2025.**

## 5. AD-DREFNU YSGOLION - ADRODDIAD GWRTHWYNEBU A PHENDERFYNIAD TERFYNOL YNGLŶN Â: YSGOL CARREGLEFN

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Gwrthwynebu ar y cynnig i drosglwyddo disgyblion Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, a adroddodd bod y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo'r cynnig yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2024 a bod Rhybudd Statudol o fwriad y Cyngor i drosglwyddo disgyblion Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell wedi cael ei gyhoeddi ar 1 Mawrth 2024. Roedd gan randdeiliaid 28 diwrnod i gyflwyno gwrthwynebiad statudol i'r cynnig. Roedd yr adroddiad yn nodi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb y cynigiwr [h.y. y Cyngor] a gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn dod i benderfyniad terfynol ynglŷn â'r cynnig. Amlygodd yr Aelod Portffolio bod gan Ysgol Carreglefn lai na 10 disgybl ar y gofrestr pan gynhaliwyd y Cyfrifiad ym mis Ionawr 2024, ac felly mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu i'r awdurdod lleol ddilyn proses symlach i gau'r ysgol yn swyddogol ac mae'r gofyn i gynnal ymgynghoriad cyffredinol yn cael ei hepgor.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Addysg ar gyfer y Sector Uwchradd bod y Cyngor wedi derbyn 8 ymateb a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig - 7 gan ddisgyblion Ysgol Carreglefn a'r llall gan Gorff Llywodraethol Ysgol Carreglefn. Mae'r materion a godwyd ac ymateb y Cyngor wedi'u crynhoi yn Nhabl 1 yn yr Adroddiad Gwrthwynebu. Yn ogystal â'r ymatebion yma, derbyniwyd sylwadau gan Gyngor Cymuned Mechell wedi i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben ar 2 Ebrill 2024. Mae'r sylwadau hyn wedi'u crynhoi yn rhan 4 yn yr Adroddiad Gwrthwynebu a chan mai sylwadau ydynt yn hytrach na gwrthwynebiadau, a chan eu bod wedi dod i law ar ôl y cyfnod gwrthwynebu statudol, nid yw'r cyngor wedi delio â hwy ac ymateb iddynt fel gwrthwynebiadau statudol ac maent yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad er budd tryloywder. Pe byddai'r Pwyllgor Gwaith yn cadarnhau ei benderfyniad i drosglwyddo disgyblion Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn bydd llythyr penderfyniad yn cael ei gyhoeddi a bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i weithredu'r penderfyniad hwnnw a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llanfechell, a darparu cefnogaeth i'r plant a'u rhieni a staff yr ysgol yn ystod y broses.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg bod y gwrthwynebiadau wedi cael eu hystyried a bod yr ymatebion wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Gwrthwynebu. Cynigodd yr argymhellion yn yr adroddiad sef cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Carreglefn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llanfechell. Wrth wneud hynny diolchodd i'r Swyddogion a'r rhai a oedd wedi cyfrannu i'r broses a thalodd deyrnged i staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni Ysgol Carreglefn yn ogystal â'r gymuned ehangach am eu gwaith caled i gefnogi a chynnal Ysgol Carreglefn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cafodd y diolchiadau hynny eu hategu gan Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a wnaeth hefyd gydnabod yr urddas y mae Ysgol Carreglefn a chymuned Carreglefn wedi'i ddangos yn ystod y broses, sydd fyth yn broses braf, ac fe wnaethant ymrwymo i weithio gyda'r gymuned i ddiogelu'r adeilad fel adnodd ar gyfer y gymuned gyfan. Siaradodd y Cynghorydd Carwyn Jones am ei brofiad ei hun yn Llanddona lle daeth y gymuned at ei gilydd i greu canolfan gymunedol lewyrchus wedi i'r ysgol leol gau. Wrth siarad fel Aelod Lleol, dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi bod yr ysgol a'r gymuned yn deall y rhesymau dros y cynnig a chan

DRAFT

mai dim ond 5 disgybl fydd yn yr ysgol ym mis Medi 2024 nid yw'r ysgol yn gynaliadwy yn y tymor hir. Cyfeiriodd at sylwadau'r Cyngor Cymuned ac er nad ydynt yn rhan o'r gwrthwynebiadau statudol maent yn ategu sylwadau'r Pwyllgor Gwaith ynglyn â phwysigrwydd parhau i gefnogi gweithgareddau cymunedol yn yr adeilad.

**Penderfynwyd –**

- **Trosglwyddo disgyblion Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn ar 31 Awst 2024.**
- **Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi rhybudd o'r penderfyniad terfynol ar ffurf llythyr penderfyniad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.**
- **Ymestyn dalgylch Ysgol Llanfechell i ymgorffori dalgylch presennol Ysgol Carreglefn.**

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Yn unol ag Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd eithriad ohoni.**

## 7. CYTUNO AR Y TREFNIADAU AR GYFER SEFYDLU PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer sefydlu Porthladd Rhydd Ynys Môn, yn cynnwys y trefniadau lywodraethu ac ystyriaethau cyllidebol, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o'r gwaith sydd wedi cael ei gwblhau hyd yma. Er mwyn cyrraedd y cam yma yn y broses mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau helaeth â rhanddeiliaid ac mae ymgynghorwyr y Cyngor yn ogystal â Swyddogion o'r gwasanaeth Datblygu Economaidd, Adnoddau, Cyfreithiol a Rheoli Risg wedi cyfrannu at y broses, yn ychwanegol i'w dyletswyddau dydd i ddydd. Rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar hynt yr Achos Busnes Amlinellol drafft (OBC) ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r amserlen ar gyfer ei gyflwyno a'r Achos Busnes Llawn (FBC) a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn cael eu cwblhau wedi hynny.

Adroddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar y dull arfaethedig ar gyfer llywodraethu endid y Porthladd Rhydd a'r gyllideb ddrafft ar gyfer y Porthladd Rhydd, fel y nodir yn yr adroddiad. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddirprwyo awdurdod i Swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, i gytuno ar Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni Porthladd Rhydd arfaethedig a'r Cytundeb Aelodau ac i barhau i negodi â rhanddeiliaid allweddol a'u gwahodd i ddod yn aelodau o'r cwmni. Mae Penawdau Telerau'r cwmni arfaethedig, a fydd yn cael ei adnabod fel Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyf., wedi cael eu drafftio ac maent ynghlwm yn Atodiad 1 yn yr adroddiad. Mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r OBC yn awgrymu y bydd y Porthladd Rhydd yn dod yn weithredol ym mis Gorffennaf 2024, sy'n golygu bod rhywfaint o oblygiadau mewn perthynas â sefydlu endid cyfreithiol y Porthladd Rhydd, rhoi'r cytundebau tirfeddianwyr ar waith a sicrhau bod gennym rywfaint o gapasiti i weithredu'r Porthladd Rhydd. Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r materion hyn, ac yn cyfeirio at y gweithgareddau y mae disgwyl i'r Porthladd Rhydd eu cyflawni fel rhan o'r rhaglen Porthladd Rhydd. Mae'r adroddiad hefyd yn ymhelaethu ar y gyllideb ddrafft arfaethedig.

DRAFFT

Bu i'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith gydnabod y gwaith sydd wedi cael ei gwblhau gan Swyddogion y Cyngor i sefydlu'r Porthladd Rhydd. Trafodwyd amserlen yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn a holwyd ynglyn â'r ffactorau a/neu ddatblygiadau a all effeithio ar yr amserlenni hynny yn ogystal â'r risgiau i'r Cyngor. Bu i'r Swyddogion gynnig eglurhad a sicrwydd mewn perthynas â'r materion a godwyd.

**Penderfynwyd -**

- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Cyfarwyddwr Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog Adran 151, i wneud y Cyngor yn Aelod Sefydlol o Borthladd Rhydd Ynys Môn cyf (y Cwmni Porthladd Rhydd) ar y cyd â rhanddeiliaid lleol allweddol.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Cyfarwyddwr Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog Adran 151, i gwblhau ac arwyddo Erthyglau Porthladd Rhydd Ynys Môn cyf (y Cwmni Porthladd Rhydd) a'r Cytundeb Aelodau.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Cyfarwyddwr Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151, i gwblhau ac arwyddo Cytundebau Tirfeddiannwr rhwng CSYM, Porthladd Rhydd Ynys Môn cyf (y Cwmni Porthladd Rhydd) a phob perchennog tir a/neu feddiannwr perthnasol yn ôl y gofyn.**
- **Cymeradwyo cyllideb ddrafft arfaethedig Porthladd Rhydd Ynys Môn a rôl CSYM fel Corff Atebol.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio Cyllid, i adolygu a chymeradwyo'r gyllideb derfynol pan gaiff ei chyflwyno gan Gwmni Porthladd Rhydd Ynys Môn. Disgwylir y bydd gwariant yn 2024/25 (gan gynnwys cyllideb wrth gefn), yn unol â'r tabl ar dudalen 7.**
- **Nodi y bydd unrhyw oblygiadau fydd yn effeithio ar gyllideb y Cyngor yn cael eu cynnwys, i'w cymeradwyo, yng Nghyllideb y Cyngor Llawn ar gyfer 2025/26.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 23 Gorffennaf 2024 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard<br>Y Cynghorydd Robin Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Medi 2024 – Mawrth 2025;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Medi 2024 – Mawrth 2025 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Cyfnod: Medi 2024 – Mawrth 2025

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 10 Gorffennaf 2024

Medi 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 24 Medi 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>12 Medi 2024 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Medi 2024 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Medi 2024 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Medi 2024 |
| | Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2026/27 | Cyng Robin Williams | |
| | Asesiad y Farchnad Dai Leol | Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>12 Medi 2024 |
| | Cynllun Strategol Caffael | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>12 Medi 2024 |
| | Trosglwyddo pwerau i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig rhanbarthol | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |

## Hydref 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 22 Hydref 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2023/24 | Cyng Robin Williams | |

## Tachwedd 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 26 Tachwedd 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 14 Tachwedd 2024 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |
| | Sylfaen y Dreth Gyngor 2025/26 | Cyng Robin Williams | |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>20 Tachwedd 2024 |
| | Cynllun Strategol Môn Actif | Cyng Neville Evans | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>14 Tachwedd 2024 |

## Rhagfyr 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 10 Rhagfyr 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Cyng Carwyn Jones | |

Tudalen 11

## Ionawr 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 21 Ionawr 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |

## Chwefror 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 18 Chwefror 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |

Tudalen 12

## Mawrth 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 25 Mawrth 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 23 Gorffennaf 2024 |
| Pwnc: | Hunanasesiad Corfforaethol 2023/24 |
| Deilydd (au) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E. Jones |
| Rheolwr Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>Gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Amh |

## A –Argymhelliad/on a rheswm/ymau

1. **Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r ddogfen atodol fel fersiwn terfynol wedi derbyn ystyriaeth ar ei chynnwys gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y cyfarfod ar 18 Gorffennaf, 2024.**

Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae'r ddyletswydd ganlynol yn cael ei chydnabod ar Gyngor Sir Ynys Môn:

**… Parhau i adolygu ei berfformiad**

1) Rhaid iddo barhau i adolygu'r graddau -
(a) ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol,
(b) ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, a
(c) bod ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b)

**ac mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol,**
gwneud adroddiad yn nodi ei gasgliadau o ran i ba raddau y cyflawnodd y gofynion perfformiad (A, B ac C uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Er mwyn cwrdd â'r disgwyliad uchod, paratowyd Hunanasesiad drafft y Cyngor ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad yn dangos allbwn fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor ac mae'n ddiwedd proses sy'n uno sawl agwedd wahanol gyda'i gilydd.

| B – Pa opsiynau eraill oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod nhw a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ni ystyriwyd opsiynau eraill gan fod y disgwyliad craidd y ddeddfwriaeth newydd - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| C – Pam fod hyn yn benderfyniad i'r Weithrediaeth? |
|---|
| Y broses hon yw ennyn sylw a sylwadau'r Pwyllgor Gwaith a Llywodraethu ac Archwilio cyn i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr Hunanasesiad terfynol ym mis Gorffennaf eleni.<br><br>Mae'n broses sy'n unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'n broses sy'n unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| D – Ydy'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor? |
|---|
| Rhagwelir y bydd y rhaglen waith gysylltiedig (a ddarlunnir at ddiwedd y hunanasesiad sy'n cynnwys y meysydd hynny wedi cario drosodd i 2024/25) a bod ei sylweddoliad yn cael ei roi o dan arweinyddiaeth a pherchnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth (TA) o fewn amser yn unol â blwyddyn ariannol y Cyngor 24/25. |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor drwy gydnabod meysydd cysylltiedig sydd angen sylw pellach fel cyngor. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Yn rhannol - ie, ynglŷn â'r gwelliannau disgwyliedig sydd eu hangen ym mherfformiad rhai ardaloedd ac ati. |
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | Mae rhan benodol o'r hunanasesiad yn cydnabod yr holl waith cydweithredol sy'n digwydd ar draws ystod y Gwasanaethau |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd | Mae trigolion Ynys Môn drwy'r pwyllgorau craffu corfforaethol yn cael |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | hon ymlaen, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut, os gwelwch yn dda. | cyfle chwarterol i fynegi eu barn a herio'r gorfforaeth ar ei pherfformiad. Mae'r cynnwys hefyd yn nodi sut mae'r gwahanol wasanaethau'n cynnwys dinasyddion yn ei benderfyniadau. |
| 5 | Sylwch ar unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ni ragwelir y bydd y rhaglen waith yn cael effaith ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh |
| 7 | Sylwch ar unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh |

| E – Pwy oeddet ti'n ymgynghori? | | Beth ddwedon nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (SLT)<br>(gorfodol) | Cafodd hyn ei ystyried gan y Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (LT) ac mae eu sylwadau yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Adran 151<br>(gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Adran 151 fel aelod o'r LT hefyd wedi'u cynnwys |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro<br>(gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro fel aelod o'r LT wedi'u cynnwys |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Adlewyrchir sylwadau yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Craffu | Cafodd y mater ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 13/6/2024. |

| E – Pwy oeddet ti'n ymgynghori? | | Beth ddwedon nhw? |
|---|---|---|
| | | Wedi craffu ar y ddogfen, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo y ddogfen i'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>Camau ychwanegol:<br><br>• Y Pwyllgor i gael sicrwydd ar y cynnydd a wnaed ar gamau gweithredu mewn perthynas â'r tri maes allweddol a aseswyd fel rhai sy'n bodloni disgwyliadau (yn hytrach na rhagori ar ddisgwyliadau)<br>• Adroddiad Hunanasesiad ar gyfer 24/25 i ddangos sut mae'r camau a gymerwyd wedi gwella perfformiad ar y tri maes yma. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

## F - Atodiadau:

Hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn – 2023/2024

## Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Camau Gwella Hunanasesiad 2022
- Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd, 12 Mai 2023

# Hunanasesiad blynyddol – 2023/24

Hunanasesiad blynyddol y Cyngor Sir, fel y disgwylir dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.



**Paratowyd gan** – Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad Cyhoeddi**: Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

DRAFT

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu trydydd hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'n adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran –

- y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio
- gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo wrth
- reoli a llinau risgiau cysylltiedig

yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol.

Bwriad y fframwaith perfformiad a llywodraethu cenedlaethol newydd yw cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun, a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn cadw at ddisgwyliadau o'r fath ac mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi yn unol â hynny.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.



DRAFT

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

### Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n 'gartref'

### Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

## Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Gwerthoedd

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn cael ei gefnogi gan werthoedd craidd y sefydliad, sy’n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda’n cymunedau a’n partneriaid, i gyflawni’r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd


Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo’r Cyngor a’r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i’r cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o’r ynys.

## Y Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.




DRAFT

# Ein Dull Hunanasesu

Cafodd y broses o fonitro perfformiad yr holl awdurdodau lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad, ei sefydlu fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r broses hunanasesu yn flynyddol gan gynnwys nodi gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ogystal â defnyddio adborth gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, swyddogion arweiniol ac aelodau etholedig.

Yn ystod 2023, gwnaethom adolygu ein dull hunanasesu a gwneud nifer o addasiadau i gryfhau'r broses ymhellach. Gwnaethom weithio ar y cyd gyda Gwasanaethau ar draws y Cyngor i addasu'r templed er mwyn canolbwyntio ar saith maes allweddol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y saith prif faes yw:

- Cynllunio Gwasanaeth
- Cynllunio Ariannol
- Cynllunio Gweithlu
- Rheoli Asedau
- Caffael a Rheoli Contractau
- Rheoli Risg ac Archwilio
- Rheoli Perfformiad

Gwnaethom hefyd ganiatáu rhagor o amser fel bo Gwasanaethau'n gallu dechrau'r cyfnod casglu tystiolaeth. Rydym yn gobeithio fod hyn yn cryfhau'r broses yn seiliedig ar ein profiadau o flynyddoedd blaenorol. Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau hunanasesu bob blwyddyn.

DRAFT

Mae hunanwerthuso yn rhan annatod o unrhyw broses i wella sefydliad, a hynny at ddibenion hunansicrhau; fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod cwblhau hunanwerthusiadau i safon hefyd yn darparu sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheolydidon a thrigolion.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn 9 ohonynt) i gwblhau hunanwerthusiad - gan sgorio eu perfformiad ar feysydd a nodwyd a ystyriwyd yn bwysig er mwyn mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn un o'r 5 maen prawf a restrir isod a chawsant eu herio wedyn ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig a elwir yn broses Adolygu Gwasanaeth:

| Cyfradd Perfformiad | Disgrifiad |
|---|---|
| Rhagorol | Perfformiad sy'n parhau i fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau, sy'n dangos cyflawniad rhagorol. |
| Yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Perfformiad sy'n darparu canlyniadau rhagorol y tu hwnt i'r hyn oedd yn ddisgwyliedig. |
| Yn bodloni disgwyliadau | Perfformiad sy'n bodloni safonau a rhwymedigaethau. |
| Angen mân welliannau | Perfformiad sy'n disgyn dan safonau disgwyliedig ble mae'n rhaid i'r Gwasanaeth ddilyn camau adferol. |
| Angen gwelliannau sylweddol | Perfformiad sy'n parhau i ddisgyn dan safonau disgwyliedig, ble mae'n rhaid i'r Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth roi mesurau adferol brys ar waith. |

Mae Gwasanaethau sydd wedi sgorio eu hunain yn 'Ddigonol' neu 'Anfoddhaol' wedi adnabod meysydd y gellir eu gwella er mwyn perfformio'n well yn y dyfodol. Mae'r meysydd hyn wedi'u cynnwys yn yr hunanasesiad hwn, fodd bynnag, mae rhai wedi'u cynnwys mewn maes gwella ehangach ar gyfer y Cyngor, a bydd yn cael ei reoli gan wasanaethau blaenllaw sydd wedi'u nodi yn 'Meysydd i'w Gwella a Nodwyd' yn yr adroddiad hwn.

Mae meysydd i'w gwella ar gyfer gwasanaethau unigol yn cael eu monitro fel rhan o'r broses Adolygu Gwasanaeth.

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod 2023/24 yn ogystal â gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, gan ateb y cwestiynau canlynol mor syml â phosibl:

- Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wella a sut?



DRAFT

# Cynllunio Gwasanaeth

**Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau**

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gwasanaeth yn gyfarpar hanfodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'n helpu pobl i ddeall ein gwasanaethau, mae'n darparu'r trywydd y dylai'r Cyngor ei ddilyn ac mae'n rhan hollbwysig o'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer darparu gwasanaeth a gwireddu amcanion Cynllun y Cyngor.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad fod gan y Cyngor afael da ar Gynllunio Gwasanaeth, yn ogystal â gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a sut wireddu'r weledigaeth honno.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Amcanion Clir** – Mae gan y cyngor weledigaeth glir ar waith gydag amcanion mesuradwy ar gyfer darpariaeth gwasanaeth, sy'n cyd fynd ag anghenion y gymuned a gofynion deddfwriaethol | • Cynllun y Cyngor<br>• Gwerthoedd y Cyngor<br>• Cefnogi strategaethau a chynlluniau<br>• Moderneiddio cymunedau sy'n dysgu a datblygu strategaeth y Gymraeg<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 12-16 |
| **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid –** Mae'r cyngor yn ymgysylltu'n gyson gyda thrigolion, busnesau a rheini Ynys Môn | • Ymgynghoriadau cyhoeddus<br>• Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) a chanlyniad yr arolwg<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 |
| **Penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth** – Mae'r cyngor yn gwneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ddadansoddiadau data wedi'i gefnogi, ymchwil ac anghenion tymor byr a hir y gymuned | • Penderfyniadau Pwyllgor y Cyngor<br>• Cofnodion Pwyllgor y Cyngor |
| **Arloesi ac Addasu –** Mae gan y cyngor enw da ar gyfer arloesi ac mae'n addasu'n dda i amgylchiadau sy'n newid | • Ymatebion i RAAC<br>• Ynys Wybodus am Drawma<br>• Cartrefi Clyd – Cartrefi Grwpiau Bach<br>• Cynllun dialysis gartref<br>• Unedau Busnes yn Llangefni a Chaergybi<br>• Gwobr Genedlaethol Rhaglen Gymunedol Ynys Môn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Gwobr Rhagoriaeth Maethu<br>• Gwobr genedlaethol rheoli llifogydd naturiol Dwyran<br>• Porthladd Rhydd<br>• Cronfa Ffyniant Bro Caergybi |
| **Dyrannu Adnoddau** – Mae gan y cyngor hanes da o reoli ei adnoddau dynol ac ariannol, er mwyn cyflawni ei amcanion. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig |
| **Cydymffurfio gyda Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddio –** mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol, rheoliadau a dyletswyddau statudol, ac mae'n sicrhau atebolrwydd a chywirdeb yn ei brosesau gwneud penderfyniadau. | • Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol<br>• Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |

DRAFT

# Cynllunio Ariannol

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio ariannol yn cynnwys rheoli arian yn strategol. Mae'n ymwneud ag asesu'r sefyllfa ariannol bresennol, cyflawni amcanion a chreu cynlluniau cynhwysfawr er mwyn dynodi adnoddau a chynnal sefydlogrwydd cyllidol. Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud rhagolygon ariannol ar gyfer y tymor byr (hyd at 1 mlynedd), y tymor canolig (1-3 blynedd) a'r tymor hir (3+ o flynyddoedd), er mwyn sicrhau y gall y cyngor fodloni ei rwymedigaethau ariannol a darparu gwasanaeth i'r gymuned.

Mae gan y cyngor afael da ar Gynllunio Ariannol, ac mae cynllun ariannol clir ar waith er mwyn cyflawni gweledigaeth y cyngor yn y tymor byr, canolig a thymor hir.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Rheoli Cyllideb** – Mae gan y cyngor broses rheoli cyllideb gref ar waith sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a blaenoriaethau gwasanaeth, ac sydd hefyd yn lleihau'r risg o orwariant neu ddiffyg ariannu. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22 |
| **Sefydlogrwydd Ariannol** – Mae gan y cyngor gronfeydd wrth gefn digidol a lefelau dyled isel perthynol â'i incwm, ac mae'n dangos arferion rheoli arian doeth sy'n sicrhau cynaliadwyedd tymor hir. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Datganiad ar Gyfrifon<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22 |
| **Dyrannu Adnoddau'n Effeithiol** – Mae'r cyngor yn dyrannu ei adnoddau ariannol yn effeithiol er mwyn bodloni'r galw ar y gwasanaeth a gofynion darparu, yn ogystal â chynyddu ei werth am arian. | • Llyfr y Gyllideb<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 14-16 |
| **Cywirdeb ac Atebolrwydd** – Mae gan y cyngor broses adrodd ar reolaeth ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb yn chwarterol a datganiad ar gyfrifon blynyddol. | • Datganiad ar Gyfrifon<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 23-24<br>• Proses Gosod Cyllideb |
| **Cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Ariannol** – Mae'r cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda rheoliadau ariannol perthnasol, safonau cyfrifo a gofynion cyfreithiol gan gynnwys cyllid craidd a chyllid grant. | • Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Monitro** – Mae'r cyngor yn monitro'n rheolaidd ac yn goruchwylio perfformiad ariannol, gan gynnwys adroddiad ar y gyllideb refeniw bob chwarter, y gyllideb gyfalaf a chyfrifon y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wrth sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. | • Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Asesiadau Archwilio** – Mae'r cyngor wedi derbyn adroddiadau archwilio cadarnhaol gan archwilwyr gan gynnwys Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol, sy'n darparu dilysiad annibynnol ar gyfer arferion rheolaeth ariannol. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol<br>• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol |

DRAFT

# Cynllunio Gweithlu

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gweithlu yn broses lle mae'r cyngor yn dadansoddi anghenion presennol ei weithlu ac anghenion y dyfodol yn erbyn ei ymrwymiadau, cynlluniau ac amcanion. Mae'n galluogi'r cyngor i benderfynu sut y bydd yn recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw gweithwyr sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol, gan fyfyrio ar egwyddor cynllunio tymor hir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gan y cyngor ddealltwriaeth gref o gynllunio gweithlu, ac mae ganddo'r gofynion ar waith er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau, cynllunio ac amcanion o safbwynt adnoddau dynol.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Hyfforddiant a Datblygu** – Mae'r cyngor yn darparu nifer o gyfleoedd i staff ymgymryd â hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd i wella sgiliau sy'n galluogi gweithwyr i ddatblygu ac addasu i ofynion gwaith sy'n parhau i newid yn ogystal â gwelliannau technegol. | • Adroddiad blynyddol yr iaith Gymraeg<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19<br>• Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddiant |
| **Cynllunio Gweithlu** – Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gael y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir, a sicrhau cydymffurfiad gydag amcanion strategol y cyngor a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau olyniaeth i adnabod a datblygu arweinwyr y dyfodol a phersonél allweddol, fydd yn sicrhau parhad a chynaliadwyedd. | • Strategaeth Cynllunio Gweithlu<br>• Strategaeth Rheoli Risg Pobl<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |
| **Buddion gwaith** – Mae'r cyngor yn cynnig nifer o fuddio i staff, gan gynnwys gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cymorth llesiant ac iechyd galwedigaethol, pensiwn gwaith a nifer o bolisïau eraill sydd wedi'u dylunio er mwyn gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymhlith staff. | • Gweithio hyblyg<br>• Cynllun beicio i'r gwaith<br>• Manteision Môn |
| **Adolygu perfformiad** – Mae gan y cyngor system glir ar gyfer mesur perfformiad gweithwyr, cydymffurfiaeth gyda strategaethau'r cyngor ac amcanion strategol, a datblygiad gyrfaol a hynny drwy ei drafodaethau | • System werthuso<br>• Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Corfforaethol<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| blynyddol gyda staff, adolygiad blynyddol ar y gweithlu a rheolaeth talent effeithiol. | |
| **Ymgysylltiad gyda Gweithwyr a'u Boddhad** – Mae gan y cyngor sawl ffordd o ymgysylltu gyda gweithwyr, gan gynnwys holiaduron staff a mecanweithiau adborth eraill sy'n ffordd o gyfathrebu'n effeithiol gyda staff ac yn fodd o sicrhau amgylchedd gwaith lle gall staff ffynnu a bod yn frwdfrydig. | • Presenoldeb staff<br>• Cadw staff<br>• Holiaduron staff<br>• Sesiwn Briffio Aelodau<br>• Fforwm Môn<br>• Y Ddolen<br>• Diweddariad gan y Prif Weithredwr<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |

DRAFT

# Rheoli Asedau

Yn bodloni disgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Rheoli asedau yw'r broses systematig ar gyfer cynllunio, caffael, olrhain, cynnal a chadw, diweddaru a dyrannu asedau mewn ffordd effeithlon sy'n effeithiol o ran cost. Prif nod rheoli asedau yw gwella defnydd a pherfformiad asedau yn ogystal â lleihau risg a chostau yn ystod eu hoes. Dylai'r ffordd maent yn cael eu defnyddio hefyd gyd-fynd ag amcanion y cyngor.

Mae'r cyngor yn perfformio'n dda o ran Rheoli Asedau, ac mae ganddo nifer o gynlluniau ar waith i ddarparu ei amcanion yn llwyddiannus, fodd bynnag, mae angen gwaith ar nifer o asedau sydd angen eu moderneiddio neu eu dymchwel.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Stocrestr Asedau a Asesiad Cyflwr** – Mae gan y cyngor stocrestr gywir o'i holl asedau, gan gynnwys seilwaith, cyfleusterau ac offer ac mae'n asesu cyflwr yn rheolaidd er mwyn llywio gwaith cynnal a chadw a strategaethau adnewyddu. | • System Rheoli Asedau ar waith<br>• Rheolaeth Asedau TGCh ar waith |
| **Cynllunio Cylch Oes** – Mae'r cyngor yn sicrhau bod asedau'n cael eu cynnal a'u cadw, eu hadnewyddu a'u disodli'n rhagweithiol sy'n gwella perfformiad a lleihau costau cysylltiedig a chylch oes. | • Cynllun Strategol Rheoli Asedau<br>• Cynllun Strategol Rheoli Asedau'r Gwasanaethau Tai<br>• Strategaeth Gyfalaf<br>• Strategaeth Moderneiddio Cymunedau sy'n Dysgu a Datblygu Strategaeth yr Iaith Gymraeg |
| **Rheoli Risg** – Mae'r cyngor yn cwblhau asesiadau risg ar gyfer asedau er mwyn adnabod a lliniaru risgiau posibl, megis risgiau sy'n peryglu iechyd a diogelwch, amhariad i gydymffurfiaeth rheoleiddiol ac amhariad i wasanaethau. | • Arolwg ar gyflwr asedau<br>• Seiberddiogelwch diogelwch TGCh |
| **Monitro Perfformiad Asedau** – Mae'r cyngor yn monitro perfformiad asedau, yn enwedig defnydd ynni ac ymdrechion i gyflawni net sero, ac mae'n defnyddio'r data hwnnw i asesu effeithlonrwydd yr asedau, dibynadwyedd a darpariaeth gwasanaeth, ac mae'n gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddata. | • System Rheoli Asedau<br>• Cynllun Strategol Digidol<br>• Dangosfwrdd PowerBI ar gyfer Newid Hinsawdd gyda dangosyddion sy'n ymwneud â defnyddio ynni. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cydymffurfiaeth gyda Safonau a Reoliadau –** Mae'r cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau rheoli asedau perthnasol, rheoliadau ac arfer gorau ac mae'n dangos ymrwymiad i ansawdd, cysondeb a gwelliant parhaus. | • Adnabod ac ymateb i RAAC<br>• Arolwg ar gyflwr asedau<br>• Cod llywodraethu lleol - tudalen 7<br>• Polisiau Iechyd a Diogelwch |

DRAFT

# Caffael a Rheoli Contract

Yn bodloni disgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae rheoli caffael yn canolbwyntio ar gaffael nwyddau neu wasanaethau am y tro cyntaf, tra bod rheoli contractau yn canolbwyntio ar reolaeth barhaus a chydymffurfiaeth y cytundebau hynny unwaith y byddant ar waith. Mae'r ddwy broses yn hanfodol i gaffael a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyngor i weithredu a chyflawni amcanion allweddol yn effeithlon ac yn effeithiol.

At ei gilydd, mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o reolau a gweithdrefnau caffael, ac mae trefniadau rheoli contract yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae angen adolygu prosesau er mwyn alinio a bodloni'r disgwyliadau yn Neddf Caffael newydd 2023 a ddaw i rym ym mis Hydref 2024.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Cydymffurfiaeth gyda rheoliadau** – Mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda'r holl safonau a rheoliadau caffael, ac mae pob contract yn cael eu reoli felly pan fydd angen ei adnewyddu neu pan fydd angen un newydd. | • Canllaw Caffael<br>• Polisi Caffael TG<br>• Cytundeb a pholisi prosesu data<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Adolygiad Caffael STAR a Chynllun Gweithredu<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Cywirdeb ac Atebolrwydd** – Mae'r cyngor yn gywir ac yn atebol yn ei brosesau caffael a rheoli contractau, megis datgelu penderfyniadau caffael, telerau contract, a chanlyniadau perfformiad i randdeiliaid, sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn arferion caffael y cyngor. | • Strategaeth Rheoli Contractau<br>• Hyfforddiant caffael<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **Caffael Moesegol** – Mae'r cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud yn ddiduedd ac er lles gorau'r cyngor a'r gymuned drwy gynnal safonau moesegol mewn prosesau caffael, gan gynnwys tegwch, uniondeb, ac osgoi gwrthdaro buddiannau. | • Polisi Caffael Cynaliadwy<br>• Polisi Caffael TG<br>• Diogelu mewn caffael a chontractio<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Rheoli Perfformiad** – Mae'r cyngor yn sicrhau bod cyflenwyr yn darparu nwyddau a gwasanaethau yn unol â thelerau a safonau y cytunwyd arnynt drwy fonitro perfformiad ei gyflenwyr a'i gontractwyr yn seiliedig ar DPA, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a gofynion contract y cytunwyd arnynt. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Rheoli Risg** – Mae'r cyngor yn cynnal asesiadau risg ac yn gweithredu strategaethau lliniaru risg mewn prosesau caffael a rheoli contractau sy'n helpu i nodi a mynd i'r afael | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |



DRAFT

| | |
|---|---|
| â risgiau posibl, megis tarfu ar y gadwyn gyflenwi, anghydfodau contract, neu faterion diffyg cydymffurfio. | |

DRAFT

# Rheoli Risg ac Archwilio

Yn bodloni disgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Risg yn ymwneud â nodi a rheoli ansicrwydd a allai effeithio ar amcanion y cyngor mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol. Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a gweithgareddau ymgynghori i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r cyngor. Mae'n helpu'r cyngor i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae archwilwyr allanol a rheoleiddwyr yn craffu ar brosesau rheoli a llywodraethu, gan sicrhau ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a rheoleiddiol. Gyda'i gilydd, maent yn cynnal atebolrwydd cynghorau ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac yn rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol.

Mae'r cyngor yn monitro ac yn adolygu'r risgiau strategol a'r camau lliniaru a roddwyd ar waith yn rheolaidd i'w monitro ac mae ganddo berthynas ragorol â rheoleiddwyr ac archwilwyr. Mae prosesau a gweithdrefnau cyffredinol yn gryf ac mae diwylliant y sefydliad yn sicrhau eu bod yn arferion hanfodol mewn gweithgareddau dydd i ddydd.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Adnabod Risgiau –** Mae gan y cyngor brosesau cadarn ar waith i nodi ac asesu risgiau ar draws pob maes gweithredu, gan gynnwys risgiau ariannol, gweithredol, strategol a chydymffurfio. | • Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestr Risg Prosiect<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24 |
| **Lliniaru Risgiau –** Mae'r cyngor yn dangos arferion rheoli risg rhagweithiol gyda'r nod o leihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau andwyol trwy ddatblygu a gweithredu strategaethau a rheolaethau lliniaru risg effeithiol i fynd i'r afael â nhw. | • Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestr Risg Prosiect<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24 |
| **Swyddogaeth Archwilio Mewnol** – Mae gan y Cyngor dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chyngor i bob lefel o reolwyr ac aelodau etholedig a lleyg ar ansawdd gweithrediadau o fewn y Cyngor ac mae'n un o elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei chenhadaeth yw gwella a diogelu gwerth | • Strategaeth Archwilio Mewnol<br>• Siarter Archwilio Mewnol<br>• Diweddariadau Archwilio Mewnol |

DRAFT

| | |
|---|---|
| sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 20-24 |
| **Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth –** Mae'r cyngor yn darparu sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar reoli risg a rheolaeth fewnol i staff a rhanddeiliaid perthnasol sy'n sicrhau dealltwriaeth gyffredin o egwyddorion rheoli risg ac yn hyrwyddo diwylliant o ymwybyddiaeth risg ac atebolrwydd ar draws y sefydliad. | • Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 17-19 |
| **Archwilio Allanol a Rheolyddwyr –** Mae'r cyngor yn onest ac yn llwyr gefnogi ei archwilwyr allanol a rheoleiddwyr ar bob agwedd ar fusnes y cyngor gan gynnwys cyllid, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gweithgareddau corfforaethol eraill sydd yn eu tro yn darparu dilysiad annibynnol o'i reolaethau a'i arferion mewnol. | • Adolygiadau Cenedlaethol ac argymhellion cysylltiedig<br>• Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru<br>• Adroddiadau Estyn<br>• Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru |



DRAFT

# Rheoli Perfformiad

**Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau**

## Sut ydyn ni'n perfformiad ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion strategol, amcanion gwasanaeth ac amcanion unigol, o fewn yr adnoddau a neilltuwyd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae gan y cyngor awydd cryf i wneud gwelliannau parhaus ac mae'n onest wrth adolygu ei ddangosyddion perfformiad allweddol, gweithgareddau blynyddol a threfniadau monitro.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Amcanion Clir a Dangosyddion Perfformiad Allweddol –** Mae gan y cyngor amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir a DPAau mesuradwy sy'n cyd-fynd â'i flaenoriaethau strategol a'i nodau darparu gwasanaeth. | • Cynllun y Cyngor<br>• Dogfen Gyflawni Blynyddol<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22 |
| **Casglu a Dadansoddi Data –** Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth drwy fonitro data'n rheolaidd, dadansoddi data a nodi tueddiadau o'r data i wneud penderfyniadau gwybodus. | • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth<br>• Dangosfyrddau PowerBI<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 |
| **Monitro ac Adrodd Rheolaidd –** Mae'r cyngor yn sicrhau atebolrwydd a chywirdeb o ran rheoli perfformiad drwy fonitro perfformiad yn erbyn DPAau sefydledig yn rheolaidd a chyflwyno adroddiadau chwarterol ar berfformiad i aelodau etholedig ac uwch arweinwyr, swyddogion, a'r cyhoedd. | • Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Lleol<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn<br>• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) |
| **Diwylliant Gwelliant Parhaus –** Mae gan y cyngor ddiwylliant o welliant parhaus mewn arferion rheoli perfformiad, trwy adolygiadau a gwerthusiadau rheolaidd sy'n galluogi'r | • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22 |

| | |
|---|---|
| cyngor i addasu i amgylchiadau sy'n newid, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac ysgogi gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau. | |
| **Meincnodi a Chymharu** – Mae'r cyngor yn cymharu perfformiad â chynghorau eraill pryd bynnag y bo modd i sicrhau bod y perfformiad yn unol â'r disgwyliadau ac mae'n nodi meysydd i'w gwella. | • Stats Cymru<br>• Data Cymru<br>• Clybiau Clustnodi (data ddim wedi'i gyhoeddi) |

DRAFT

# Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Isod, gweler y meysydd sydd wedi'u nodi fel cyfleoedd i wella a'u monitro yn ystod 2024/25.

| Materion gwella a nodwyd | Camau i fynd i'r afael â'r gwendid | Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 1. Mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol ar ôl mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023-2028. | • Adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol i nodi'r dangosyddion perthnasol a blaenoriaethau a fydd yn cael eu olrhain a'u rheoli yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol. | Trawsnewid | Medi 2024 |
| 2. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data. | • Cynllun strategol digidol<br>• Cwblhau asesiad aeddfedrwydd data i adolygu ein seilwaith data, sgiliau a chapasiti<br>• Gweithredu system teleffoni newydd | Trawsnewid | Mawrth 2025 |
| 3. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd. | • Gweithredu'r camau cytunedig o'r Cynllun Gwella Caffael<br>• Cyhoeddi Cynllun Strategol Caffael | Adnoddau | Ebrill 2026 |
| 4. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid. | • Gwneud y defnydd gorau o'r grantiau sydd ar gael i'r cyngor<br>• Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)<br>• Adnabod arbedion ar gyfer 2025/26 ymlaen<br>• Adolygu a symleiddio prosesau er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith y gostyngiad mewn cyllid | Adnoddau | Mawrth 2025 |



DRAFT

| Materion gwella a nodwyd | Camau i fynd i'r afael â'r gwendid | Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 5. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau. | • Cyhoeddi a gweithredu Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024- 2029 newydd<br>• Diweddaru a cyhoeddi Cynllun Rheoli Stad man-ddaliadau newydd<br>• Rhesymoli asedau'r cyngor<br>• Rheoli ac ymateb i RAAC o fewn asedau'r cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Mawrth 2025 |
| 6. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill. | • Adolygu a gweithredu ymgyrch recriwtio ar gyfer yr Uned Ddarparu<br>• Gweithredu'r strategaeth rheoli risg pobl<br>• Moderneiddio'r wefan recriwtio a<br>• Gwella cyfraddau cadw staff mewn meysydd sy'n gweld trosiant uchel, yn enwedig swyddi sy'n arbenigol ac nad oes modd recriwtio ar eu cyfer yn rhwydd | Trawsnewid | Mawrth 2025 |

DRAFT

# Datganiad Sefyllfa Gwasanaethau'r Cyngor – 2024

Isod, sylwch ar ymateb pob gwasanaeth i'r categorïau tystiolaeth ar gyfer 2024

| Categorïau Tystiolaeth | Oedolion | Plant | Busnes y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Tai | Dysgu | Adnoddau | Trawsnewid | Y Cyngor Cyfan (cyfartaledd) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Gwasanaeth | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Rhagorol | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Rhagorol | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau |
| Cynllunio Ariannol | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Rhagorol | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau |
| Cynllunio Gweithlu | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Rhagorol | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau |
| Rheoli Asedau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau |
| Caffael a Rheoli Contract | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau |
| Rheoli Risg ac Archwilio | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau |
| Rheoli Perfformiad | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **23 GORFFENNAF 2024** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, ALLDRO 2023/24** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BETHAN HUGHES-OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**1.** Ar 9 Mawrth 2023, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2023/24 gyda gwariant net y gwasanaethau o £174.569m, i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol, yn ogystal â £3.780m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.109m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau eraill na chynlluniwyd ar eu cyfer. Gosodwyd cyllideb o £2.893m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor, sef cynnydd o £0.943m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda'r cynnydd o 5.00% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

**2.** Fel y llynedd, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys unrhyw ofynion ar y gwasanaethau i wneud arbedion.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 4, 31 Mawrth 2024. Cyflwynir adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ar ôl cwblhau'r Datganiad Cyfrifon drafft.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2023/24, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.732m. Mae hyn yn 0.99% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2023/24. Mae'r rhesymau dros y sefyllfa ariannol hon yn cael eu nodi yn yr adroddiad sydd ynghlwm.

**5.** Argymhellir:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A a B mewn perthynas ag alldro ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2023/24.

**(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2023/24, y manylir arnynt yn Atodiad C;

**(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2023/24 yn Atodiadau CH, D a DD.

**(iv)** Nodi bod balans o £15.694m yn cael ei amcangyfrif ar gyfer balansau cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a phan wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol – Adroddiad monitro yw hwn ac nid oes opsiynau i'w hystyried.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canolIG a'r<br>gyllideb flynyddol. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2023/24 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin 2024, ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth ac mae'r sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi adolygu'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2024. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2023/24
- Atodiad B – Tabl Alldro Dros Dro 2023/24
- Atodiad C – Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2023/24
- Atodiad CH - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2023/24
- Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Ymgynghorwyr 2023/24

**Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2023/24 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2023 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2023).

**ATODIAD A**

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – ALLDRO

### 1. BALANSAU CYFFREDINOL

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £19.637m a chronfeydd wrth gefn ysgolion gwerth £6.716m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Ar ôl archwilio'r cyfrifon, arweiniodd yr alldro ar gyfer 2022/23 at falans cyffredinol o £14.039m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol.

Mae sefyllfa'r balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

| Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith / Symudiad | Swm | Sylwadau |
|---|---|---|
| | **£** | |
| Balans Agoriadol 1 Ebrill 2023 | (14.039) | Yn unol â'r datganiadau ariannol wedi'u harchwilio. |
| | | |
| Cyllido Cyllideb Refeniw 2023/24 | 3.780 | Yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 9 Mawrth 2023 |
| Ad-daliad Trethi Busnes Oriel Ynys Môn | (1.220) | Mae'r Cyngor wedi apelio'n llwyddiannus yn erbyn Gwerth Trethadwy Oriel Ynys Môn, yn dyddio'n ôl i 2010. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi derbyn ad-daliad am y rhan fwyaf o'r trethi busnes a dalwyd ers 2010. |
| Ad-daliadau Trethi Busnes – Adeiladau Eraill y Cyngor | (0.428) | Mae'r Cyngor wedi apelio'n llwyddiannus yn erbyn Gwerth Trethadwy nifer o adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion sydd wedi cau, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, yn dyddio'n ôl i 2017. |
| Canolfan Addysg y Bont – Atgyweirio'r To | 0.034 | Cafodd taliad dargadw terfynol ei wneud yn 2023/24 mewn perthynas â gwaith atgyweirio a wnaed yn 2022/23. |
| Trosglwyddo o Gronfeydd clustnodedig | (2.001) | Mae adolygiad o gronfeydd wedi nodi nifer o gronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oes eu hangen bellach, neu lle mae'r risg y crëwyd y gronfa wrth gefn ar ei gyfer wedi newid, gan olygu bod modd lleihau'r cyllid clustnodedig. |
| **Balans Cau heb ei Archwilio fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024** | **(13.874)** | |
| | | |
| Gwarged Refeniw 2023/24 | (1.732) | Gweler gweddill yr adroddiad ac Atodiad B. |
| | | |
| **Balans Cau Diwygiedig heb ei Archwilio, fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024** | **(15.606)** | |
| | | |
| Cyllid ar gyfer Cyllideb Refeniw 2024/25 | 4.425 | Yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 7 Mawrth 2024. |
| | | |
| **Balansau Cyffredinol sydd ar gael** | **(11.181)** | **Mae'n cyfateb i 6.1% o gyllideb gwariant refeniw net y Cyngor ar gyfer 2024/25.** |

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024, derbyniodd y Cyngor yr argymhelliad y dylai'r Cyngor ddal o leiaf 5% o gyllideb refeniw net 2024/25 fel balansau cyffredinol. Mae hyn gyfystyr â ffigwr o £9.2m. o ganlyniad, rhagwelir bod lefel y balansau cyffredinol sydd ar gael £2m yn uwch na'r isafswm hwn.

## 2. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth wedi'i nodi yn Atodiad B. Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2024, cyn archwilio'r cyfrifon, yw tanwariant o £1.676m. Rhagwelir tanwariant o £401k ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal â hyn, rhagwelir y bydd incwm o gasglu'r Dreth Gyngor safonol a Phremiwm y Dreth Gyngor £0.337m yn is na'r gyllideb. Y rhagolwg presennol ar gyfer cyllideb refeniw 2023/24 yw tanwariant o £1.732m.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiannau sylweddol (tua £100k neu fwy):-

**Tabl 1**

**Crynodeb o Amrywiannau yn y Gyllideb Refeniw fesul Gwasanaeth ar gyfer 2023/24**

| | (Tan) / Gorwariant £'000 | % |
|---|---|---|
| Addysg Ganolog | (512) | (9.88) |
| Diwylliant | (112) | (7.75) |
| Oedolion | (585) | (1.64) |
| Gwasanaethau Plant | 1,403 | 10.68 |
| Gwastraff | (513) | (5.06) |
| Eiddo | 106 | (4.91) |
| Datblygu Economaidd | (500) | (14.65) |
| TGCh | (546) | (12.48) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (182) | (5.65) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – yswiriant, costau cyfalaf pensiynau a dyledion drwg | 595 | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | (181) | (4.17) |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-daliadau Eraill | (574) | (8.36) |
| Defnyddio Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | (307) | |
| Y Dreth Gyngor – Cynyddu'r Debyd | 337 | 0.71 |
| Arall (cyfanswm yr amrywiannau gwerth llai na £100k) | (161) | (0.62) |
| **Cyfanswm gor / (tan)wariant yr Amrywiannau (heb gynnwys arian cyllido)** | **(1,732)** | **(1.02)** |

## 3. ESBONIAD AM YR AMRYWIANNAU SYLWEDDOL

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod y gyllideb ar gyfer ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Erbyn hyn, mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £5.577m, o gymharu â £6.716m ar 31 Mawrth 2023. Ar hyn o bryd, mae 5 ysgol mewn diffyg yn y sector cynradd.

#### Addysg Ganolog

**3.1.2** Roedd tanwariant o £512k (9.88%) ar alldro yn y gwasanaeth. Mae hyn yn uwch na'r tanwariant o £326k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 3. Mae llawer o'r cyllidebau hyn yn seiliedig ar y galw, gan olygu bod rhagweld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn anodd.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd sy'n tan a gorwario o fewn y Gwasanaeth. Mae'r newidiadau mwyaf sylweddol o gymharu â'r hyn a nodwyd yn chwarter 3 yn cael eu rhestru isod:-

- Eithriadau Cynradd – Roedd gorwariant o £85k ar ddiwedd alldro, ac mae hyn yn symudiad o £158k o gymharu â thanwariant o £73k a nodwyd yn chwarter 3. Gorwariant o £90k yn y cyllidebau Trwsio a Chynnal a Chadw sydd i gyfrif am hyn ac roedd costau o £40k yn gysylltiedig â chau ysgol gynradd yn uwch na'r disgwyl.

- Cludiant Ysgol (Tacsis a Bysiau) – Roedd tanwariant o £156k ar alldro, ond y rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £121k. Gan fod gofynion disgyblion wedi newid, daethpwyd â 2 gytundeb i ben yn ystod y chwarter olaf gan ostwng y cyfanswm terfynol.

- Addysg Ganolog – Yn yr adroddiad chwarter 3,y rhagolwg oedd tanwariant o £109k ar y pennawd hwn, ond roedd y tanwariant wedi codi i £161k erbyn alldro. Roedd hyn o ganlyniad i gostau gwirio Cofnodion Troseddol £10k yn is na'r disgwyl, a dynodwyd costau staff yn erbyn grant refeniw ychwanegol.

- Rhagwelwyd byddai cyllideb Strategaeth ADY Môn a Gwynedd gydbwyso, ond roedd tanwariant o £86k ar alldro. Mae hyn yn newid sylweddol, ond, gan fod y cytundeb rhwng Cynghorau Môn a Gwynedd yn weithredol bellach, bydd yn bosib rhagweld gwariant yn erbyn ein cyllideb yn fwy cywir yn y dyfodol. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol, roedd y sefyllfa ariannol wedi gwella o ganlyniad i swyddi gweigion a derbyniwyd incwm ychwanegol nad oedd wedi cael ei rhagweld yn flaenorol.

- Anghenion Dysgu Ychwanegol (deddfwriaeth newydd) – Roedd tanwariant o £119k ar alldro, o gymharu â thanwariant o £30k yn chwarter 3. Mae'r tanwariant wedi cynyddu oherwydd bod modd rhoi costau staff yn erbyn y grant Darpariaeth ADY. Roedd y galw am y "Cynllun Cyfeirio" hefyd yn is na'r disgwyl.

- Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar -Tanwariant o £150k ar alldro, o gymharu â rhagolwg o danwariant o £112k yn chwarter 3. Roedd elfen o'r gyllideb wedi'i chadw'n ôl rhag ofn y byddai angen gwneud gwaith brys, ond nid oedd angen gwaith o'r fath yn ystod y flwyddyn gan olygu nad oedd y gyllideb wedi'i gwario.

**3.1.4 Diwylliant**

Roedd tanwariant o £112k (7.75%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Yr alldro a ragwelwyd yn chwarter 3 oedd tanwariant o £17k. Mae hyn yn newid sylweddol o un cyfnod adrodd i'r nesaf. Mae'r newid mwyaf yn y gwasanaeth Llyfrgelloedd, gan fod y gwasanaeth wedi gallu gwrthbwyso amser staff yn erbyn grantiau a dderbyniwyd, derbyniwyd ad-daliad Trethi Busnes annisgwyl ac roedd arbedion nad oeddent wedi'u rhagweld yn y gwasanaeth Talnet hefyd. Bu cynnydd uwch na'r disgwyl mewn incwm yn y gwasanaeth Archifau yn ystod y chwarter olaf hefyd.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd tanwariant o £585k (1.64%) yn y gwasanaeth ar alldro ac mae hyn yn newid sylweddol o gymharu â gorwariant o £188k a ragwelwyd yn chwarter 3. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei arwain gan y galw, felly, mae'n anodd llunio rhagolygon.

**3.2.2** Mae'r elfennau yn yr amrywiant yn yr alldro yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod, a cheir esboniadau am yr amrywiannau isod:-

**Tabl 2**

**Dadansoddiad o Sefyllfa'r Gwasanaethau Oedolion ar Alldro 2023/24**

| Gwasanaeth | Dadansoddiad o Incwm / Gwariant | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Preswyl | Nyrsio | Gofal Cartref | Gofal Dydd | Llety â Chymorth | Staffio | Arall | Grantiau a Chronfeydd Wrth Gefn | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheoli a Chymorth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (67) | (171) | (81) | **(319)** |
| Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed | (74) | 193 | 202 | 0 | 0 | 164 | (130) | (118) | **237** |
| Anableddau Corfforol | 635 | (21) | 279 | 0 | 0 | 31 | (16) | (407) | **501** |
| Anableddau Dysgu | 258 | 0 | (157) | 116 | 402 | 14 | (105) | (424) | **104** |
| Iechyd Meddwl | 328 | 0 | 34 | 0 | 145 | (86) | (25) | (332) | **64** |
| Uned Ddarparu | 352 | 0 | (686) | (158) | (46) | (367) | (51) | (11) | **(967)** |
| Uned Ddarparu - Incwm | (287) | 0 | 0 | 82 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(205)** |
| **Cyfanswm Pobl Hŷn a'r Gyfarwyddiaeth Oedolion** | **1,212** | **172** | **(328)** | **40** | **501** | **(311)** | **(498)** | **(1,373)** | **(585)** |

**3.2.3** **Rheoli a Chymorth**: Mae'r tanwariant wedi cynyddu o £202k yn chwarter 3 i £319k ar alldro. Mae hyn yn ganlyniad i dderbyn incwm grant ychwanegol gan WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymraeg), a chafwyd dwy swydd wag yn ystod y chwarter olaf.

**3.2.4** **Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed:** Mae'r gorwariant o £484k a ragwelwyd yn chwarter 3 wedi gostwng i £237k ar alldro, sef gostyngiad o £247k. Rydym wedi derbyn £104k o incwm ychwanegol o daliadau a ohiriwyd, ac roedd tanwariant o £85k ar DOLS (Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid), gan fod y costau'n is na'r disgwyl.

**3.2.5** **Anableddau Corfforol:** Roedd gorwariant o £501k ar alldro ac mae hyn £81k yn uwch na'r gorwariant o £420k a ragwelwyd yn chwarter 3. Mae hon yn gyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw ac mae'r adain yn ymateb i achosion sydd wedi codi. O ran gofal preswyl, mae costau wedi cynyddu oherwydd bod cynnydd mewn lleoliadau newydd a newidiadau i gyfraddau'r lleoliadau cyfredol, fodd bynnag, mae rhan o'r cynnydd yma yn cael ei ddigolledu gyda gostyngiad o £35k yng nghostau staffio. Mae'r anfonebau a godwyd wedi cael eu hadolygu ac, yn sgil hynny, roedd angen dyrannu ad-daliadau gwerth £107k i gyfrifon unigol. Mae cleientiaid newydd, newid mewn cyfraddau a chyllido ar y cyd ddim yn digwydd wedi ychwanegu at y gorwariant.

**3.2.6** **Anableddau Dysgu:** Mae'r gorwariant yma wedi gostwng o orwariant o £306k yn chwarter 3, i orwariant o £104k ar alldro. Unwaith eto, mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw, ac mae gostyngiad mewn costau lleoliadau annibynnol, ynghyd â gofal cartref, a gostyngiad bychan mewn taliadau uniongyrchol, yn cyfrannu at y gostyngiad a ragwelwyd yn y chwarter diwethaf. Mae'r addasiadau cyfrifyddu wedi cael eu hadolygu'n llawn, ac nid oes angen bellach am £187k o groniadau.

**3.2.7** **Iechyd Meddwl:** Mae'r gorwariant o £240k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3 wedi gostwng i £64k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigwr hwn wedi gostwng trwy ddefnyddio £332k o gyllid grant ychwanegol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei arwain gan y galw ac, ar ddechrai'r flwyddyn ariannol, roedd mwy o leoliadau nag y caniatawyd ar eu cyfer yn y gyllideb, ond bu gostyngiad yn y niferoedd yn ystod y chwarter olaf a dyna pan fod y ffigwr yn wahanol i'r rhagolwg ar ddiwedd y chwarter blaenorol.

**3.2.8 Uned Ddarparu:** Mae'r tanwariant o fewn yr adain hon wedi cynyddu o danwariant o £1,060k yn chwarter 3 i danwariant o £1,172k ar alldro. Derbyniodd Gofal Môn incwm grant ac mae hynny wedi gostwng y costau net, ond bu cynnydd sylweddol mewn cyflogau a chostau asiantaeth oherwydd y galw, fodd bynnag, roedd tanwariant ar gyfleustodau gan fod prisiau ynni wedi gostwng yn ystod trydydd chwarter a chwarter olaf 2023/24. Cynyddodd cyfraniadau cleientiaid yn ystod y chwarter olaf hefyd, ac roedd gwelliant o £81k yn ystod y chwarter.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd gorwariant o £1,403k (10.68%) yn y gwasanaeth ar alldro a'r rhagolwg yn chwarter 3 oedd gorwariant o £1,000k. Er bod hyn yn ymddangos yn wahaniaeth mawr o gymharu â'r ffigwr a nodwyd yn flaenorol, bu newidiadau mewn pedwar maes allweddol o un cyfnod adrodd i'r nesaf, fel y gwelir isod:-

**3.3.2 Plant sy'n Derbyn Gofal:** Mae'r gorwariant a ragwelwyd wedi cynyddu o £1,214k yn chwarter 3, i £1,715k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw, a newidiadau mewn lleoliadau a newidiadau cyfatebol yn y costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau, £358k, yw'r rheswm bod y gorwariant a ragwelwyd wedi newid. Mae costau cartrefi clyd wedi cynyddu hefyd yn ystod y chwarter olaf, gan olygu bod cynnydd o £89k mewn cyllidebau sydd eisoes dan bwysau.

**3.3.3 Adolygu a Chwynion:** Roedd gorwariant o £25k yn cael ei ragweld yn chwarter 3, ac mae gorwariant o £60k ar alldro, sef cynnydd o £35k. Mae hyn yn gysylltiedig â chostau staffio.

**3.3.4 Plant ag Anableddau:** Rhagwelwyd gorwariant o £12k yn y gyllideb yn chwarter 3, fodd bynnag, roedd tanwariant o £78k yn y gyllideb ar alldro. Roedd ymarfer recriwtio'r adain yn aflwyddiannus, felly, mae'r tanwariant ar staffio wedi cynyddu, roedd costau hyfforddi ar gyfer y tîm yn llawer is na'r disgwyl, mae swm o £25k yn gysylltiedig â gostyngiad yng nghostau rhedeg Bryn Hwfa ac, yn ystod y chwarter olaf, derbyniwyd £24k o incwm gan BIPBC nad oedd wedi'i gynnwys mewn rhagolygon blaenorol.

**3.3.5 Plant a Theuluoedd Eraill :** Rhagwelwyd gorwariant yn y Gwasanaeth o £64k yn chwarter 3, ond dim ond £9k yw'r gorwariant ar alldro. Y rheswm am hyn yw bod costau Cyfreithiol yn llai na ragwelwyd ac roedd costau therapi'n llai na'r rhagolygon.

**3.3.6** Arweiniodd y cyllidebau eraill o fewn y Gwasanaeth at danwariant net o £305k. Roedd yr amrywiannau a nodwyd yn unol â'r rhai yr adroddwyd arnynt ar ddiwedd chwarter 3, ac roedd y rhan fwyaf o'r tanwariant yn gysylltiedig â thanwariant o £232k ar gostau gweithwyr cymdeithasol.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd tanwariant o £63k (2.22%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Y rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £85k, ac mae hyn yn wahaniaeth o £23k. Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhagolwg a'r alldro yn deillio o'r canlynol:-

**3.4.2** Gweinyddu Tai, mae newid o £62k yn yr adain hon ac mae'n gysylltiedig â chanran amser staff ac adnoddau a ddyrannwyd i'r Gwasanaeth Cyfrif Refeniw Tai, gan fod y canran wedi cael ei newid fel rhan o adolygiad diwedd blwyddyn yn ystod y chwarter olaf. Mae newid o (£22k) yn rhagolwg yr adain Strategaeth Tai gan fod yn bosib dyrannu costau staff yn erbyn grantiau. Yn chwarter 3, y rhagolygon ar gyfer y Risg Corfforaethol Digartrefedd oedd cyllideb gytbwys, ond roedd tanwariant o (£89k) ar alldro o ganlyniad bod incwm o fewn y cynllun prydlesu sector preifat yn well na'r gyllideb.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (gan gynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £500k (14.65%) yn y gwasanaeth ar alldro.

**3.5.1.2** Roedd tanwariant o £157k ar elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, ond tanwariant o £63k oedd yn cael ei ragweld yn chwarter 3. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, roedd yn bosib rhoi amser staff yn erbyn grantiau amrywiol a derbyniwyd cyllid ar gyfer gwaith a wnaethpwyd gan ymgynghorwyr pan y bwriad, yn wreiddiol, oedd i'r Gwasanaeth ei gyllido.

**3.5.1.3** Yn chwarter 3, roedd disgwyl tanwariant o £35k yn yr adain Cyrchfan ar ddiwedd y flwyddyn, ond yr alldro gwirioneddol yw tanwariant o £135k. Roedd y tanwariant ar staff yn fwy na'r disgwyl oherwydd oedi annisgwyl wrth recriwtio staff, roedd modd rhoi elfennau o amser staff yn erbyn grantiau allanol ac roedd rhai cyllidebau gwariant, yr oedd disgwyl iddynt orwario, wedi tanwario mewn gwirionedd, a defnyddiwyd incwm grant i gyllido gwelliannau. Roedd disgwyl i incwm o fewn yr adain Forwrol fod yn unol â'r gyllideb, fodd bynnag roedd penawdau incwm yn ystod y chwarter olaf yn uwch na'u targedau incwm.

**3.5.1.4** Ar alldro roedd tanwariant o £208k yn y gwasanaeth Hamdden, ac mae hyn yn uwch na'r tanwariant o £56k a ragwelwyd yn chwarter 3. Er bod y gwasanaeth yn disgwyl i lefelau incwm ostwng ac i lai o bobl ddefnyddio'r cyfleusterau hamdden oherwydd yr argyfwng costau byw, digwyddodd y gwrthwyneb, ac roedd incwm yn ystod chwarter olaf y flwyddyn yn uwch na'r rhagolygon blaenorol. Mae costau nwy a thrydan wedi cael llai o effaith na'r disgwyl, ac roedd y cyllidebau ar eu cyfer wedi tanwario ar alldro.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Mae tanwariant o £182k (5.65%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro, a'r rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £111k (3.95%).

**3.5.2.2** Mae tanwariant o £16k yn yr adain Gynllunio, o gymharu â rhagolwg o orwariant o £1k yn chwarter 3. Yn ystod y chwarter, mae perfformiad incwm rheoli adeiladu wedi cynyddu ac mae'r targedau incwm wedi cael eu cyflawni oherwydd hynny.

**3.5.2.3** Mae tanwariant o £166k yn yr adain Gwarchod y Cyhoedd, o gymharu â thanwariant o £112k a ragwelwyd yn chwarter 3. Y prif amrywiannau o chwarter 3 i alldro yw bod y gwasanaeth rheoli cŵn a phlâu wedi gweld cynnydd mewn incwm, tra bod costau cynelu cŵn yn is. Roedd mwy o swyddi gweigion yn y gwasanaethau Amgylcheddol, mae incwm y gwasanaethau Cofrestru a Marchnadoedd wedi gwella ac mae'n uwch na'r targedau. Er hynny, bu ychydig o gynnydd yng nghostau rhedeg y swyddogaeth Safonau Masnach.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £79k (0.99%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro. Y swm a ragwelwyd yn chwarter 3 oedd tanwariant o £196k, ac mae hyn yn wahaniaeth o £265k. Er bod rhywfaint o fân amrywiannau o fewn y gwasanaeth, o gymharu â'r ffigyrau yr adroddwyd arnynt yn flaenorol, y prif esboniad am y gwahaniaeth yw, er bod sawl ymgais wedi'i wneud i gael y biliau trydan ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan, ni dderbyniwyd y biliau tan fis Mawrth. Roedd y biliau'n uwch na'r disgwyl a dim ond rhan o'r cyfnod y bu'r mannau gwefru'n weithredol oedd wedi'i gynnwys. Mae croniad o £98k wedi'i gynnwys i gwrdd â chostau trydan terfynol posib pan gytunir ar y swm sy'n weddill gyda'r cyflenwr.

**3.6.1.2** Roedd gorwariant o £304k yn y gyllideb Gwaith, gan gynnwys Gwaith Stryd, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond mae tanwariant ar gostau Gweinyddu a Meysydd Parcio yn gwrthbwyso'r rhan fwyaf o'r gorwariant hwn.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £513k (5.06%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar alldro ac, yn chwarter 3, roedd disgwyl tanwariant o £301k yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Y prif ffactor sy'n cyfrannu at gynnydd yn y tanwariant yw incwm ychwanegol a dderbyniwyd ar ôl gwerthu trydan a deunyddiau ailgylchu yn ystod y chwarter olaf.

**3.6.2.2** Rhagwelwyd tanwariant o thua £500k ar y contract Casglu Gwastraff oherwydd gorddarpariaeth pan luniwyd y gyllideb wreiddiol.

**3.6.3 Eiddo**

**3.6.3.1** Sefyllfa'r gwasanaeth ar alldro yw gorwariant o £106k (4.91%), o gymharu â thanwariant o £67k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3. Esbonnir yr amrywiannau isod.

**3.6.3.2** Ni wireddwyd targedau incwm rhent yn y gyllideb, a hynny'n bennaf o ganlyniad i adolygu anfonebau a godwyd. Yn dilyn hynny, tynnwyd nifer o anfonebau oddi ar y system. Canlyniad yr ymarfer hwn oedd bod eiddo amrywiol £100k o dan y targed yn y gyllideb, fodd bynnag, mae cyllidebau Neuadd y Farchnad, Mân Ddaliadau ac unedau Diwydiannol wedi rhagori ar eu targedau incwm.

**3.6.3.3** Roedd gorwariant sylweddol o £244k ar y cyllidebau trwsio a chynnal a chadw, o gymharu â rhagolwg o £119k ar ddiwedd y trydydd chwarter. Mae'r gorwariant mwyaf sylweddol yn y cyllidebau mân ddaliadau, £140k, ac Adeiladau Gweinyddu, £70k. Canlyniad gwaith nad oedd modd ei osgoi a gwaith yr oedd angen ei wneud yn dilyn tywydd garw sydd i gyfrif am y gorwariant.

**3.6.3.4** Oherwydd bod y rhaglen gyfalaf wedi'i chwtogi, roedd llai o gyfleoedd i ailgodi tâl am gyflogau'r Tîm Dylunio o brosiectau cyfalaf. Oherwydd hynny, y sefyllfa net yw bod y Tîm £154k dros y gyllideb, o gymharu â gorwariant o £88k a ragwelwyd ar ddiwedd y trydydd chwarter.

**3.6.3.5** Roedd tanwariant o £65k ar y gwasanaeth glanhau oherwydd oedi cyn hysbysebu swyddi gweigion, ond mae staff wedi eu penodi i'r swyddi erbyn hyn. Mae ailstrwythuro'r tîm Glanhau wedi cymryd llawer mwy o amser na'r disgwyl ac mae hyn, yn ogystal â swyddi gweigion, yn golygu bod tanwariant o £122k ar staffio o fewn y gwasanaeth. Roedd prisiau contractau cyfleustodau'n is na'r disgwyl ac mae hynny wedi arwain at danwariant o £60k. Roedd tanwariant o £78k ar y gyllideb glanhau toiledau cyhoeddus hefyd, ac nid oedd hyn wedi'i ragweld ar ddiwedd chwarter 3.

**3.7 Trawsnewid**

**3.7.1** Roedd tanwariant o £639k (-8.76%) ar gyllideb y Gwasanaeth Trawsnewid ar alldro.

**3.7.2** Roedd tanwariant o £3k (0.20%) yn y swyddogaeth AD ar ddiwedd y flwyddyn. Y rhagolwg yn chwarter 3 oedd gorwariant o £12k. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol rhwng chwarter 3 a diwedd y flwyddyn na chyfeiriwyd atynt mewn adroddiadau blaenorol.

**3.7.3** Roedd tanwariant o £546k (12.46%) yn yr adain TGCh ar alldro, ond y rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £393k. Mae hyn yn wahaniaeth sylweddol o £154k. Parhau wnaeth y tanwariant sylweddol ar staffio ac roedd tanwariant o £510k ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i ailstrwythuro a'r gallu i recriwtio i swyddi gweigion. Roedd tanwariant o £47k ar gyllidebau system ffôn ac roedd tanwariant o £187k ar y gyllideb caledwedd TGCh. Fodd bynnag, cafodd y rhain eu netio yn erbyn gorwariant o £110k ar y cyllidebau meddalwedd. Codi tâl yn fewnol ar adrannau eraill am nwyddau sy'n gyfrifol am y prif wahaniaeth yn yr alldro o gymharu â'r rhagolwg yn chwarter 3.

**3.7.4** Roedd tanwariant o £89k (7.22%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol ar alldro, ond, yn chwarter 3, roedd disgwyl tanwariant o £77k ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr holl gyllidebau yn parhau i fod yn unol â'r rhagolygon, heblaw bod swydd wedi dod yn wag yn Cyswllt Môn yn ystod y chwarter olaf.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)**

**3.8.1** Roedd tanwariant o £26k (0.67%) yn y swyddogaeth Adnoddau ar alldro. Yr alldro a ragwelwyd yn chwarter 3 oedd tanwariant o £90k. Mae'r prif newidiadau o chwarter 3 i alldro i'w gweld, yn bennaf, yn yr adain Refeniw a Budd-daliadau. Y rhagolwg yn chwarter 3 oedd tanwariant o £40k yn yr adain, ond sefyllfa gytbwys oedd yr alldro ar alldro. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, defnyddiwyd llai o staff asiantaeth na'r disgwyl, roedd incwm grant a dderbyniwyd yn llai na'r rhagolygon ac roedd costau postio'n llawer uwch na'r disgwyl.

**3.8.2** Yn ôl y disgwyl, roedd yr Adain Gyfrifeg wedi gorwario o ganlyniad i orwariant o £50k ar gostau banc, roedd tanwariant o £21k ar Gaffael canolog ac roedd Archwilio Mewnol yn parhau i wynebu anawsterau o ran recriwtio staff, felly, roedd ganddynt danwariant o £62k ar alldro. Mae £45k o'r tanwariant yn y cyllidebau Caffael wedi cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn glustnodedig er mwyn cyfrannu at gyllido'r Adolygiad Caffael sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant o £46k (2.29%) yn y swyddogaeth ar alldro. Yn chwarter 3, nodwyd bod disgwyl tanwariant o £54k (3.14%) ar alldro, ac mae hyn ychydig yn wahanol i'r alldro. Mae mân amrywiannau o gymharu â'r gyllideb, ond mae'r prif amrywiad o ganlyniad i lenwi swydd wag.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd tanwariant o £76k (2.98%) yn y swyddogaeth ar alldro. Mae cyllidebau Corfforaethol a Democrataidd yn cael eu defnyddio ar gyfer addasiadau cyfrifyddu yn ogystal â gwariant dinesig.

**3.10.2** Roedd gorwariant o £7k ar Gefnogaeth a Threuliau Aelodau, a'r rheswm am hyn yw bod Aelodau wedi dewis ymaelodi â'r cynllun pensiwn yn ystod y flwyddyn ariannol.

**3.10.4** Roedd gorwariant o £38k ar Gwnsela Staff, yn unol â'r rhagolygon. Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw. Roedd gorwariant o £38k ar Ffioedd Archwilio a £40k ar ffioedd Archwilio Grantiau, yn unol â'r rhagolygon. Roedd gorwariant o £19k ar Wasanaeth y Crwner, ond roedd hyn yn llawer gwell na'r disgwyl gan fod llai o waith wedi cael ei wneud gan y Crwner yn ystod y chwarter olaf. Roedd gorwariant o £44k ar yr Ardoll Prentisiaid ar alldro, oherwydd bod dyfarniadau cyflog yn uwch na'r gyllideb ac nid yw'r Awdurdod yn gallu rheoli'r gost hon. Roedd cyllidebau bychan amrywiol eraill yn tanwario gan liniaru'r gorwariant.

**3.11 Rheoli Corfforaethol**

**3.11.1** Roedd tanwariant o £3k (0.34%) yn y swyddogaeth ar alldro. Yn chwarter 3, roedd gorwariant o £5k yn cael ei ragweld ar alldro. Y rheswm am hyn yw nad ydi 100% o gostau staff yn cael eu cynnwys yn y gyllideb, a chafwyd tanwariant bychan o £5k ar gyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Roedd tanwariant o £401k (-3.48%) ar Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn ac roedd cyfanswm y cyllidebau hyn yn £4,479k. Trosglwyddwyd y mwyafrif o'r cyllidebau hyn, £3,872k, i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Trosglwyddwyd £300k i'r Cynllun Cymorth i Brynu, gan adael alldro o £307k. Mae Atodiad C yn cynnwys crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn. Mae ad-daliadau yn gysylltiedig â gwerth ardrethol y mae'r Awdurdod wedi llwyddo eu hawlio'n ôl yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'u cynnwys yn y cyllidebau wrth gefn. Byddant yn cael eu trosglwyddo i'r Balansau Cyffredinol.

**4.3** Mae'r gyllideb cyllid cyfalaf yn cynnwys 3 elfen: y swm a roddir o'r neilltu ar gyfer ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf - DRI), llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar falansau arian parod yng nghyfrifon banc a buddsoddiadau eraill y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi elwa ar gynnydd mewn cyfraddau llog ac mae buddsoddiadau'n cynhyrchu symiau sylweddol o incwm llog ac mae cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd £355k yn uwch na'r gyllideb o £1m. Er hynny, roedd y DRI a llog i'w dalu £174k yn uwch na'r gyllideb. O ganlyniad, mae tanwariant o £181k ar y gyllideb Cyllido Cyfalaf.

**4.4** Roedd cyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn nifer yr achosion a chynnydd yn y Dreth Gyngor. Yn gyffredinol, mae nifer y ceisiadau yn cynyddu ar ddiwedd yr haf wrth i waith tymhorol ddod i ben, ond nid oedd unrhyw gynnydd sylweddol yn y llwyth achosion yn ystod Hydref / Gaeaf 2023. Yn seiliedig ar y lefel bresennol o ddyfarniadau a roddwyd, mae'n bosib y gwelir tanwariant ar y gyllideb hon, ond mae'r sefyllfa'n newid wrth i'r argyfwng costau byw barhau, a gallai'r cynnydd a ragwelir mewn diweithdra dros y misoedd nesaf hefyd gynyddu nifer y bobl sy'n derbyn cymorth drwy'r cynllun hwn. Roedd tanwariant o £574k ar alldro.

**4.5** Mae'n ofynnol hefyd i'r Cyngor ddarparu ar gyfer y posibilrwydd o golli incwm oherwydd dyledion drwg ac amheus. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyfrifo yn seiliedig ar faint, oed a'r math o ddyled a chan ei bod yn anodd iawn cyfrifo'r ffigwr hwn cyn diwedd y flwyddyn ariannol, nid oes darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer y swm hwn yn y gyllideb. Ar gyfer 2023/24 mae cynnydd o £595k wedi cael ei neud i'r Ddarpariaeth Dyledion Drwg ac Amheus ac mae'r swm hwn wedi'i godi ar y Cyfrif Refeniw.

**5. Casglu'r Dreth Gyngor**

**5.1** Mae cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2022. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd a fu a gasglwyd, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, mae incwm y Dreth Gyngor graidd £513k yn is na'r gyllideb ar alldro.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Unwaith eto, mae'r premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi wedi gostwng oherwydd bod eiddo wedi trosglwyddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes ond, er bod eiddo wedi cael eu trosglwyddo, mae niferoedd cyffredinol ail gartrefi wedi aros yn weddol gyson ac, oherwydd hynny, mae gwarged o £176k ar gyllideb Premiwm y Dreth Gyngor ar alldro.

**6. Arbedion Cyllidebol 2023/24**

**6.1** Nid oedd angen i'r gwasanaethau wneud unrhyw Arbedion Cyllidebol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

**7. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr**

**7.1** Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £1.584m ar staff Asiantaeth. Roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol, yn bennaf, o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £1.015m yn ymwneud â staff cyflenwi ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £299k ar weithwyr mewn canolfannau ailgylchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad CH.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £799k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2024, a chyllidwyd £502k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Cyfanswm y gwariant ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2023 i Fawrth 2024 oedd £1.804m. Mae Atodiad D yn cynnwys crynodeb llawn o wariant fesul gwasanaeth, yn ogystal â manylion ychwanegol am y gwariant.

## 8. Casgliad

**8.1** Mae'r Cyngor wedi wynebu nifer o faterion yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, ac maent wedi cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor a'i allu i ddarparu rhagolygon cywir o'r sefyllfa ariannol. Maent yn cynnwys:-

- **i.** Anawsterau parhaus o ran recriwtio staff ac, oherwydd hynny, mae nifer o swyddi wedi bod yn wag am gyfnod, er y dylid nodi fod Gwasanaethau wedi cael cais, yn ystod ail hanner y flwyddyn, i geisio cadw swyddi yn wag cyn hired â phosib, er mwyn lleihau costau a gwella sefyllfa ariannol y Cyngor.
- **ii.** Mae'r galw am wasanaethau'n parhau i fod yn anwadal, yn enwedig gofal cymdeithasol Oedolion a Phlant, atal digartrefedd a gwasanaethau addysg tu allan i ysgolion. Mewn rhai gwasanaethau, gall cost pob achos fod yn sylweddol a gall newid bychan yn nifer yr achosion gael effaith sylweddol ar gyfanswm cost y gwasanaeth.
- **iii.** Unwaith eto, mae derbyn cyllid grant ychwanegol yn hwyr yn y flwyddyn wedi effeithio ar y rhagolygon ariannol, er y dylid nodi bod lefel y cyllid grant ychwanegol wedi gostwng yn sylweddol yn 2023/24.
- **iv.** Oherwydd cyflwr asedau'r Cyngor (adeiladau, cerbydau, isadeiledd ac offer TG) bu cynnydd mewn gwariant brys sy'n angenrheidiol i gynnal asedau mewn cyflwr gweithredol derbyniol. Gall y gwariant hwn fod yn wariant sydd heb ei gynllunio ac mae'n cael effaith ar y rhagolygon ariannol.

**8.2** Mae'r alldro ariannol cyffredinol, incwm ar hap unwaith ac am byth a bod mewn sefyllfa i ryddhau cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor gan fod risgiau wedi lleihau, yn golygu bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn gryf ac mae lefel y balansau cyffredinol yn iach.

**8.3** Fel y gwelwyd yn 2024/25, mae'r Cyngor yn dibynnu, ar hyn o bryd, ar ddefnyddio ei falansau cyffredinol i osod cyllideb gytbwys ac mae'n golygu fod y Cyngor yn cael yr amser angenrheidiol i newid ei ffordd o gyflenwi gwasanaethau. Mae canlyniad blwyddyn ariannol 2023/24 yn caniatáu i'r Cyngor ystyried, unwaith eto, defnyddio cronfeydd wrth gefn fel ffynhonnell cyllido tymor byr wrth osod cyllideb 2025/26. Er nad yw'r Cyngor yn debygol o fedru dyrannu'r un lefel o gronfeydd wrth gefn ag mewn blynyddoedd a fu, mae'n parhau i fod o gymorth sylweddol er mwyn cwrdd â'r her o osod cyllideb gytbwys yn 2025/26 a 2026/27.

**ATODIAD B**

**Alldro Refeniw ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024**

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2023/24 Cyllideb Flynyddol Annual Budget** | **Alldro Dros Dro / Provisional Outturn** | **Cyfanswm Dros Dro Amrywiant Alldro / Provisional Total Outturn Variance** | **Gor / (Tan) Wariant dros dro fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget** | **Gwahaniaeth yn y cyllidebau a reolir gan y gwasanaethau o gymharu â Ch3 / Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** |
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** ***Education, Skills and Young People*** | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget* | 57,423 | 57,423 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog *Central Education* | 5,183 | 4,671 | (512) | (9.88%) | (326) |
| Diwylliant *Culture* | 1,441 | 1,329 | (112) | (7.75%) | (17) |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** ***Adult Services*** | 35,780 | 35,195 | (585) | (1.64%) | 188 |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** ***Children's Services*** | 13,133 | 14,536 | 1,403 | 10.68% | 1,000 |
| | | | | | |
| **Tai** ***Housing*** | 2,833 | 2,770 | (63) | (2.22%) | (85) |
| | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** ***Highways, Waste & Property*** | | | | | |
| Priffyrdd *Highways* | 7,928 | 8,007 | 79 | 0.99% | (196) |
| Eiddo *Property* | 2,153 | 2,259 | 106 | 4.91% | (67) |
| Gwastraff *Waste* | 10,138 | 9,625 | (513) | (5.06%) | (301) |
| | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>***Service/Function*** | **2023/24 Cyllideb Flynyddol Annual Budget** | **Alldro Dros Dro / Provisional Outturn** | **Cyfanswm Dros Dro Amrywiant Alldro / Provisional Total Outturn Variance** | **Gor / (Tan) Wariant dros dro fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget** | **Gwahaniaeth yn y cyllidebau a reolir gan y gwasanaethau o gymharu â Ch3 / Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>***Regulation & Economic Development*** | | | | | |
| Datblygu Economaidd<br>*Economic Development* | 3,414 | 2,914 | (500) | (14.65%) | (154) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>*Planning and Public Protection* | 3,221 | 3,039 | (182) | (5.65%) | (111) |
| | | | | | |
| **Trawsnewid**<br>***Transformation*** | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,670 | 1,667 | (3) | (0.20%) | 12 |
| TGCh<br>*ICT* | 4,381 | 3,835 | (546) | (12.46%) | (393) |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 1,229 | 1,140 | (89) | (7.22%) | (77) |
| | | | | | |
| **Adnoddau**<br>***Resources*** | 3,962 | 3,936 | (26) | (0.67%) | (90) |
| | | | | | |
| **Busnes y Cyngor**<br>***Council Business*** | 2,018 | 1,972 | (46) | (2.29%) | (65) |
| | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd**<br>***Corporate & Democratic costs*** | 2,548 | 2,472 | (76) | (2.98%) | (59) |
| | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol**<br>***Corporate Management*** | 817 | 814 | (3) | (0.34%) | 5 |
| - | | | | | |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau<br>*Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services income* | | | | | |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau**<br>**Total Service Budgets** | 159,272 | 157,603 | (1,669) | (1.05%) | (736) |
| | | | | | |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth**<br>***Service/Function*** | **2023/24 Cyllideb Flynyddol Annual Budget** | **Alldro Dros Dro / Provisional Outturn** | **Cyfanswm Dros Dro Amrywiant Alldro / Provisional Total Outturn Variance** | **Gor / (Tan) Wariant dros dro fel % o’r Gyllideb Gyfan / Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget** | **Gwahaniaeth yn y cyllidebau a reolir gan y gwasanaethau o gymharu â Ch3 / Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ardollau<br>*Levies* | 4,495 | 4,495 | 0 | (0.01%) | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol<br>*Discretionary Rate Relief* | 105 | 140 | 35 | 32.86% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf<br>*Capital Financing* | 4,329 | 4,148 | (181) | (4.17%) | (382) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill<br>*General & Other Contingencies* | 307 | (1,728) | (2,035) | (662.61%) | (1,231) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor<br>Council's General *Reserves* | (3,780) | (2,052) | 1,728 | (0.00%) | 1,201 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol<br>*Support Services contribution HRA* | (800) | (769) | 31 | (3.86%) | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd<br>*Benefits Granted* | 6,861 | 6,287 | (574) | (8.36%) | (200) |
| Na ellir ei reoli<br>*Uncontrollable* | 0 | 595 | 595 | 0.00% | 400 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol**<br>***Total Corporate Finance*** | 11,517 | 11,116 | (401) | (3.48%) | (212) |
| | | | | | |
| **Cyfanswm 2023/24**<br>***Total 2023/24*** | **170,789** | **168,720** | **(2,070)** | **(1.21%)** | **(948)** |
| | | | | | |
| **Cyllido**<br>***Funding*** | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NDR* | (22,823) | (22,823) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (44,231) | (43,718) | 513 | (1.16%) | 106 |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (2,893) | (3,069) | (176) | (6.09%) | 106 |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (100,842) | (100,842) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2023/24**<br>***Total Funding 2023/24*** | **(170,789)** | **(170,452)** | **337** | **(0.20%)** | **212** |
| | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2023/24 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | Alldro Dros Dro / Provisional Outturn | Cyfanswm Dros Dro Amrywiant Alldro / Provisional Total Outturn Variance | Gor / (Tan) Wariant dros dro fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over/(Under)spend as a % of Total Budget | Gwahaniaeth yn y cyllidebau a reolir gan y gwasanaethau o gymharu â Ch3 / Difference to Qtr 3 on Service Controlled Budgets |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido** ***Total outturn including impact of funding*** | **0** | **(1,7320)** | **(1,732)** | **1.02%** | **(736)** |

**ATODIAD C**

**Sefyllfa Alldro Cyllidebau Wrth Gefn 2023/24**

| | **Cyllideb** £ | **Trosglwyddo i Wasanaethau** £ | **Gwirioneddol** £ | **Trosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn clustnodedig** £ | **Sefyllfa Alldro** £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol | 400,737 | - 261,001 | - | - | -139,736 |
| Cyflog a Graddfeydd | 100,000 | -300,200 | - | - | 200,200 |
| Chwyddiant Cyflog | 2,000,000 | -1,686,646 | - | - | -313,354 |
| Cynllun Cymorth i Brynu Tai | 1,501,907 | -1,201,907 | - | 300,000 | - |
| Twf Rhanbarthol – Bwrdd Uchelgais Economaidd | 86,250 | -74,070 | - | - | -12,180 |
| Cynllun Hyfforddai | 340,000 | -340,000 | - | - | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | -7,950 | - | - | -42,050 |
| Gwerth Ardrethol Oriel Ynys Môn | - | - | -1,727,879 | - | -1,727,879 |
| **Cyfanswm Cronfa wrth Gefn Cyffredinol ac eraill** | **4,478,894** | **-3,871,774** | **-1,727,879** | **300,000** | **-2,034,999** |

**Costau Asiantaeth Ebrill 2023 i Mawrth 2024**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Cyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 5,257 | Cyllideb Staff nas defnyddiwyd…….. | Dros Dro | Absenoldeb mamolaeth deiliad swydd. Daeth yr asiantaeth i ben ar 12 Mai, 2023 |
| | -630 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Gorfodi Tai |
| | **4,627** | | | |
| Ysgolion | 55,715 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn maes arbenigol |
| | **55,715** | | | |
| Gwastraff | 298,692 | Cyllideb Craidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol eu hangen dros dymor byr |
| | 60,563 | Cyllideb Craidd Benodol / Cyfraniad Allanol | | Tasgau Penodol ar y Safle |
| | **359,255** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 289,744 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Llenwi swyddi gwag |
| | **289,744** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 708,206 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Llenwi swyddi gwag |
| | 17,032 | Ariannwyd a Grant | Dros Dro | Llenwi swyddi gwag |
| | **725,238** | | | |
| Adnoddau | 42,394 | Cyllideb staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Gwaith Cymhorthdal |
| | 49,328 | Cyllideb staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | 57,980 | Cronfa wrth gefn wedi'i Clustnodedig | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | **149,701** | | | |
| **Cyfanswm** | **1,584,280** | | | |

**ATODIAD D**

## Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr Ebrill 2023 i Mawrth 2024

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Ch1 £** | **Ch2 £** | **Ch3 £** | **Ch 4 £** | **Cyfanswm 2023/24 £** |
| Addysg Canolog | 4,525 | 8,714 | 9,025 | 16,530 | **38,794** |
| Diwylliant | 0 | 0 | 17,500 | 24,711 | **42,211** |
| Economaidd ac Adfywio | 101,463 | 176,417 | 482,417 | 460,151 | **1,220,448** |
| Eiddo | 0 | 0 | 7,537 | 0 | **7,537** |
| Priffyrdd | 4,727 | 22,227 | 42,402 | 226,952 | **296,308** |
| Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwastraff | 6,236 | 8,885 | 6,279 | 34,720 | **56,120** |
| CRT | 0 | 0 | 0 | 15,630 | **15,630** |
| Tai | 0 | 0 | 2,900 | 0 | **2,900** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | 0 | 0 | 2,400 | **2,400** |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 0 | 0 | 2,250 | **2,250** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 5,365 | 2,466 | 6,973 | 10,675 | **25,479** |
| Busnes y Cyngor | 14,995 | 18,696 | 6,620 | 0 | **40,310** |
| Adnoddau | 9,970 | 0 | 38,426 | 4,900 | **53,296** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **147,280** | **237,405** | **620,079** | **798,919** | **1,803,684** |
| Cyllidwyd gan: | | | | | |
| Cyllideb Craidd | 44,046 | 103,980 | 181,943 | 276,300 | **606,269** |
| Grant | 5,227 | 73,435 | 376,828 | 328,394 | **783,885** |
| Cyfraniad Allanol | 82,524 | 55,473 | 57,218 | 173,928 | **369,142** |
| Arian Wrth Gefn / Darpariaethau | 15,484 | 4,517 | 4,090 | 20,298 | **44,388** |
| **Cyfanswm** | **147,280** | **237,405** | **620,079** | **798,919** | **1,803,684** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **23 GORFFENNAF 2024** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2023/24** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:** E-bost: | **JEMMA ROBINSON** **JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:**

- Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2023/24 fydd yn destun Archwiliad; a
- Cymeradwyo dwyn ymlaen £15.499m i 2024/25 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2024/25 (Atodiad A – paragraff 4.3). Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 yw £59.337m.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, fydd yn destun Archwiliad;
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad ac ymgorfforwyd y sylwadau ar yr adroddiad drafft yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro wedi'u cynnwys yn sylwadau'r TA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a Strategaeth Gyfalaf. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig (ICF), yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllido'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n (LlC) neilltuol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2023/24 yn destun proses ymgynghori gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldeb e.e. grant mynediad i ysgolion i'r anabl, grant cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Iaith Gymraeg. |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Alldro Cyfalaf – 2023/24
Atodiad B – Crynodeb o Wariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a llithriad i 2024/25
Atodiad C - Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2023/24, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.
- Monitro'r Gyllideb Gyfalaf, Chwarter 1 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 26 Medi 2023.
- Monitro'r Gyllideb Gyfalaf, Chwarter 2 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Tachwedd 2023.
- Monitro'r Gyllideb Gyfalaf, Chwarter 3 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Chwefror 2024.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad alldro cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf. Bydd y ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn destun archwiliad.

**1.2** Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £24.405m ar gyfer 2023/24, a rhaglen gyfalaf o £13.557m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith lithriad cyfalaf o £13.477m gael ei ddwyn ymlaen o 2022/23, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £33.532m, a £17.907m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen gwerth cyfanswm o £15.089m, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, ac mae cynnydd o £1.26m yng nghyllideb y CRT. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb ar gyfer 2023/24 i £67.788m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

| Cyllidir gan: | Cyllideb wreiddiol 2023/24 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad fel a gymeradwywyd yn yr alldro ar gyfer Ch4 2022/23 £'000 | Cynnydd yn y CRT fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith, Mehefin 2023 £'000 | Cynlluniau ychwanegol / newidiadau ers gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant | 22,367 | 2,909 | | 17,151 | **42,427** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,077 | 3,294 | | 2,129 | **8,500** |
| Benthyca Digefnogaeth | 2,797 | 38 | | (2,797) | **38** |
| Cyfraniad Refeniw | 9,221 | 3,936 | 1,260 | (2,782) | **11,635** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 | 443 | | (500) | **443** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | | 2,780 | | 1,815 | **4,595** |
| Benthyciad | | 77 | | 73 | **150** |
| **CYFANSWM** | **37,962** | **13,477** | **1,260** | **15,089** | **67,788** |

Gweler Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb.

## 2. GWARIANT CYFALAF 2023/24

**2.1** Tabl yn crynhoi'r gwariant hyd at 31 Mawrth 2024:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | (Tan) / Gor Wariant £'000 | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 2,100 | 1,450 | (650) | 69 |
| Tai – CRT | 19,988 | 19,806 | (182) | 99 |
| Dysgu Gydol Oes | 13,942 | 13,160 | (782) | 94 |
| Economaidd ac Adfywio | 14,706 | 7,168 | (7,538) | 49 |
| Priffyrdd | 8,578 | 5,573 | (3,005) | 65 |
| Rheoli Gwastraff | 362 | 99 | (263) | 27 |
| Eiddo | 7,163 | 2,536 | (4,627) | 35 |
| Trawsnewid | 687 | 486 | (201) | 71 |
| Gwasanaethau Oedolion | 262 | 296 | 34 | 113 |
| **Cyfanswm** | **67,788** | **50,574** | **(17,214)** | **75** |
| **Cyllidir gan:** | | | | |
| Grant Cyfalaf | 42,427 | 29,936 | (12,491) | 71 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 443 | 98 | (345) | 22 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 8,500 | 3,991 | (4,509) | 47 |
| Benthyca Digefnogaeth | 38 | 38 | 0 | 100 |
| Cyfraniad Refeniw | 11,635 | 12,645 | 1,010 | 109 |
| Benthyciad | 150 | 135 | (15) | 90 |
| Cronfa Gyfalaf | 4,595 | 3,731 | (864) | 81 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **67,788** | **50,574** | **(17,214)** | **75** |

**2.2** Roedd y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £47.8m, ac roedd £30.768m wedi'i wario ar 31 Mawrth 2024. Mae hyn yn cyfateb i 64% o'r gyllideb. Mae rhesymau am y tanwariant yn cynnwys:-

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---:|---|
| Gwaith cyfalaf oherwydd Concrit wedi'i awyru, ei awtoglafio a'i atgyfnerthu (RAAC) | 1.014 | Oherwydd materion RAAC, roedd angen i'r Cyngor ymrwymo i wariant, heb unrhyw sicrwydd o gyllid ychwanegol, er mwyn sicrhau diogelwch pawb yn yr ysgolion effeithwyd. Yna, cafwyd trafodaethau a LlC o ran cyllid ychwanegol ac, yn ystod rhan olaf 2023/24, dyfarnwyd £1.695m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cyfalaf yn gysylltiedig â RAAC. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant ar waith RAAC hyd yma, a'r gweddill ar adeiladau addysg yn 2023/24, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid sydd wedi'i arbed gan yr Awdurdod yn sgil y grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido gweddill y gwaith RAAC yn 2024/25. |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 0.372 | Yn 2022/23, dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant i'r Awdurdod i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23, ac roedd tanwariant o £0.111m yn dilyn y gwariant a gafwyd yn 2023/24.<br><br>Yn yr un modd, cafwyd tanwariant o £0.261m ar y dyraniad ar gyfer 2023/24, ac mae LlC wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor ddwyn ymlaen swm o £0.108m i gwblhau gwaith yr ymrwymwyd iddo. |
| Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl | 0.134 | Y rheswm am hyn yw bod addasiadau ar gyfer yr anabl wedi'u cwblhau ym mhob ysgol uwchradd heblaw am un. Mae gwaith yn yr ysgol uwchradd sy'n weddill wedi'i ohirio wrth ddisgwyl am ganlyniad astudiaethau dichonolrwydd. Mae gwaith yn cael ei gwblhau mewn ysgolion cynradd pryd a phan fydd angen.<br><br>Er bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud, efallai y bydd angen rhagor o waith yn y dyfodol i fynd i'r afael ag anghenion unigolion nad ydynt yn hysbys i ni eto, felly, mae angen i'r tanwariant lithro i 2024/25. |
| Cynlluniau Llifogydd Amrywiol | 1.009 | Mae rhai cynlluniau'n rhai parhaus ac maent yn pontio mwy nag un flwyddyn ariannol. Gwelwyd oedi gyda chynlluniau eraill ac mae LlC wedi cytuno ar estyniad amser er mwyn eu cwblhau a dwyn y cyllid ymlaen, tra bod cynlluniau eraill wedi'u cwblhau. |
| Cronfa Ffyniant Bro | 6.151 | Roedd y bidiau a dderbyniwyd fel rhan o'r broses dendro'n llawer uwch na'r gyllideb, ac oherwydd hynny bu'n rhaid ail-dendro'r gwaith a lleihau'r cwmpas fel ei fod yn fwy ymarferol. Yn y pendraw, arweiniodd hyn at oedi yn y cynlluniau ac mae cais i ddwyn ymlaen £4.905m o'r tanwariant er mwyn cwblhau cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt. |
| Adfywio Caergybi – Menter Treflun Cam II | 0.625 | Mae'r gwaith wedi arafu'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac roedd disgwyl tanwariant, yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol. O ganlyniad, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd yn 2024/25. |
| Cyfarpar Ailgylchu Rheoli Gwastraff | 0.256 | Mae'r gwasanaeth wedi adolygu a blaenoriaethu ei wariant cyfalaf yn unol â'i strategaeth a'i gynllun ariannol 5 mlynedd ac mae nawr wrthi'n caffael pedwar eitem o beiriannau a pheirianwaith. Fodd bynnag, mae'r amseroedd arwain posib yn dilyn derbyn tendrau llwyddiannus yn golygu nad yw'r peiriannau a'r peirianwaith yn debygol o gael eu cyflenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Serch hynny, mae'r cyllid wedi'i ymrwymo'n llawn. |

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Isadeiledd Morwrol | 0.178 | Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cael ei ail-ddylunio ac, oherwydd yr amseru, mae cais i ddwyn y gyllideb ymlaen i 2024/25 er mwyn cwblhau'r cynllun hwn. Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiadau monitro blaenorol. |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 0.194 | Roedd disgwyl tanwariant, yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol, oherwydd bod angen cyllid cyfatebol ar gyfer y grant Cronfa Ffyniant ar y Cyd ac mae'n fanteisiol i'r rhanbarth wario cymaint â phosib o gyllid grant eleni a darparu ein cyllid cyfatebol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnir, felly, am gael dwyn y cyllid hwn ymlaen i flwyddyn ariannol 2024/25. |
| Grantiau Gwres Carbon Isel (LCHG) | 3.805 | Oherwydd bod y LCHG wedi cael ei ddyfarnu'n hwyr, fel y trafodwyd ym mharagraff 3.1, derbyniwyd £5.744m yn 2023/24, a gwariwyd £1.939m. |
| Gwaith cyfalaf ar asedau presennol | 0.503 | Mae gweddill y gyllideb wedi'i hymrwymo ar gyfer gwaith sy'n pontio 2023/24 a 2024/25. |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 0.280 | Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau cyhoeddus, a bydd y cynllun hwnnw'n rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Rhagwelir, hefyd, efallai y bydd cyllid grant ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus, ac, unwaith eto, efallai y bydd rhan o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio fel cyllid cyfatebol pe cyfyd y cyfle. |
| Cerbydau a Cherbydau Graeanu | 0.771 | Ni wariwyd y gyllideb ar gyfer cerbydau graeanu oherwydd nad oedd cerbydau addas ar gael i'w prynu.<br><br>Archebwyd cerbydau eraill cyn diwedd y flwyddyn, ond, oherwydd yr amseroedd aros cyn eu cyflenwi, ni fyddant yn cael eu derbyn tan ar ôl diwedd y flwyddyn, felly bydd angen i'r gyllideb lithro i flwyddyn ariannol 2024/25. |

Mae Atodiad B yn yr adroddiad hwn yn cynnwys rhestr lawn o wariant cynlluniau cyfalaf yn erbyn y gyllideb.

**2.3** Nid yw cyllideb y Gronfa Ffyniant Bro i gyd yn wariant uniongyrchol a ddefnyddir gan y Cyngor. O ran y gronfa hon, mae'r Cyngor yn derbyn y cyllid grant gan Lywodraeth y DU ac yna'n trosglwyddo'r cyllid i gyrff eraill sy'n gyfrifol am gyflawni prosiectau unigol. Os caiff y Gronfa Ffyniant Bro ei diystyru, mae lefel y tanwariant yn cyfateb â 18.9%.

**2.4** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wedi gwario 99% o'i gyllideb. Am ragor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT yn 2023/24, gweler adroddiad monitro chwarter 4 y CRT, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 23 Gorffennaf 2024.

## 3. CYLLID

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

Mae yna nifer o gynlluniau grant cyfalaf yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24. Mae rhai cynlluniau blynyddol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, megis Grant Gwaith Llifogydd ar Raddfa Fach, Grant Teithio Llesol a'r Grant Galluogi. Mae rhai cynlluniau'n parhau a byddant yn parhau yn 2023/24, megis cynlluniau Band B y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, cynlluniau Lliniaru Llifogydd amrywiol, Grant Cyfalaf Gofal Plant, Trawsnewid Treflun Caergybi a'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau. Dyfarnwyd cynlluniau grant cyfalaf newydd yn ystod y flwyddyn hefyd, gan gynnwys Grant Ysgolion Bro, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Uned Gofal Plant Y Fali, grant Porth Arfordirol Môn, grantiau Hamdden a grantiau gwres carbon isel amrywiol.

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** – Mae adeilad newydd Ysgol Corn Hir wedi'i gwblhau. Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig – mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn er gwaethaf oedi cynharach ar y safle, ac mae cam cyntaf gwaith gosod gwasanaethau yn yr adeilad wedi'i gwblhau.

- **Uned Gofal Plant Y Fali** – Sicrhawyd £0.850m o gyllid grant. Mae gwaith wedi dechrau ar y safle i baratoi'r is-strwythur. Roedd yr uned ofal plant newydd wedi cyrraedd y safle cyn diwedd y flwyddyn, ac mae gwaith pellach sydd angen ei wneud er mwyn cwblhau'r uned yn trosglwyddo i flwyddyn ariannol 2024/25.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi** – Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi llwyddo i ddenu cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) i wireddu nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Cybi. Mae cynnydd ar brosiectau sy'n cael eu cyllido ar y cyd trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yn cynnwys:-

  - Gwarchod ein Treftadaeth – Mae'r holl waith cyfalaf yn gysylltiedig â'r prosiect wedi'i gwblhau. Mae gwaith adfer wedi'i wneud ar Ffynnon y Wrach, Tŵr Ellin, yr Olygfan uwchben Ynys Lawd, Ynys Peibio, yr amddiffynfa rhyfel (*Pillbox)* yn Nhrearddur, y Fagnelaf (Battery) ym Mhenrhos ac amddiffynfa rhyfel (*Pillbox)* Cofeb Skinner.

- **Porth Twristiaeth –** Canolfan ymwelwyr Parc Gwledig y Morglawdd: mae'r gwaith wedi'i gwblhau, ac agorwyd y Ganolfan Ymwelwyr ym mis Mehefin 2023. Mae'r hawliadau terfynol wedi'u cyflwyno a'u talu, ond efallai y byddant yn destun Archwiliadau Ewropeaidd pellach yn y dyfodol.

- **Ffyniant Bro (gan gynnwys Cam II y Fenter Treftadaeth Treflun) –** Yn ystod chwarter 4, cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith atgyweirio ac adnewyddu ar Ucheldre ac mae'r sylfeini ar gyfer yr estyniad newydd wedi'u cwblhau, yn ogystal â gwaith draenio. Mae Môn CF wedi derbyn y tendrau ar gyfer adeilad yr HSBC a'r Adeiladau Canolog ac maent yn sylweddol uwch na'r gyllideb a gytunwyd, gan olygu bod rhaid adolygu'r prosiect i geisio lleihau costau fel eu bod yn fwy cyraeddadwy. Mae gwaith adnewyddu ar 9 Stryd Stanley yn mynd rhagddo. Mae gwaith ar Gabannau Traeth Newry yn mynd rhagddo. Yn dilyn ail ymarfer tendro, mae prisiau tendrau adeilad yr Empire yn dal i fod yn uwch na'r gyllideb, ac mae Cyngor Tref Caergybi'n edrych ar opsiynau cyllido ychwanegol. Mae caniatâd cynllunio a Chaniatâd Heneb Rhestredig wedi'u cadarnhau ar gyfer Eglwys Cybi Sant ac Eglwys y Bedd, a dim ond mân amodau a osodwyd, megis briff gwylio Archeolegol. Cyhoeddwyd y tendrau ar GwerthwchiGymru a derbyniwyd dau ymateb, a byddant yn cael eu harfarnu ym mis Ebrill. Canfuwyd problemau strwythurol ar 3 eiddo, a bydd hynny'n achosi oedi o ran cwblhau gwaith ar 14 Stryd Stanley. Mae gwaith cynllunio a dylunio wedi'i wneud ar Flaenau Siopau fel rhan o'r Fenter Treftadaeth Treflun. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ymestyn y Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro am 6 mis pellach, gan olygu bod y dyddiad cwblhau wedi'i ymestyn i 30 Medi 2025. Cyflwynwyd hawliad o £886,832 ar gyfer y chwarter.

- **Strydoedd Saffach –** Nod y cyllid, sy'n cael ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref trwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yw ceisio lleihau trosedd cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaergybi. Mae wedi darparu cyllid i'r gwasanaeth Priffyrdd er mwyn gwella goleuadau stryd, darparu camerâu cylch cyfyng ychwanegol ar gyfer Cyngor Tref Caergybi a gwella'r Bont Geltaidd. Cwblhawyd yr holl waith, a daeth y cyllid i ben ym mis Medi 2023, er bod ymrwymiad parhaus i ddarparu cyllid cyfatebol tan fis Mawrth 2024.

- **Prosiect Cam 2 Penrhos** – Nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Mae gwaith ar yr unedau bellach wedi'i gwblhau. Mae'r prosiect wedi'i gau'n ffurfiol gyda'r arianwyr.

- **Prosiect Cam 3 Penrhos** – yn wreiddiol sicrhawyd £3.1m o gyllid o'r ERDF, a dyfarnwyd swm pellach o £0.399m. Nod y cynllun hwn oedd adeiladu chwe uned fusnes newydd ychwanegol ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Mae gwaith ar y safle bellach wedi'i gwblhau. Mae'r prosiect wedi'i gau'n ffurfiol gyda'r cyllidwyr.

- **Prosiect Porth Llangefni** – Mae Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) mewn ardal o Langefni lle bydd 7 plot yn cael eu datblygu yn y pendraw.

  - **Unedau Porth (ERDF) –** Mae'r holl unedau wedi cael eu gosod.

  - **Cyd Fenter Porth –** Nod y Cyd Fenter Porth yw cwblhau gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Diwydiannol Tregarnedd (Safle Porth). Bydd gwaith marchnata'r plotiau sydd ar gael i'w gwerthu'n dechrau ar y cyd â'r gwasanaethau Eiddo.

- **Gwaith Grant ar Raddfa Fach –** Cymeradwywyd 7 cynllun adeiladu ar gyfer 2023/24. Cafodd un cynllun ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach (Capel Moriah, Gwalchmai), oherwydd cymhlethdod y gwaith ac am ei fod yn costio gormod. Cwblhawyd 2 gynllun (Y Garth a Maes Cyttir) ac mae'r 4 sy'n weddill (Carneddi, Kings Road, Maes Hafoty a Lôn Trearddur) wedi cael eu hisraddio a dim ond gwaith dylunio fydd yn digwydd eleni, unwaith eto oherwydd cymhlethdod. Bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno mewn blynyddoedd i ddod er mwyn adeiladu'r 4 cynllun yma.

- **Llanfairpwll, Porthaethwy Achos Busnes Llawn (ABLl)** – Mae ABLl Porthaethwy'n mynd rhagddo'n dda. Er hynny, mae gwaith ar achos busnes Llanfairpwll wedi'i ohirio oherwydd problemau gydag adnoddau.

- **Strwythur Mill Lane** – Mae'r system sensor diwygiedig bellach wedi cael ei rhoi ar waith ac mae'r cynllun nawr wedi'i gwblhau.

- **Teithio Llesol** – Sicrhawyd £2.253m o gyllid grant gan LlC i gynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Rhaglen Teithio Llesol wedi cael ei ail-phroffilio, a hawliwyd £1.739m yn ystod 2023/24 ar gyfer gweithgareddau'n gysylltiedig â chyfalaf a refeniw.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2022/23) –** Mae'r holl weithgareddau'n gysylltiedig â chyllid 2022/23 wedi'u cwblhau. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid grant o gronfa ULEV LlC ar gyfer 2023/24 er mwyn cwblhau'r gwaith (yn unol â'r isod).

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2023/24) –** Mae LlC wedi caniatáu estyniad amser ar gyfer adeiladu Hwb Cerbydau Trydan ym Mhlas Arthur tan ddiwedd mis Awst 2024, ac mae'r gyllideb wedi'i hymrwymo'n llawn.

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol – gwelliannau isadeiledd** – Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

- **Grant Gwres Carbon Isel (Swyddfeydd y Cyngor) –** Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Tachwedd 2023, ac mae arolygon tir wedi cael eu cynnal a disgwylir i'r gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn chwarter 1 2024/25.

- **Grant Gwres Carbon Isel (4 grant)** – Sicrhawyd £5.774m, gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid grant tuag at 90% o'r costau, ac mae'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol o gyllidebau cyfalaf presennol ar gyfer y 10% sy'n weddill. Gwariwyd £1.939m yn 2023/24.

- **Llifoleuadau Plas Arthur** - Cwblhawyd y prosiect yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd 2023.

- **Ysgol Uwchradd Bodedern – Cae 3G** – Cwblhawyd y prosiect canol Tachwedd 2023.

- **Ysgol Uwchradd Bodedern – Llifoleuadau –** Sicrhawyd £0.100m o gyllid gant trwy Chwaraeon Cymru i godi llifoleuadau ar y caeau chwaraeon newydd 2G a 3G. Cyfanswm cost y prosiect oedd £0.121m, gyda'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y gweddill.

- **Llawr Canolfan Hamdden Caergybi** – Sicrhawyd £0.100m o gyllid grant gan Chwaraeon Cymru i osod llawr newydd yn y brif neuadd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. Mae amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect yn £0.149m, a bydd y Cyngor yn darparu £0.049m o gyllid cyfatebol. Cychwynnodd y prosiect ym mis Mawrth 2024 a'i gwblhau mewn cyfnod o dair wythnos, yn unol â'r cytundeb â Chwaraeon Cymru.
- **Porth Arfordirol Môn** – Mae gwaith wedi'i gwblhau ar y 4 safle.

- **Grant Ysgolion Bro (2022/23) -** Gwariwyd y cyllid yn llawn.

- **Grant Ysgolion Bro (2023/24)** – Dyfarnwyd £0.200m yn 2023/24 i gefnogi prosiectau ymarferol bychan a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, ac yn benodol i addasu ac agor ysgolion yn effeithiol tu allan i oriau traddodiadol, i alluogi'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau presennol. Gwariwyd swm bychan o'r gant yn ystod chwarter 4, ac mae disgwyl i'r grant llawn gael ei wario yn 2024/25. Hysbyswyd LlC am hyn, ac mae'r gwariant wedi'i ailbroffilio a'i gyflwyno, a'i gymeradwyo. Y swm diwygiedig ar gyfer 2023/24 yw £0.030m.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2022/23) –** Roedd disgwyl tanwariant, yn unol â'r adroddiadau monitro blaenorol, ac mae disgwyl i swm o £0.111m gael ei ad-dalu i LlC.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2023/24)** – Roedd y tîm ADY wedi adnabod gwaith ond, gan nad oedd modd ei gyflawni'n unol â thelerau ac amodau'r grant, roedd tanwariant o £0.152m.

- Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi dyfarnu cyllid gofal cymdeithasol o nifer o wahanol ffynonellau cyllido, fel a ganlyn:-

    - **Y Gronfa Gofal Integredig (ICF)** – Hawliwyd £0.694m trwy'r ICF mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gyllid a ddadleolwyd, er mwyn i'r prosiectau lithro i 2023/24 i'w cwblhau. Mae 4 prosiect wedi'u cynnwys yn y rhaglen ar gyfer yr arian sy'n cael ei reoli, sef:-

        - Cartrefi Clyd arbenigol;
        - Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys;
        - Buddsoddiad Cyfeillgar i'r Anabl;
        - Anableddau Dysgu – Galluogi Mynediad.

    Gwariwyd £0.532m yn 2023/24 a'i ddefnyddio fel cyfraniad at y cynlluniau gwariant uchod sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb CRT. Bydd y £0.162m sy'n weddill yn llithro i 2024/25.

    - **Y Gronfa gyfalaf integreiddio ac ail-gydbwyso (IRCF)** - Dyfarnwyd £0.244m o gyllid cyfalaf trwy'r IRCF i gyllido:-

        - Hwb Llesiant Amlwch (£0.128m) – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hygyrchedd ar gyfer unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Bydd rhywfaint o'r cyllid hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn ardal lesiant a gweithfan achlysurol ar gyfer staff yr awdurdod lleol a'r trydydd sector er mwyn cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr. Defnyddiwyd £104k yn 2022/23, a gwariwyd y gweddill (£25k) yn ystod 2023/24 i gwblhau'r prosiect. Roedd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023.

        - Cartrefi Gofal Dementia Gyfeillgar (£0.115m) – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i greu trydedd uned ddiogel yng Nghartref Gofal Garreglwyd, er mwyn cynnig mwy o gymorth dementia arbenigol yn lleol. Dechreuodd y prosiect ym mis Mehefin 2023 ac mae bellach wedi'i gwblhau.

    - **Y Gronfa Tai â Gofal** – Dyfarnwyd cyllid cyfalaf gwerth £1.1m trwy'r Gronfa Tai â Gofal ar gyfer 2022/23 a 2023/24 i gefnogi'r prosiect Cartrefi Clyd a chyllido'r gwaith o adnewyddu dau gartref a buddsoddi, o bosib, mewn uned seibiant dros nos ar un safle. Hawliwyd £0.445m yn 2022/23, a bydd y swm o £0.655m sy'n weddill ar gael yn 2023/24. Mae un eiddo wedi cael ei adnewyddu'n llawn ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr ail eiddo, a'r nod yw cwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y trydydd eiddo'n golygu adeiladu uned bwrpasol ac mae'r broses cyn cyflwyno cais cynllunio'n mynd rhagddi yn awr. Hawliwyd £0.296m yn 2023/24, gyda chais i'r swm sy'n weddill gael ei ddwyn ymlaen er mwyn cwblhau'r gweithgareddau uchod yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

- **Galluogi** – Hawliwyd y grant yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Grant Cynnal a Chadw Ysgolion Ychwanegol a Grant RAAC** – Yn ystod 2023/24, dyfarnwyd grant ychwanegol gwerth £0.191m a £1.695m, yn y drefn honno, ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion a gwaith cyfalaf yr oedd rhaid ei wneud oherwydd RAAC yn Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol David Hughes. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a benderfynwyd yn lleol yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a gafodd ei arbed gan yr Awdurdod yn sgil y grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido'r gwaith RAAC sy'n weddill yn 2024/25.

**3.2 Derbyniadau Cyfalaf**

**3.2.1** Y derbyniadau cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 oedd:-

| | Cyllideb<br><br>2023/24<br><br>£'000 | Derbyniwyd hyd at<br><br>31 Mawrth 2024<br><br>£'000 | Amrywiant<br><br>Yn (is) / uwch na'r gyllideb<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 584 | 574 | (10) |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 480 | 6 | (474) |
| **Cyfanswm** | **1,064** | **580** | **(484)** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy ar gyfer 2023/24 oedd £0.580m, yn erbyn cyllideb o £1.064m, ac mae'n llai na'r gyllideb. Y prif reswm am y gwahaniaeth yw na chafodd asedau a oedd wedi'u cynnwys yn y ffigwr yn y gyllideb eu gwerthu eleni, sef cyfanswm o £0.474m. Dwy ysgol sydd dan sylw, a gwerthwyd un mewn ocsiwn ym mis Mawrth 2023 ond ni chwblhawyd y gwerthiant tan fis Ebrill 2024. Bydd yr ysgol arall yn cael ei gwerthu yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan dderbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn nad oeddent wedi'u cynnwys yn y gyllideb (£0.187m), yn ogystal â derbyn llai na'r disgwyl am asedau a werthwyd (£0.197m).

Fel y gwelir yn Atodiad B, bydd rhai cynlluniau cyfalaf yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ac mae'r cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2024/25, a bydd y llithriad yn y derbyniadau cyfalaf yn rhannol gyllido llithriad yn y rhaglen gyfalaf. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sy'n weddill, ar ôl cyllido unrhyw orwariant a gwaith pellach, yn cael eu trosglwyddo i dderbyniadau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol. Fodd bynnag, ni fydd y cyfan o'r ffigwr hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol oherwydd bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gyllido'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, a bydd cyllid yn cael ei glustnodi hefyd ar gyfer cronfa wrth gefn Hamdden i gyllido gwelliannau yn y maes hamdden.

## 4. Y BLYNYDDOEDD I DDOD

**4.1** Cafodd Adroddiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2024/25 ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024. Mae cyfanswm diwygiedig y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25, ar ôl cymeradwyo'r ceisiadau i'r cyllid lithro, yn cael ei ddangos yn y tabl isod:-

| | Cyllideb Gyfalaf a Gymeradwywyd 7 Mawrth 2024 £'m | Cais i Gymeradwyo Llithriad £'m | Cyllideb Gyfalaf Ddiwygiedig 2024/25 £'m |
|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol** | | | |
| Cynlluniau wedi'u Hymrwymo 2023/24 sy'n cael eu dwyn ymlaen | 6.102 | 11.058 | 17.160 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol | 4.856 | 3.525 | 8.381 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 2.878 | 0.000 | 2.878 |
| **Cyfanswm Cronfa Gyffredinol** | **13.836** | **14.583** | **28.419** |
| Cynlluniau CRT 2024/25 | 30.002 | 0.916 | 30.918 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf** | **43.838** | **15.499** | **59.337** |
| **Cyllidir gan:** | | | |
| Cyllid 2023/24 wedi'i ddwyn ymlaen | 6.102 | 0.000 | 6.102 |
| Grantiau Cyfalaf | 13.973 | 10.039 | 24.012 |
| Benthyca Allanol | 5.800 | 3.249 | 9.049 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0.178 | 0.345 | 0.523 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor a Chyfraniadau Refeniw | 17.785 | 1.866 | 19.651 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **43.838** | **15.499** | **59.337** |

## 5. EFFAITH AR Y STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

**5.1** Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2024 yw £146.696m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, cyfanswm y benthyciadau allanol yw £122.410m.

Mae'r Awdurdod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 (Atodiad 11 o'r datganiad hwnnw). Cyflwynir adolygiad llawn ar Reoli'r Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

## 6. <u>CASGLIAD</u>

**6.1** Mae'r sefyllfa'n ymwneud a'r gyllideb cyfalaf yn gynyddol anodd, gyda chostau'n codi, cyllid cyfyngedig a dirywiad yng nghyflwr asedau'r Cyngor.  Mae'r materion yma wedi'u hadlewyrchu'n Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2024. Bydd y strategaeth yn dylanwadu ar y gyllideb cyfalaf yn y dyfodol.

**6.2** Nid yw lefel y tanwariant yn annisgwyl wrth ddelio gyda nifer o brosiectau mawr a chymhleth lle mae'n rhaid sicrhau cymeradwyaeth wleidyddol, dilyn rheoliadau caffael, derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyllido eraill, a gallai problemau annisgwyl godi ar ôl i waith gychwyn ar y safle. Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn gysylltiedig â phrosiectau mawr, lle nad yw amseriad y gwaith wedi dilyn yr amserlen a gynlluniwyd. Mae oedi annisgwyl yn arferol gyda phrosiectau cyfalaf mawr, ac nid yw'n anghyffredin gweld gwariant ar y math yma o brosiectau'n llithro. Ym mhob achos, mae'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn wedi cael ei sicrhau a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2024/25, ac ni fydd y Cyngor yn colli unrhyw adnoddau.

**6.3** Mae'r adroddiad yn amlygu pa mor bwysig yw cyllid grant fel rhan o raglen gyfalaf y Cyngor, ac mae 63% o'r gyllideb a 59% o'r gwariant gwirioneddol yn cael ei gyllido o grantiau cyfalaf. Er bod y Cyngor yn derbyn rhai grantiau fel rhan o ddyraniad Cymru gyfan, mae nifer o grantiau'n cael eu dyrannu drwy broses gystadleuol, lle mae'n rhaid i staff y Cyngor gyflwyno bidiau am y grantiau. Byddai rhaglen gyfalaf y Cyngor yn sylweddol llai oni bai am lwyddiant y broses bidio am grantiau.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o wariant cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf a llithriad i 2024/25

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % | Amrywiant % | Tanwariant i'w ddwyn ymlaen i 2024/25 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol Tai** | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 1,215,948 | 1,085,038 | (130,910) | 89 | 11 | 128,910 | Mae angen llithriad i sicrhau fod digon o gyllid i gyllido cynlluniau mawr o dan y rhaglen Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Llithriad wedi'i gyllido gan **lithriad** yn y Grant Cyfalaf Cyffredinol. |
| Grant Galluogi | 139,786 | 141,786 | 2,000 | 101 | (1) | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer 2023/24 yn unig – dim llithriad. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 490,841 | 0 | (490,841) | 0 | 100 | 0 | Nid oes angen llithriad. |
| Cynllun Prynu Tai | 223,200 | 223,200 | 0 | 100 | 0 | 0 | Nid oes angen llithriad. |
| Tai Fforddiadwy | 30,650 | 0 | (30,650) | 0 | 100 | 30,650 | Llithriad yn cael ei gyllido gan **dderbyniadau cyfalaf**. |
| **CYFANSWM** | **2,100,425** | **1,450,024** | **(650,401)** | **69** | **31** | **159,560** | |
| **Tai - CRT** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 1,250,000 | 1,232,870 | (17,130) | 99 | 1 | 17,130 | |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a gynlluniwyd | 4,450,000 | 4,138,401 | (311,599) | 93 | 7 | 311,599 | |
| Gwella Perfformiad Ynni | 600,000 | 0 | (600,000) | 0 | 100 | 600,000 | |
| Gwaith Amgylcheddol | 700,000 | 376,930 | (323,070) | 54 | 46 | 323,070 | |
| Prynu eiddo a datblygu eiddo newydd | 10,288,000 | 11,022,219 | 734,219 | 107 | (7) | | |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 400,000 | 422,246 | 22,246 | 106 | (6) | (22,246) | |
| Risg Tân | 400,000 | 309,538 | (90,462) | 77 | 23 | 90,462 | |
| SATC | 1,900,000 | 2,304,009 | 404,009 | 121 | (21) | (404,009) | |
| **CYFANSWM** | **19,988,000** | **19,806,212** | **(181,788)** | **99** | **1** | **916,006** | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl | 144,512 | 9,749 | (134,763) | 7 | 93 | 134,763 | Efallai y bydd angen gwaith pellach yn y dyfodol i fynd i'r afael ag anghenion unigolion nad ydynt yn hysbys i ni eto ac, felly, mae angen i'r tanwariant lithro i 2024/25 – Cyllidir y llithiad gan **fenthyca â chefnogaeth**. |
| Adnewyddu Adeiladau Addysg | 1,905,284 | 1,860,785 | (44,499) | 98 | 2 | 44,499 | Cyllidir y llithriad gan **fenthyca â chymorth**. |
| Diogelwch Ysgolion | 107,648 | 38,747 | (68,901) | 36 | 64 | 68,901 | Cronfa i gynnal adolygiad o asesiadau risg safleoedd ysgol – rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn 2024/25 – cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Grant Prydau Ysgol am Ddim | 358,296 | 358,329 | 33 | 100 | (0) | 0 | Mae'r grant wedi'i wario'n llawn. |
| Canopïau Awyr Agored | 22,420 | 19,343 | (3,077) | 86 | 14 | 3,077 | Cyllidir y llithriad gan **gronfeydd wrth gefn cyfalaf**. |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 381,372 | 270,105 | (111,267) | 71 | 29 | 0 | Nid oes angen llithriad. |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24 | 426,766 | 165,718 | (261,048) | 39 | 61 | 108,385 | Swm wedi'i gymeradwyo i'w ddwyn ymlaen sy'n cael ei gyllido gan **grant**. |
| Ysgolion Bro | 450,993 | 452,575 | 1,582 | 100 | (0) | 0 | Mae'r grant wedi'i wario'n llawn. |
| Ysgolion Bro 2023/24 | 30,000 | 19,611 | (10,389) | 65 | 35 | 0 | Dyraniad newydd ar gyfer 2024/25. |
| Ysgol Uwchradd Bodedern – caeau chwarae | 300,000 | 301,372 | 1,372 | 100 | (0) | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Ysgol Uwchradd Bodedern - llifoleuadau | 123,000 | 120,791 | (2,209) | 98 | 2 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Cynyddu capasiti ar gyfer y Grant Gofal Plant (Rheoli Prosiect a chynllun grant) | 380,000 | 319,901 | (60,099) | 84 | 16 | 0 | Dyraniad newydd ar gyfer 2024/25. |
| Cynyddu Capasiti ar gyfer y Grant Gofal Plant (darpariaethau Gofal Plant) | 49,481 | 54,535 | 5,054 | 110 | (10) | 0 | Dyraniad newydd ar gyfer 2024/25. |
| Canolfan Addysg y Bont | 22,253 | 22,253 | 0 | 100 | 0 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Cyfanswm (Tan) / Gor Wariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % | Amrywiant % | Tanwariant i'w ddwyn ymlaen i 2024/25 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RAAC | 1,695,000 | 681,479 | (1,013,521) | 40 | 60 | 1,013,521 | Yn ystod rhan olaf 2023/24, dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol gwerth £1.695m i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cyfalaf yn gysylltiedig â RAAC. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant cyfalaf ar waith RAAC hyd yma, a'r gweddill ar adeiladau addysg yn 2023/24, yn hytrach na defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid y mae'r Awdurdod wedi ei arbed yn sgil y grant hwn yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith RAAC sy'n weddill yn 2024/25 – Cyllidir y llithriad gan **fenthyca â chefnogaeth**. |
| Uned Gofal Plant Y Fali | 850,000 | 568,834 | (281,166) | 67 | 33 | 281,166 | Cyllidir y llithiad gan **grant.** |
| Uned Ysgol Llangoed | 7,457 | 7,457 | 0 | 100 | 0 | 0 | Dyraniad newydd ar gyfer 2024/25. |
| Uned Ysgol Llanfachraeth | 10,080 | 10,080 | 0 | 100 | 0 | 0 | Dyraniad newydd ar gyfer 2024/25. |
| Uned Ysgol Llanfechell | 22,691 | 22,691 | 0 | 100 | 0 | 0 | Dyraniad newydd ar gyfer 2024/25. |
| Uned Ysgol Llanfawr | 14,395 | 14,395 | 0 | 100 | 0 | 0 | Dyraniad newydd ar gyfer 2024/25. |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 370,000 | 373,338 | 3,338 | 101 | (1) | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 6,269,995 | 7,467,358 | 1,197,363 | 119 | (19) | 0 | Dyraniad newydd ar gyfer 2024/25. |
| **CYFANSWM** | **13,941,643** | **13,159,445** | **(782,198)** | **94** | **6** | **1,654,313** | |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | |
| Ystafelloedd Ffitrwydd Amlwch | 1,468 | 0 | (1,468) | 0 | 100 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau |
| Canolfan Hamdden Amlwch - oriau | 75,635 | 75,635 | (0) | 100 | 0 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur – Llifoleuadau Cae 3G | 74,514 | 74,514 | (0) | 100 | 0 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau |
| Canolfan Hamdden Caergybi - oriau | 149,000 | 98,473 | (50,527) | 66 | 34 | 50,527 | Cynllun sy'n parhau – cyllidir gan **grant** a **chronfeydd wrth gefn**. |
| Porth Twristiaeth | 50,000 | 0 | (50,000) | 0 | 100 | 50,000 | Cyllid cyfatebol i lithro ac nid yw wedi cael ei ddefnyddio eto – cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 106,000 | 110,861 | 4,861 | 105 | (5) | 0 | Nid oes angen lithriad gan fod y cynllun wedi cael ei ailbroffilio a rhoddwyd dyraniad newydd. |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 762,000 | 136,698 | (625,302) | 18 | 82 | 75,000 | Mae angen i gyllid cyfatebol y Cyngor lithro – **derbyniadau cyfalaf** a **chronfa wrth gefn cyfalaf**. |
| Parc y Morglawdd | 110,000 | 55,923 | (54,077) | 51 | 49 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Penrhos Cam 2 | 23,345 | 23,345 | 0 | 100 | (0) | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Penrhos Cam 3 | 2,820,804 | 2,811,972 | (8,832) | 100 | 0 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Datblygu Economaidd a Llesiant Amgylcheddol | 122,543 | 0 | (122,543) | 0 | 100 | 122,543 | Gofynnir i'r cyllid lithro er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol – cyllidir gan **lithriad yn y grant cyfalaf cyffredinol** a **benthyca â chefnogaeth**. |
| Llithrfa Porth y Wrach – Camerâu Gorfodaeth | 30,000 | 0 | (30,000) | 0 | 100 | 30,000 | Gofynnir i'r cyllid lithro er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol – cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth**. |
| Canolfan Gymunedol Newry | 57,289 | 6,002 | (51,287) | 10 | 90 | 51,287 | Gofynnir i'r cyllid lithro er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol – cyllidir gan **gronfeydd wrth gefn cyfalaf**. |
| Safle Porth – Cyd-fenter | 21,514 | 0 | (21,514) | 0 | 100 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Isadeiledd Morwrol | 177,514 | 0 | (177,514) | 0 | 100 | 177,514 | Gofynnir i'r cyllid lithro er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol – cyllidir gan **gronfeydd wrth gefn**. |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 490,129 | 296,176 | (193,953) | 60 | 40 | 193,953 | Gofynnir i'r cyllid lithro er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol – cyllidir gan **gronfeydd wrth gefn**. |
| Melin Llynnon | 70,397 | 75,142 | 4,745 | 107 | (7) | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | (10,064) | 0 | 100 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau |
| Porth Arfordirol Môn | 318,117 | 318,117 | 0 | 100 | 0 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau |
| Cronfa Ffyniant Bro | 9,236,000 | 3,085,179 | (6,150,821) | 33 | 67 | 4,905,000 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriad. |
| **CYFANSWM** | **14,706,333** | **7,168,038** | **(7,538,295)** | **49** | **51** | **5,655,823** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Cyfanswm (Tan) / Gor Wariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % | Amrywiant % | Tanwariant i'w ddwyn ymlaen i 2024/25 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd** | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos mewn Meysydd Parcio | 4,533 | 5,585 | 1,052 | 123 | (23) | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau |
| Cerbydau | 941,592 | 420,803 | (520,789) | 45 | 55 | 520,789 | Gwariant wedi'i ymrwymo - cyllidir gan **lithriad yn y grant cyfalaf cyffredinol**, **benthyca â chefnogaeth** a **chronfeydd wrth gefn** a **derbyniadau**. |
| Cerbydau Graeanu | 250,000 | 0 | (250,000) | 0 | 100 | 250,000 | Gwariant wedi'i ymrwymo – cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth**. |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,500,000 | 2,383,025 | (116,975) | 95 | 5 | 116,975 | Gwariant wedi'i ymrwymo – cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Cynllun Llifogydd Llanfairpwll | 391,646 | 42,312 | (349,334) | 11 | 89 | 349,334 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan **grant.** |
| CBLl Cynllun Llifogydd Menai | 150,771 | 81,253 | (69,518) | 54 | 46 | 69,518 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan **grant.** |
| Adeiladu Cynllun Y Fali | 13,248 | 14,898 | 1,650 | 112 | (12) | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd (Arian Cyfatebol) | 346,800 | 0 | (346,800) | 0 | 100 | 346,800 | Gofynnir i'r cyllid lithro er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol – cyllidir gan **lithriad yn y grant cyfalaf cyffredinol** a **benthyca â chefnogaeth**. |
| Strwythur Mill Lane | 30,888 | 62,182 | 31,294 | 201 | (101) | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Buddsoddi i Arbed – Cerbydau | 5,068 | 0 | (5,068) | 0 | 100 | 5,068 | Mae'r gwaith yn parhau – wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Gwaith Grant ar Raddfa Fach | 601,024 | 356,061 | (244,963) | 59 | 41 | 0 | Dyfarniad grant ar gyfer 2023/24 yn unig – dim llithriad. |
| Dwyran | 0 | 10,680 | 10,680 | 100 | 0 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Teithio Llesol | 2,253,103 | 1,458,707 | (794,396) | 65 | 35 | 0 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriad. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol – Seilwaith Bysiau 2021/22 | 28,014 | 28,014 | 0 | 100 | 0 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol – Seilwaith Bysiau 2022/23 | 326,263 | 326,263 | 0 | 100 | (0) | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn – Mannau Gwefru Cerbydau Trydan | 57,334 | 56,805 | (529) | 99 | 1 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Strydoedd Mwy Diogel | 18,000 | 17,100 | (900) | 95 | 5 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau. |
| Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn – Mannau Gwefru Cerbydau Trydan 2023/24 | 392,176 | 220,632 | (171,544) | 56 | 44 | 171,544 | Estyniad amser – cyllidir y llithriad gan **grant**. |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 267,492 | 88,787 | (178,705) | 33 | 67 | 178,705 | Estyniad amser – cyllidir y llithriad gan **grant**. |
| **Cyfanswm** | **8,577,952** | **5,573,106** | **(3,004,846)** | **65** | **35** | **2,008,732** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Cyfanswm (Tan) / Gor Wariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % | Amrywiant % | Tanwariant i'w ddwyn ymlaen i 2024/25 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Gwaith Compostio Caeedig (IVC) | 13,595 | 5,804 | (7,791) | 43 | 57 | 7,791 | Cynllun sy'n parhau – cyllidir gan **dderbyniadau cyfalaf**. |
| Cyfarpar Ailgylchu | 289,315 | 33,458 | (255,857) | 12 | 88 | 255,857 | Cynllun sy'n parhau – cyllidir gan **grant** a **chronfeydd wrth gefn cyfalaf**. |
| Gwaith Toi - Gwalchmai | 59,402 | 59,402 | 0 | 100 | 0 | 0 | Mae'r cynllun wedi'i gwblhau |
| **CYFANSWM** | **362,312** | **98,664** | **(263,648)** | **27** | **73** | **263,648** | |
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Presennol | 941,127 | 437,833 | (503,295) | 47 | 53 | 503,295 | Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi'i hymrwymo ar gyfer gwaith sy'n parhau yn 2024/25. Cyllidir y llithriad gan **fenthyca â chefnogaeth**. |
| Eiddo Buddsoddi i Arbed | 77,068 | 61,472 | (15,596) | 80 | 20 | 15,596 | Y gwaith sy'n weddill i'w gwblhau – cyllidir gan **fenthyciad** |
| Salix Cam 2 | 73,408 | 73,408 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Grant Gwres Carbon Isel – Swyddfeydd y Cyngor | 23,900 | 0 | (23,900) | 0 | 100 | 23,900 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan **grant.** |
| Grant Gwres Carbon Isel - 231 | 2,305,107 | 1,362,064 | (943,043) | 59 | 41 | 943,043 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan **grant** a **benthyca â chefnogaeth**. |
| Grant Gwres Carbon Isel - 249 | 597,674 | 0 | (597,674) | 0 | 100 | 597,674 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan **grant** a **benthyca â chefnogaeth**. |
| Grant Gwres Caron Isel - 250 | 2,029,500 | 415,555 | (1,613,945) | 20 | 80 | 1,613,945 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan **grant** a **benthyca â chefnogaeth**. |
| Grant Gwres Carbon Isel - 251 | 811,800 | 161,753 | (650,047) | 20 | 80 | 650,047 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan **grant** a **benthyca â chefnogaeth**. |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 303,722 | 24,147 | (279,574) | 8 | 92 | 279,574 | Cynnydd parhaus a'r posibilrwydd o'i ddefnyddio eto fel cyllid cyfatebol – cyllidir y llithriad gan **dderbyniadau cyfalaf** a **chronfeydd wrth gefn**. |
| **Cyfanswm** | **7,163,306** | **2,536,233** | **(4,627,074)** | **35** | **65** | **4,627,074** | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| TGCh – Seilwaith Craidd | 135,467 | 40,086 | (95,381) | 30 | 70 | 95,381 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan lithriad yn y **grant cyfalaf cyffredinol**. |
| TGCh – Adnewyddu Cyfrifiaduron Desg | 99,456 | 99,430 | (26) | 100 | 0 | 26 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan lithriad yn y **grant cyfalaf cyffredinol**. |
| TGCh – Trosglwyddo o Cyswllt Môn i PSBA | 43,088 | 26,982 | (16,106) | 63 | 37 | 16,106 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan lithriad yn y **grant cyfalaf cyffredinol**. |
| System Ffôn | 88,500 | 0 | (88,500) | 0 | 100 | 88,500 | Mae'r gwaith yn parhau – cyllidir gan **gronfa wrth gefn gyfalaf**. |
| Ychwanegiadau Hwb - Cyfarpar | 206,645 | 206,645 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| TG Hwb | 113,282 | 113,281 | (1) | 100 | 0 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **686,438** | **486,424** | **(200,013)** | **71** | **29** | **200,013** | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | |
| Rhaglen Gyfalaf Dewisol | 47,665 | 78,303 | 30,638 | 164 | (64) | 0 | Cynllun wedi'i gwblhau. |
| IRCF – Hwb Llesiant Amlwch | 24,566 | 24,566 | (0) | 100 | 0 | 0 | Cynllun wedi'i gwblhau. |
| IRCF – Cartref Gofal Dementia Gyfeillgar | 165,115 | 165,115 | 0 | 100 | 0 | 0 | Cynllun wedi'i gwblhau. |
| Y Gronfa Gofal Integredig - Cae Gwyn | 0 | 17,084 | 17,084 | 100 | 0 | 0 | |
| Adnewyddu Plas Mona | 24,104 | 10,584 | (13,520) | 44 | 56 | 13,520 | Gofynnir am lithriad er mwyn ailddyrannu cyllid i waith blaenoriaeth arall ar eiddo – cyllidir y llithriad gan **fenthyca â chefnogaeth** a **derbyniadau cyfalaf**. |
| **Cyfanswm** | **261,450** | **295,652** | **34,202** | **113** | **(13)** | **13,520** | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **67,787,859** | **50,573,798** | **(17,214,061)** | **75** | **25** | **15,498,689** | |

**ATODIAD C**

## Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb

| Cynllun | Cyllideb £ | CYLLID | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Grant £ | Cyfraniad Refeniw £ | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £ | Cronfa wrth gefn Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Benthyca heb Gefnogaeth £ | Cronfa Wrth Gefn Arall £ |
| Ailwynebu Priffyrdd* | 0 | (1,701,000) | | | | 591,000 | | 1,110,000 |
| Ysgolion Bro | 30,000 | 30,000 | | | | | | |
| Galluogi | 139,786 | 139,786 | | | | | | |
| Teithio Llesol | 2,253,103 | 2,253,103 | | | | | | |
| Mill Lane - Cynllun Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM) | (241,640) | (241,640) | | | | | | |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ULEV) | 376,550 | 376,550 | | | | | | |
| Y Pethau Pwysig | 250,400 | 250,400 | | | | | | |
| Grantiau Bach Gofal Plant | 380,000 | 380,000 | | | | | | |
| Llifoleuadau Plas Arthur | 51,305 | 51,305 | | | | | | |
| Caeau Chwarae Bodedern | 300,000 | 300,000 | | | | | | |
| Llifoleuadau Bodedern | 123,000 | 100,000 | | | | | | 23,000 |
| Parc Gwledig y Morglawdd | 110,000 | 110,000 | | | | | | |
| Strydoedd Saffach | 18,000 | 18,000 | | | | | | |
| Cam 3 | 22,187 | 22,187 | | | | | | |
| Cam 3 | 398,617 | 398,617 | | | | | | |
| Cyd-fenter Llangefni | 21,514 | 21,514 | | | | | | |
| Grantiau Bach | 478,636 | 478,636 | | | | | | |
| Grantiau Bach | 47,388 | | | | | | | 47,388 |
| CRT*** | 821,000 | 1,229,000 | (875,945) | | | 467,945 | | |
| Y Gronfa Gofal Integredig (ICF) | (693,966) | | (226,021) | | | (467,945) | | |
| Corn Hir | 370,000 | 107,328 | | | | 262,672 | | |
| Cerbydau** | 0 | 58,000 | | (58,000) | | | | |
| Cerbydau Graeanu** | 0 | 150,000 | | (150,000) | | | | |
| Cyllideb TG** | 0 | 292,000 | | (292,000) | | | | |
| Strwythur Mill Lane | 30,888 | 26,255 | | | 4,633 | | | |
| Ailgylchu Gwastraff | 70,634 | 70,634 | | | | | | |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24 | 478,225 | 478,225 | | | | | | |
| Uned Gofal Plant Y Fali | 850,000 | 850,000 | | | | | | |
| Gwaith Toi Gwalchmai | 63,000 | | | | | | | 63,000 |
| Canolfan Hamdden Caergybi | 149,000 | 100,000 | | | 36,949 | | | 12,051 |
| Cronfa Gyfalaf Hamdden | (36,949) | | | | (36,949) | | | |
| Hwb TG | (39,221) | (39,221) | | | | | | |
| Band B | 305,995 | 1,827,497 | | | | 1,275,498 | (2,797,000) | |
| Isadeiledd Bysiau 2022/23 | (587) | (61,589) | | | 61,002 | | | |
| Rhaglen Gyfalaf Dewisol | 47,353 | 47,353 | | | | | | |
| Grant Gwres Carbon Isel | 2,178,671 | 2,178,671 | | | | | | |
| Partneriaeth Tirwedd | 56,000 | 56,000 | | | | | | |
| Hwb Cymunedol Bryn Hwfa | (13,155) | (13,155) | | | | | | |
| CRT | 0 | 1,680,000 | (1,680,000) | | | | | |
| **CYFANSWM** | **9,395,734** | 12,024,456 | (2,781,966) | (500,000) | 65,635 | 2,129,170 | (2,797,000) | 1,255,439 |

*Roedd cyllid gwerth £1.701m wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2023/24, o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol. Ar ôl adolygu cyfyngiadau amodau'r grant, roedd rhaid ei ddefnyddio yn 2022/23, felly, defnyddiwyd y grant i gyllido gwariant cyfalaf yn 2022/23, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod yn sgil y grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn 2023/24.

** Ailddyrannu cyllid o'r hyn oedd yn cael ei gyllido'n wreiddiol gan dderbyniadau cyfalaf yn y rhaglen ar gyfer 2023/24, ond bydd yn cael ei gyllido gan y grant cyfalaf cyffredinol yn awr.

*** Roedd yr amcangyfrif o gyllid grant a gynhwyswyd yng nghyllideb y CRT ar gyfer 2023/24 yn rhy isel ac, ynghyd â'r cynnydd angenrheidiol yn y gyllideb, mae'r cyllid nawr wedi cael ei ddiwygio.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **23 GORFFENNAF 2024** |
| Pwnc: | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, ALLDRO 2023/24** |
| Deilydd Portffolio: | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **CARWYN EDWARDS**<br>**01248 752699**<br>**CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2023/24.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos cyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £8,044k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yw £19,988k. Mae'r gyllideb grantiau a chyllid arall o £6,898k yn gostwng y gyllideb net i £13,090k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £5,046k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo cyllid o'i cronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae gwarged o £8,727k ar gyllideb refeniw y CRT ac mae hynny'n uwch na'r gwarged o £683k a gynlluniwyd. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.2** Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwariant cyfalaf £182k yn is na'r gyllideb, fel y nodir yn Atodiad B isod. Roedd incwm grantiau £801k yn uwch na'r gyllideb, ac roedd cyfraniadau eraill £538k yn is na'r gyllideb. Ar alldro, felly, roedd gwariant cyfalaf net £444k yn is na'r gyllideb. Derbyniwyd swm ychwanegol o £509k trwy werthu 4 annedd dan drefniant rhannu ecwiti, cafodd hwn ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn.

**4.3** Ar alldro, roedd y diffyg (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £3,918k, £1,127k yn is na'r gyllideb. Mae hyn yn golygu fod balans cau cronfa wrth gefn y CRT yn £8,189k.

## 5. Incwm

**5.1** Ar alldro, roedd yr incwm a dderbyniwyd £198k yn uwch na'r gyllideb, fel y nodir isod.

**5.2** Roedd incwm rhent £9k yn uwch na'r gyllideb ar alldro.

**5.3** Roedd y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rhent. Er hynny, casglwyd mwy o renti na'r disgwyl, felly, ar ddiwedd alldro, roedd y cynnydd yn y ddarpariaeth i gwrdd â dyledion drwg ac amheus £169k yn is na'r gyllideb.

**5.4** Mae Costau Gwasanaeth wedi tangyflawni gan £38k. Mae costau gwasanaeth yn cwrdd â chostau a geir yn ystod y flwyddyn ar feysydd gwariant lle mae angen cyfraniad gan lesddeiliaid. Mae incwm costau gwasanaeth yn adlewyrchu'r gwir gostau a gafwyd h.y. mae incwm is na'r disgwyl yn cael ei wrthbwyso gan wariant is.

**5.5** Roedd incwm arall £59k yn uwch na'r gyllideb ar alldro ac mae £70k yn gysylltiedig ag incwm a dderbyniwyd trwy drefniant rhannu elw sydd ar waith gyda chyflenwr Storfeydd y Cyngor. Roedd incwm tariff cyflenwi trydan a phremiwm yswiriant wedi tangyflawni gan swm ar y cyd o £9k. Roedd cyfanswm o £2k o amrywiadau bychan eraill.

## 6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**6.1** Ar alldro, roedd gwariant nad yw'n ymwneud â thrwsio a chynnal a chadw £60k yn uwch na'r gyllideb.

**6.2** Mae gwariant refeniw arall yn dangos gorwariant o £199k o gymharu â'r gyllideb. Gwariant o £185k i newid y system Teleofal o wasanaeth analog i ddigidol sydd i gyfrif am hyn yn bennaf, a gwariant ar galedwedd yn gysylltiedig â hynny.

**6.3** Dengys y pennawd Cyfranogiad Tenantiaid danwariant o £44k ar alldro. Roedd £20k o'r tanwariant oherwydd swyddi gweigion yn ystod y flwyddyn, roedd tanwariant o £13k gan fod y gyllideb prosiectau amgylcheddol yn rhy uchelgeisiol, mae £7k yn gysylltiedig â thanwariant ar gostau postio a deunyddiau ysgrifennu. Mae amrywiadau bychan eraill yn rhoi tanwariant net o £4k.

**6.4** Mae'r pennawd gweinyddu rhenti'n dangos tanwariant o £5k ar alldro.

**6.5** Mae'r pennawd Rheoli Ystadau'n dangos tanwariant o £89k ar alldro, yn bennaf oherwydd swyddi gweigion.

## 7. Trwsio a Chynnal a Chadw

**7.1** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) yn dangos gorwariant o £73k ar alldro. Mae deddfwriaeth newydd wedi dod i rym, sy'n golygu bod disgwyl i Landlordiaid Tai Cymdeithasol ddarparu gorchuddion llawr addas pan fydd tenantiaeth yn newid, a dyma'r rheswm am y rhan fwyaf o'r gorwariant.

**7.2** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn staff yr UCChT £41k yn is na'r gyllideb ar alldro, oherwydd swyddi gweigion yn ystod y flwyddyn.

**7.3** Roedd gwaith trwsio a chynnal a chadw arall £4k yn is na'r gyllideb ar alldro.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Mae tanwariant o £167k ar gostau Cyllido Cyfalaf a derbyniwyd £287k mwy o log na'r disgwyl. Ar y cyfan, roedd balansau arian parod y Cyngor a cyfradd y llog a dderbyniwyd yn uwch na'r disgwyl ac mae'r CRT wedi elwa o hynny. Mae tanwariant o £16k ar y costau a hawliwyd gan y gwasanaethau canolog ac mae tanwariant o £103k ar gostau a hawliwyd gan y gwasanaeth Tai. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys tanwariant o £49k ar gostau nad ydynt yn ymwneud â staff, ac ailgodwyd tâl pellach o £54k o'r CRT i'r cyfrif tai cyffredinol yn dilyn cynnal adolygiad diwedd blwyddyn o'r rhaniad rhwng y CRT a'r Gronfa Gyffredinol. Ar alldro, roedd addasiadau diwedd blwyddyn £573k yn is na'r gyllideb.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Roedd y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yn £19,988k, roedd y gyllideb cyllid grant ar gyfer 2023/24 yn £6,205k, a'r gyllideb cyfraniadau eraill yn £693k. Y sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd tanwariant o £182k ar wariant cyfalaf (gweler Atodiad B am ddadansoddiad manwl). Roedd incwm grant £801k yn uwch na'r gyllideb, a derbyniwyd swm ychwanegol o £509k drwy werthu 4 tŷ yng Nghilfach Clai, dan drefniant rhannu ecwiti, cafodd y derbyniadau cyfalaf yma eu trosglwyddo i gronfa wrth gefn. Roedd cyfraniadau eraill £538k yn is na'r gyllideb. Effaith net y sefyllfa derfynol oedd tanwariant o £444k ar y gyllideb gyfalaf. Mae'r balans hwn yn cael ei gadw yng nghronfa wrth gefn y CRT a bydd ar gael i gyllido prosiectau sydd wedi cael eu gohirio tan y flwyddyn ariannol nesaf.

Isod, ceir crynodeb o'r cyllid grant gwerth £7,006k a dderbyniwyd yn ystod 2023/24:-

| Ffynhonnell | Alldro £ |
|---|---|
| Y Gronfa Tai â Gofal (HCF) | 296,377 |
| CADW | 57,571 |
| Y Gronfa Gofal Integredig – Llithriad | 50,000 |
| Y Gronfa Gofal Integredig – Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 73,676 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 274,948 |
| SATC | 82,698 |
| Creu Lle | 250,000 |
| Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol | 458,847 |
| Grant Tai Cymdeithasol | 901,578 |
| Cyllid Digartrefedd Plas Alltran | 267,651 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,690,000 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2023/24 | 872,899 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2022/23 – dygwyd ymlaen | 370,584 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio – Cyllid ychwanegol | 89,848 |
| Grant Diogelwch Tân | 269,494 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **7,006,171** |

**9.2** Gwariant SATC – Mae'r gyllideb gwerth £1,900k yn cael ei rhannu rhwng y gwaith a gynlluniwyd i adnewyddu ceginau mewn oddeutu 80 eiddo a gwaith cyfalaf sy'n seiliedig ar alw sy'n cael ei wneud pan fydd tenantiaeth yn newid. Dyfarnwyd contract gwerth £484k yn ystod chwarter 4 2022/23, ar gyfer gwaith a gynlluniwyd. Roedd swm o £1,400k wedi'i neilltuo'n wreiddiol ar gyfer gwaith cyfalaf gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai, yn bennaf pan fydd tenantiaeth yn newid. Fodd bynnag, mae gwaith SATC wedi mynd rhagddo'n well na'r disgwyl. O ganlyniad, cafwyd gwariant terfynol o £2,304k gan olygu fod gorwariant o £404k yn 2023/24. Mae £83k o grantiau cyfalaf ychwanegol a dderbyniwyd yn gwrthbwyso'r gwariant hwn yn rhannol. Nid yw cyfrif terfynol y contract adnewyddu ceginau a ddyfarnwyd yn ystod chwarter 4 2022/23 wedi'i gytuno eto.

**9.3** Gwariant Risg Tân – Y bwriad oedd gwario'r gyllideb o £400k ar gwblhau gwaith ôl-osod systemau llethu tân ym Maes y Coed, Porthaethwy a Glan Cefni, Llangefni, yn ogystal â gwelliannau adrannu rhag tân yn y pedwar bloc o fflatiau uchder canolig sy'n rhan o'r stoc dai. Mae'r gwaith cyfalaf hefyd yn cynnwys diweddaru'r systemau larwm tân a gosod drysau tân newydd. Cwblhawyd y gwaith adrannu rhag tân yn ystod chwarter 3, a chwblhawyd y gwaith o osod y ddwy system llethu tân yn ystod chwarter 4. Roedd tanwariant o £90k ar y prosiect hwn yn ystod 2023/24 gan nad oedd contractwyr ar gael i wneud y gwaith.

**9.4** Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus – Mae'r galw am addasiadau canolig a mawr wedi parhau'n uchel yn ystod chwarter 4. Gwariwyd £422k ar y prosiect hwn yn ystod 2023/24, gan arwain at orwariant o £22k o gymharu â'r gyllideb. Mae gwariant ar Addasiadau'n ddibynnol ar y galw ac, fel arfer, mae'n golygu gosod lifftiau grisiau, cawodydd â mynediad gwastad ac addasu mynedfeydd. Yn ystod chwarter 4, canslwyd 8 Cynllun Gofal ar ôl cwblhau arolygon gwaith, ac mae hynny gyfystyr â thanwariant o thua £78k.

**9.5** Gwariant Perfformiad Ynni – Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) cyn gosod panelau Solar PV i gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Mae'r gyllideb Perfformiad Ynni wedi'i gostwng o £1,000k i £600k oherwydd oedi. Yn anffodus, mae wedi bod, ac mae'n dal i fod, yn anodd cael cymeradwyaeth gan y DNO ar gyfer gwaith Solar PV mawr gan fod rhaid cryfhau'r rhwydwaith cyn dechrau ar y gwaith. Mae'r DNO wedi dechrau uwchraddio'r rhwydwaith mewn rhai ardaloedd, ond, yn anffodus ni wyddys pryd fydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau. Ni fu unrhyw wariant ar y prosiect hwn yn ystod 2023/24 felly, roedd tanwariant o £600k ar y prosiect ar alldro, sydd wedi'i gynnwys yn ein rhagolygon diweddar. Datblygodd y broses ymgynghori gyda'r DNO yn dda yn ystod chwarter 4 a bwriedir rhyddhau tendr am gontract Solar PV 5 mlynedd yn ystod chwarter 1 2024/25.

**9.6** Gwariant Gwaith Cynnal a Chadw Cynlluniedig – Yn dilyn dyrannu contract ar gyfer ail gam y gwaith ym Mae Cemaes yn ystod chwarter 1, roedd y gyllideb cynnal a chadw cynlluniedig wedi'i hymrwymo'n llawn a chychwynnodd gwaith ar y safle ddiwedd mis Mehefin. Yn wreiddiol, roedd disgwyl i'r contract hwn, ynghyd ag ymrwymiadau gwariant a ddygwyd ymlaen o 2022/23, ddefnyddio'r gyllideb o £4,450k yn llawn. Serch hynny, roedd y gwariant gwirioneddol ar alldro yn £4,138k, gan olygu fod tanwariant o £312k yn ystod y flwyddyn. Profwyd rhai problemau caffael yn ystod y contract hwn, o ran cael gafael ar lechi Cymreig penodol ar gyfer ail-doi, ac mae hynny wedi arwain at oedi sylweddol. Nid yw ymgynghorwyr y prosiect a'r contractwr wedi cytuno eto ar hyd estyniad y contract.

**9.7** Gwariant Gwaith Amgylcheddol – Mae'r gyllideb o £700k wedi cael ei rhannu rhwng dau brosiect. Cwblhawyd y cynllun i ddymchwel 30 garej ym Mro Tudur, Llangefni yn ystod chwarter 3. Mae'r ail brosiect yn ymwneud â gwella'r system gwaredu carthffosiaeth yng Ngharreglefn i gydymffurfio â chyfarwyddyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw'r gwaith hwn wedi datblygu cystal â'r disgwyl. Mae contractwr tymor y Gwasanaethau Priffyrdd wedi paratoi dyluniadau manwl ar gyfer trefniadau eraill i ddelio â charthffosiaeth. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi cadarnhau fod y costau arfaethedig dderbyniwyd yn ystod chwarter 4 llawer uwch na'r disgwyl, a ysgogodd trafodaethau parhaus a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru am atebion amgen. Mae'r oedi wedi arwain at danwariant o £323k ar y prosiect hwn yn 2023/24.

**9.8** Gwariant Contract Gwres Canolog – Yn ystod 2023/24, roedd y Gwasanaethau Tai yn gobeithio adnewyddu tua 500 o foeleri, a dyrannwyd cyllideb o £1,250k ar gyfer y prosiect. Dyfarnwyd contract ar gyfer y rhaglen adnewyddu boeleri ar gyfer eleni yn ystod chwarter 1. Er bod tanwariant o £150k wedi'i ragweld yn chwarter 3, mae'r gwaith wedi mynd rhagddo'n llawer gwell na'r disgwyl yn ystod chwarter 4. Gwariwyd £1,232k ar y cynllun hwn yn ystod 2023/24, sef tanwariant o £17k.

**9.9** Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd – Mae manylion y gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhagolygon ar gyfer chwarter 3 a'r ffigyrau alldro wedi'u rhestru isod. Mae Atodiad C yn cynnwys rhagor o fanylion.

Oherwydd oedi annisgwyl ar safle Plas Alltran, ni chwblhawyd yr holl waith oedd yn cael ei gyllido o'r grant gan CADW erbyn 31/03/2024 ac mae CADW wedi lleihau'r grant yn unol â hynny. Cwblhawyd llai o waith na'r disgwyl hefyd ar eiddo o dan y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Trosiannol (TACP), ac mae'r dyraniad grant wedi cael ei leihau'n unol â hynny. Bydd gweddill y grant TACP yn cael ei dalu yn 2024/25 ar ôl cwblhau'r gwaith. O ran y Grant Tai Cymdeithasol, roedd ffigwr o £1,500k wedi'i neilltuo ar gyfer prynu 10 eiddo ym Mhentraeth. Ni fydd y Cyngor yn eu prynu tan Chwarter 1 2024/25 a bydd y grant yn cael ei hawlio yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ar gyfer gweddill y Grant Tai Cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na fydd yn talu am unrhyw waith adeiladu oni bai bod cymeradwyaeth wedi'i roi gan y corff cymeradwyo systemau draenio cynaliadwy (SAB) a dyna pam fod diffyg yn y swm grant tai cymdeithasol ar gyfer y tri chynllun. Er hynny, bydd y grantiau'n cael eu hawlio yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Rydym wedi gwario mwy na'r disgwyl ar brynu eiddo a phrosiectau adnewyddu yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith adnewyddu wedi mynd rhagddo'n well na'r disgwyl ac rydym wedi prynu 3 eiddo ychwanegol yn ystod chwarter 4.

## 10. Balans y CRT

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £12,107k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £5,046k o'r balans hwn. Fodd bynnag, ar sail yr uchod, fyddem dim ond yn defnyddio £3,918k yn 2023/24. Mae hyn yn rhoi balans o £8,189k yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

| **Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin 2024. Ymgorfforwyd unrhyw sylwadau yn yr adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried yn y cyfarfod ar 4 Mehefin 2024. |
| **4** | Adnoddau Dynol | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| **7** | Caffael | Amherthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Mae’r Panel Sgriwtini Cyllid yn cael eu hysbysu am ganlyniadau adroddiad monitro chwarterol y CRT. |
| **9** | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F – Atodiadau:**

- Atodiad A – Alldro Gwariant Refeniw 2023/24
- Atodiad B – Alldro Gwariant Cyfalaf 2023/24
- Atodiad C – Alldro Cynlluniau Cyfalaf Adeiladu o’r Newydd 2023/24

**Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2023/53 (fel y’i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2023).

**ATODIAD A**

| CYFRIF REFENIW TAI 2023/24 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2023/24** | **Alldro** | **Amrywiant Alldro** | **Rhagolwg yn Ch3** | **Amrywiant ar ragolwg Ch3** |
| **CYFRIF REFENIW**<br>**Incwm** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Anheddau | (20,693,000) | (20,702,436) | (9,436) | (20,642,747) | (59,689) |
| Modurdai | (247,000) | (245,727) | 1,273 | (246,723) | 996 |
| Taliadau Gwasanaeth | (213,070) | (175,272) | 37,798 | (198,379) | 23,107 |
| Arall | (262,100) | (320,695) | (58,595) | (245,341) | (75,354) |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 316,000 | 147,210 | (168,790) | 100,000 | 47,210 |
| CYFANSWM INCWM | (21,099,170) | (21,296,920) | (197,750) | (21,233,190) | (63,730) |
| Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 241,070 | 196,759 | (44,311) | 213,006 | (16,247) |
| Gweinyddu Rhenti | 543,340 | 538,071 | (5,269) | 537,534 | 537 |
| Rheoli Stadau | 644,500 | 555,765 | (88,735) | 568,343 | (12,578) |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,763,630 | 1,962,399 | 198,769 | 1,928,630 | 33,769 |
| Cyfanswm Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw | 3,192,540 | 3,252,994 | 60,454 | 3,247,513 | 5,481 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) | 5,470,600 | 5,543,116 | 72,516 | 5,397,293 | 145,823 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT) | 1,211,860 | 1,171,071 | (40,789) | 1,156,556 | 14,515 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 752,320 | 748,308 | (4,012) | 720,032 | 28,276 |
| Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw | 7,434,780 | 7,462,495 | 27,715 | 7,273,881 | 188,614 |
| Addasiadau Diwedd Blwyddyn | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 1,742,430 | 1,575,603 | (166,827) | 1,604,600 | (28,997) |
| llog a Dderbynnir | (200,000) | (486,538) | (286,538) | (529,956) | 43,418 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Tai | 100,090 | (3,310) | (103,400) | 100,090 | (103,400) |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Canolog | 785,550 | 769,133 | (16,417) | 785,550 | (16,417) |
| Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn | 2,428,070 | 1,854,889 | (573,181) | 1,960,284 | (105,395) |
| | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **13,055,390** | **12,570,378** | **(485,012)** | **12,481,678** | **88,700** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(8,043,780)** | **(8,726,542)** | **(682,762)** | **(8,751,512)** | **24,970** |

| | Cyllideb Flynyddol 2023/24 | Alldro | Amrywiant Alldro | Rhagolwg yn Ch3 | Amrywiant ar ragolwg Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | |
| Gwariant 2023/24 | 19,988,000 | 19,806,212 | (181,788) | 20,529,424 | (723,212) |
| Cyllid grant | (6,205,000) | (7,006,171) | (801,171) | (8,396,000) | 1,389,829 |
| Cyfraniadau eraill | (693,460) | (155,000) | 538,460 | (580,381) | 425,381 |
| CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG | 13,089,540 | 12,645,041 | (444,499) | 11,553,043 | 1,091,998 |
| | | | | | |
| (CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT | 5,045,760 | 3,918,499 | (1,127,261) | 2,801,531 | 1,116,968 |
| | | | | | |
| Balans Agoriadol y CRT | (12,107,000) | (12,107,000) | | (12,107,000) | 0 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT | 5,045,760 | 3,918,499 | | 2,801,531 | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(7,061,240)** | **(8,188,501)** | **0** | **(9,305,469)** | **0** |

**CYLLIDEB CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI 2023/24** **ATODIAD B**

| | Cyllideb Flynyddol 2023/24 £ | Gwariant Blynyddol £ | Amrywiant Diwedd Blwyddyn £ | Rhagolwg yn Ch3 £ | Amrywiant rhwng rhagolwg Ch3 ac alldro £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Contract Gwresogi Canolog | 1,250,000 | 1,232,870 | (17,130) | 1,100,000 | 132,870 |
| Contract Cynnal a Chadw a gynlluniwyd | 4,450,000 | 4,138,401 | (311,599) | 4,450,000 | (311,599) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 600,000 | 0 | (600,000) | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 700,000 | 376,930 | (323,070) | 400,000 | (23,070) |
| Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd | 10,288,000 | 11,022,219 | 734,219 | 11,879,424 | (857,205) |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 400,000 | 422,246 | 22,246 | 500,000 | (77,754) |
| Risg Tân | 400,000 | 309,538 | (90,462) | 300,000 | 9,538 |
| SATC | 1,900,000 | 2,304,009 | 404,009 | 1,900,000 | 404,009 |
| **Cyfanswm** | **19,988,000** | **19,806,212** | **(181,788)** | **20,529,424** | **(723,211)** |

**CYLLIDEB DATBLYGIADAU NEWYDD 2023/24** **ATODIAD C**

| Cynllun | Nifer yr Unedau Ychwanegol | Cyllideb 2023/24<br>£ | Gwariant Blynyddol<br>£ | Amrywiant Diwedd Blwyddyn<br>£ | Rhagolwg Ch3<br>£ | Amrywiant rhwng rhagolwg Ch3 ac alldro<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lôn Lwyd, Pentraeth | 10 | 2,250,000 | 0 | (2,250,000) | 2,250,000 | (2,250,000) |
| Gofal Ychwanegol Porthaethwy | 55 | 250,000 | 140,952 | (109,049) | 108,517 | 32,435 |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | 1,200,000 | 1,082,827 | (117,173) | 844,367 | 238,460 |
| Ysgol Llaingoch, Caergybi | 26 | 4,000 | 0 | (4,000) | 0 | 0 |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 500,000 | 978,642 | 478,642 | 918,460 | 60,182 |
| Parc y Coed, Llangefni Cam 1 | 12 | 990,000 | 1,071,130 | 81,130 | 961,583 | 109,547 |
| Clwb Cymdeithasol Biwmares | 6 | 408,000 | 379,387 | (28,613) | 408,000 | (28,613) |
| Adnewyddu 16 Uned | 0 | 750,000 | 1,667,085 | 917,085 | 1,482,315 | 184,770 |
| Prynu 16 Uned yn ól | 20 | 1,100,000 | 2,462,735 | 1,362,735 | 2,116,413 | 346,323 |
| Hen Safle Ysgol Niwbwrch | 14 | 500,000 | 244,308 | (255,692) | 111,961 | 132,348 |
| Hen Safle Ysgol Thomas Ellis | 43 | 50,000 | 32,315 | (17,685) | 23,405 | 8,910 |
| Parc y Coed, Llangefni Cam 2 | 10 | 1,400,000 | 1,032,217 | (367,783) | 868,057 | 164,161 |
| Adnewyddu Haulfryn a Cham 2 | 1 | 365,000 | 309,756 | (55,244) | 251,323 | 58,432 |
| Pen y Coed, Rhostrehwfa | 1 | 482,000 | 511,538 | 29,538 | 511,538 | 0 |
| Stad y Bryn, Llanfaethlu | 9 | 0 | 4,100 | 4,100 | 200,000 | (195,900) |
| Ffordd Garreg Lwyd, Caergybi | 8 | 0 | 1,035,557 | 1,035,557 | 651,469 | 384,088 |
| Cynlluniau yn y Cyfnod Cyn Cynllunio | | 39,000 | 69,670 | 30,670 | 172,017 | (102,347) |
| **Cyfanswm** | **242** | **10,288,000** | **11,022,219** | **734,219** | **11,879,424** | **(857,205)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **23 GORFFENNAF 2024** |
| **Pwnc:** | **CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2023/24 A DEFNYDD O GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU** |
| **Aelod Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>**01248 762601**<br>**rmjfi@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2023/24 a'r Fantolen ddrafft fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2024.

Darperir gwybodaeth fwy manwl am falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig ac mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am sut y bwriedir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau yn 2024/25 ac yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r adroddiad yn nodi lefel y balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymiadau cyllido presennol, ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol o ran defnyddio'r cyllid e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Gall lefel y risg a wynebir gan y Cyngor newid a chedwir golwg ar lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig dros y misoedd nesaf.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio ac y gallent newid yn sgil yr archwiliad. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cyflwynir adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor llawn.

**Argymhellion:-**

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon Drafft llawn ar gyfer 2023/24 ar y ddolen a ganlyn:- Datganiad-or-cyfrifon-Drafft-2023-2024.pdf (llyw.cymru)
2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi sefyllfa balansau cyffredinol y Cyngor, sef £15.604m.
3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans y Cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sef £16.778m, a'i fod yn cymeradwyo creu £1.553m o gronfeydd wrth gefn newydd clustnodedig.
4. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo, yn ffurfiol, trosglwyddo £2.002m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i Falansau Cyffredinol y Cyngor.
5. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans cronfeydd wrth gefn ysgolion, sef £5.577m.
6. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans cronfa'r CRT, sef £8.189m.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael i'r Pwyllgor Gwaith.

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? | | |
|---|---|---|
| Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, yn unol a phenderfyniad y Cyngor ynghylch cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor ar 9 Mawrth 2023. | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Cynlluniwyd y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau i fynd i'r afael â rhai o'r risgiau a'r materion sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â phrosiectau fydd yn ei gynorthwyo i gwrdd ag anghenion hirdymor yr Ynys a'i phreswylwyr. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Ydi – bydd nodi cyllid i liniaru risgiau yn y dyfodol yn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n well a gallai leihau costau yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut. | Amherthnasol |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a amddiffynnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y grwpiau hynny sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y grwpiau hyn cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect. |
| **7** | Nodwch unrhyw effeithiau y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith ar y Gymraeg. |

| E - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r TA wedi ystyried yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Ymgorfforwyd sylwadau aelodau'r TA yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Y Swyddog Adran 151 a staff y Tîm Cyllid oedd yn gyfrifol am ddrafftio'r cyfrifon a'r adroddiad hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried, ynghyd â holl sylwadau aelodau'r TA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Nid yw'r materion yn yr adroddiad hwn yn effeithio ar unrhyw faterion Adnoddau Dynol. |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Trafodwyd yr alldro ariannol drafft a'r balansau mewn cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024.<br><br>Ystyriwyd y datganiad cyfrifon drafft gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Gorffennaf 2024. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad ar y prif ddatganiadau ariannol, balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig
Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2023/24
Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024
Atodiad 4 – Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn 2023/24
Atodiad 5 – Cronfeydd Wrth Gefn clustnodedig fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2024

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Dim

**ATODIAD 1**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ac mae'n cyflwyno crynodeb o falansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balansau ysgolion a chronfa CRT y Cyngor.

**1.2.** Mae'r adroddiad hefyd yn nodi a yw Swyddog Adran 151 y Cyngor o'r farn bod y cronfeydd yn ddigonol a ph'un a ydynt yn darparu digon o wytnwch ariannol i'r Cyngor a digon o arian wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau ariannol fydd y Cyngor yn eu hwynebu yn y dyfodol.

## 2. CEFNDIR

**2.1.** Mae Rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn nodi bod rhaid i'r prif swyddog ariannol cyfrifol lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon a thystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor erbyn dim hwyrach na 31 Mai yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r Cyngor, wedyn, gymeradwyo a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio erbyn 31 Gorffennaf yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

**2.2.** Oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys oedi wrth gwblhau archwiliadau ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y pandemig, a phroblemau cyfrifo technegol oedd yn gofyn am ganllawiau a mewnbwn archwilio ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru (LlC) ac Archwilio Cymru wedi cydnabod nad oes modd cyflawni'r amserlen statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Yr amserlen a awgrymir yw bod y datganiad cyfrifon drafft yn cael ei baratoi erbyn 30 Mehefin 2024 a bod y cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio'n cael eu cyhoeddi erbyn 30 Tachwedd 2024. Mae diwygio'r terfynau amser statudol ar gyfer blynyddoedd i ddod yn cael ei ystyried hefyd. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi hysbysiad statudol i hysbysu pawb sydd â diddordeb na fydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r terfynau amser statudol a nodir ym mharagraff 2.1 uchod.

## 3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2023/24

**3.1.** Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei gyflwyno yn Atodiad 2.

**3.2.** Mae'r datganiad yn crynhoi'r gost o ddarparu gwasanaethau yn 2023/24, yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol, ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys costau cyfrifo statudol, megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn, na chodir amdanynt yn erbyn y Dreth Gyngor ac, o'r herwydd, maent yn cael eu gwyrdroi cyn penderfynu ar y sefyllfa derfynol mewn perthynas â balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balans cyfrif y CRT a balansau ysgolion. O ganlyniad, nid oes modd, felly, tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r adroddiadau alldro a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o raglen y cyfarfod hwn.

**3.3.** Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos fod cost net y gwasanaethau yn £168.498m, ac roedd gwarged o £14.057m ar ddarparu gwasanaethau. Yna, gwneir addasiadau ar gyfer ailbrisio asedau ac ail-fesur y rhwymedigaethau pensiwn, a rhydd hynny warged net terfynol o £37.683m ar gyfer y flwyddyn. Yna gwneir addasiadau, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, i benderfynu ar y symudiad i gronfeydd wrth gefn a balansau. Manylir ar yr addasiadau hyn yn nodyn 6 yn y Datganiad Cyfrifon drafft.

**Tabl 1**

**Cysoni'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r Cyfraniad (i) neu o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau ar gyfer 2023/24**

| | **£'m** | **£'m** |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cost (Gwarged) yn unol â'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | (37.683) |
| Gwyrdroi'r cofnodion cyfrifo mewn perthynas ag Ailbrisio Asedau ac Ail-fesur y Gronfa Bensiwn | 23.626 | |
| Addasiad rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau | 18.772 | |
| | | 42.398 |
| **Cyfraniad (i) / o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau y gellir eu Defnyddio** | | **4.715** |

**3.4.** Mae Tabl 2, isod, yn dangos y symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor:-

**Tabl 2**

**Crynodeb o Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2024**

| | **Cronfa wrth gefn Gyffredinol Cronfa'r Cyngor £'000** | **Cronfa'r Cyngor - Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig £'000** | **Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) £'000** | **Cronfeydd wrth gefn Ysgolion £'000** | **Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000** | **Cronfa wrth gefn Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn y gellir eu Defnyddio £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2023** | **(14,039)** | **(19,637)** | **(12,107)** | **(6,716)** | **(1,908)** | **(407)** | **(54,814)** |
| Gor / (Tan) Wariant Net 2023/24 | **(1,733)** | **0** | **4,073** | **0** | **0** | **0** | **2,340** |
| **Balans ar ôl Gor / (Tan) Wariant** | **(15,772)** | **(19,637)** | **(8,034)** | **(6,716)** | **(1,908)** | **(407)** | **(52,474)** |
| Trosglwyddiadau Net i / (o) Cronfeydd wrth gefn ar gyfer Cyllid a Gymeradwywyd | **168** | **2,858** | **(155)** | **1,139** | **(991)** | **(57)** | **2,962** |
| **Balans Cau ar 31 Mawrth 2024** | **(15,604)** | **(16,779)** | **(8,189)** | **(5,577)** | **(2,899)** | **(464)** | **(49,512)** |

Mae Cyfrifon y Cyngor hefyd yn cynnwys £587k mewn perthynas a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Y ffigwr yma yw cyfran y Cyngor o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, a delir gan Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod arwain ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.

## 4. MANTOLEN DDRAFFT FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2024

**4.1.** Mae'r fantolen ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024 i'w gweld yn Atodiad 3.

**4.2.** Bu cynnydd o £37.682m yng ngwerth net asedau'r Cyngor, o £404.650m y llynedd i £442.332m ar 31 Mawrth 2024. Bu cynnydd o £55.688m yng ngwerth asedau tymor hir y Cyngor, o ganlyniad i wariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer y Cyngor ac ailbrisio asedau cyfredol. Bu cynnydd o £1.777m yng ngwerth yr asedau cyfredol o ganlyniad i gynnydd o £12.346m hefyd mewn dyledwyr tymor byr. Gwrthbwyswyd hwn yn bennaf gan ostyngiad o £10.133m mewn arian parod a buddsoddiadau tymor byr.

**4.3.** Roedd cynnydd o £11.498m yn y rhwymedigaethau cyfredol i £55.615m sydd o ganlyniad i £7.896m credydwyr tymor byr a grantiau tymor byr a dderbyniwyd o flaen llaw o £4.618m. Mae rhwymedigaethau tymor hir wedi cynyddu hefyd, o £131.450m i £139.735m, yn bennaf o ganlyniad i werth cario Cronfa wrth Gefn Pensiynnau symud o £0 i rwymedigaethau net o £10.522m.

**4.4.** Er bod prisiad actiwariaid yn asesu gwerth y Gronfa Bensiwn fel gwarged o £71.145m, mae rheolau cyfrifo (IFRIC 14) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ostwng gwerth yr ased pensiwn oherwydd ni all y Cyngor gael mynediad i werth yr ased.

## 5. BALANS Y GRONFA GYFFREDINOL

**5.1.** Balans y Gronfa Gyffredinol (cyn ei harchwilio) ar 31 Mawrth 2024 yw £15.604m, ac mae hyn yn cyfateb i 8.94% o gyllideb gwariant refeniw net 2023/24, ond dylid nodi y gallai'r ffigwr hwn newid ar ôl yr archwiliad. Defnyddiodd y Cyngor £4.425m o'r gronfa wrth gefn yma fel cyllid ar gyfer cyllideb 2024/25, gan ostwng y balans net sydd ar gael i £11.179m, sef 6.08% o gyllideb refeniw net 2024/25. Dangosir y symudiad yn Nhabl 3, isod:-

**Tabl 3**

**Symudiad yn y Balansau Cyffredinol yn ystod 2023/24**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2023 | | 14.039 |
| Cyllid ar gyfer Cyllideb Refeniw 2023/24 | | (3.780) |
| **Balans ar gael ar 1 Ebrill 2023** | | **10.259** |
| Trosglwyddiadau o Gronfeydd wrth gefn Clustnodedig | 2.002 | |
| Trosglwyddiadau Eraill i Mewn / (Allan) | 1.645 | |
| Gwariant a Gyllidir o'r Balansau Cyffredinol | (0.035) | |
| **Trosglwyddiadau Net i Mewn / (Allan) yn ystod y Flwyddyn** | | **3.612** |
| **Gwarged ar Gyllideb Refeniw 2023/24** | | **1.733** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **15.604** |
| Cyllid ar gyfer Cyllideb Refeniw 2024/25 | | (4.425) |
| **Balans ar gael ar 1 Ebrill 2024** | | **11.179** |

**5.2.** Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor sicrhau fod balans y gronfa hon yn cyfateb i o leiaf 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ar sail yr argymhelliad hwn, mae angen balans o £9.2m o leiaf, felly mae gan y Cyngor £2m o falansau uwchlaw'r isafswm hwn.

**5.3.** Ar sail y wybodaeth bresennol, ymddengys bod sefyllfa cyllido 2025/26 yn ansicr iawn, gyda chostau, oherwydd chwyddiant a phwysau o ran y galw, yn uwch na'r cynnydd mewn cyllid. Mae'r gwarged yn y balansau cyffredinol, uwch ben y lefel sy'n cael ei hargymell, yn golygu y gallai'r Cyngor ddefnyddio ei falansau cyffredinol yn 2025/26 i ychwanegu at gyllid o grantiau Llywodraeth Cymru a'r Dreth Gyngor.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG

**6.1.** Mae gan y Cyngor Gronfeydd Wrth Gefn clustnodedig er mwyn lliniaru risgiau posib yn y dyfodol, cwrdd â chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol, cyllido gwelliannau mewn prosesau busnes a darparu gwasanaethau, nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb refeniw flynyddol, ac i ddal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario, ynghyd â chyfraniadau eraill. Mae cadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn rhan hanfodol o strategaeth ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o wydnwch ariannol i gwrdd ag unrhyw risgiau a heriau ariannol yn y dyfodol, ac mae'n caniatáu iddo fuddsoddi'n ychwanegol mewn asedau a gwasanaethau. Mae'r cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn ystod 2023/24 i'w gweld yn Nhabl 4, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo, yn ffurfiol, creu'r cronfeydd wrth gefn newydd hyn, gwerth £1.553m.

**Tabl 4**

**Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Newydd y Gofynnir Amdanynt**

| Gwasanaeth | Enw'r Gronfa Wrth Gefn | Cyfanswm y Gronfa wrth Gefn £ | Rheswm dros Greu'r Gronfa Wrth Gefn | Pwrpas y Gronfa wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| Plant | Maethu Cymru | 35,111 | Dwyn ymlaen grant heb ei wario o 2023/24 | Cyfrannu at gostau hysbysebu am recriwtio gofalwyr maeth. |
| Corfforaethol | Cefnogaeth Gostwng Grantiau | 250,000 | Darparu cymorth ariannol i wasanaethau os yw eu cyllid grant refeniw yn gostwng | Wrth i gyllid grant gael ei rewi neu ostwng, gall gymryd amser i wasanaeth addasu'r gwasanaeth a ddarperir i adlewyrchu'r gostyngiad yn y cyllid grant. Gall y gronfa wrth gefn ddarparu cyllid untro i gwrdd â chostau yn ystod y cyfnod pontio hwn. |
| Cynllunio | Costau Adolygiad Barnwrol | 35,000 | Cwrdd â chostau posib yn y dyfodol | Gall penderfyniadau cynllunio fod yn destun apêl a gallai'r Cyngor wynebu costau wrth baratoi ar gyfer apeliadau ac ad-dalu costau ymgeisydd os yw'r apêl yn llwyddo. Mae'r gronfa wrth gefn yn darparu adnoddau ariannol i gwrdd â'r risg. |
| Oedolion | Offer Teleofal | 60,000 | Cyllido costau cyflwyno offer digidol newydd | Mae'r gwaith trosglwyddo o systemau analog i systemau digidol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r gronfa wrth gefn yn darparu cyllid i gwrdd â'r costau untro hyn. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfa ar gyfer costau yn y dyfodol ar Caeau 3G | 200,000 | Cyllido costau adnewyddu caeau 3G yn y dyfodol | Llwyddodd y Cyngor i sicrhau cyllid grant i ddatblygu caeau 3G.<br>Ni fydd wyneb y caeau ond yn para am gyfnod penodol a bydd angen eu hadnewyddu yn y dyfodol. Mae incwm ychwanegol sy'n cael ei gynhyrchu wrth rentu'r caeau yn cael ei roi mewn cronfa wrth gefn er mwyn darparu cyllid i gwrdd â chostau yn y dyfodol. |
| Trawsnewid - TG | Mast Ynys Môn | 40,450 | Cyllido cost atgyweirio'r mast | Oherwydd newid yn y dechnoleg, nid oes angen y mast ym Mhenmynydd ar y Cyngor erbyn hyn, ond mae angen atgyweirio'r mast cyn y gellir ei waredu. Mae'r gronfa wrth gefn yn darparu'r cyllid angenrheidiol i wneud y gwaith atgyweirio. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Offer Campfa yng Nghaergybi | 80,000 | Cyfrannu at gost adnewyddu offer campfa yng Nghanolfan Hamdden Caergybi | Roedd apêl y Cyngor yn erbyn gwerth trethadwy'r Ganolfan yn dyddio'n ôl i 2017, yn llwyddiannus a derbyniwyd ad-daliad o £80,000. Rhoddwyd y swm mewn cronfa wrth gefn a bydd yn cyfrannu at gost adnewyddu'r offer. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau rhagor o gyllid grant i dalu am weddill y gost. |

| Gwasanaeth | Enw'r Gronfa Wrth Gefn | Cyfanswm y Gronfa wrth Gefn £ | Rheswm dros Greu'r Gronfa Wrth Gefn | Pwrpas y Gronfa wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Grant Tlodi Mislif | 6,300 | Grant heb ei wario wedi'i ddwyn ymlaen o 2023/24 | Bydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu grantiau yn 2024/25, yn unol ag amodau'r grant. |
| Tai | Grant ECO4 | 61,071 | Grant heb ei wario wedi'i ddwyn ymlaen o 2023/24 | Bydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu grantiau yn 2024/25, yn unol ag amodau'r grant. |
| Tai | Adsefydlu Ffoaduriaid o Afghanistan | 114,951 | Grant heb ei wario wedi'i ddwyn ymlaen o 2023/24 | Cwrdd â chostau llety ffoaduriaid o Afghanistan sy'n dod i fyw i Ynys Môn o dan y cynllun adsefydlu ffoaduriaid o Afghanistan. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Ffioedd Claddu ac Amlosgi Plant | 6,389 | Cyllido costau a gafwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned | Mae'r grant yn cael ei dalu bob yn ail flwyddyn a bydd y gronfa wrth gefn yn cyllido taliadau i gynghorau Tref a Chymuned yn 2024/25. |
| Corfforaethol | Eisteddfod yr Urdd | 50,000 | Cwrdd â chostau presenoldeb y Cyngor yn yr Eisteddfod yn 2026 | Mae'r gyllideb yn cynnwys swm o £50,000 y flwyddyn ar gyfer 2023/24, 2024/25 a 2025/26. |
| Corfforaethol | Adolygiad Sgriwtini | 8,000 | Cwrdd â chost yr adolygiad | Mae'r Cyngor yn adolygu'r swyddogaeth Sgriwtini ac mae'r gronfa hon wedi'i chreu gan ddefnyddio cyllidebau sydd wedi tanwario yn 2023/24. |
| Cynllunio | Troi Tai'n Gartrefi | 300,000 | Cwrdd â chost rhoi Erthygl 4 ar waith, os yw'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen | Dyrannwyd £300,000 o incwm premiwm y Dreth Gyngor i gwrdd â chost rhoi Erthygl 4 ar waith, os yw'r Cyngor yn dymuno hynny. |
| Adnoddau | Caffael | 45,000 | Cyllido rhan o'r gost o roi cynllun gweithredu'r Gwasanaeth Caffael ar waith | Mae cynllun gweithredu'n deillio o adolygiad cychwynnol o swyddogaeth caffael y Cyngor a pha mor barod ydyw ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Mae angen cefnogaeth allanol i roi'r cynllun gweithredu ar waith yn 2024/25 a 2025/26. |
| Dysgu | Grantiau ADY LIC | 261,048 | Dwyn ymlaen grant heb ei wario o 2023/24 | Dyrannwyd y grant ar gyfer prosiectau ALN Cyfalaf. Oherwydd cyfyngiadau amser, ni ddefnyddiwyd y cyllid yn llawn o fewn 2023/24 a 2024/25. Bydd y £261k yn caniatáu cwblhau'r prosiect, gydag unrhyw gyllid sy'n weddill yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru yn unol â thelerau ac amodau'r grant. |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN NEWYDD CLUSTNODEDIG** | | **1,553.320** | | |

**6.2.** Mae Atodiad 4 yn cynnwys manylion llawn am y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar 31 Mawrth 2024, ond maent yn cael eu crynhoi, yn ôl eu pwrpas, yn Nhabl 5, isod:-

**Tabl 5**

**Crynodeb o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2024**

| | Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2023<br>£ | Cyfraniadau I / (O) yn ystod 2023/24<br>£ | Balans Cau ar 31 Mawrth 2024<br>£ |
|---|---|---|---|
| Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Parhaus | 6,140,669 | (1,484,387) | 4,656,282 |
| Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Penodol | 226,172 | 627,770 | 853,942 |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol | 7,070,721 | (2,372,570) | 4,698,151 |
| Gwella Prosesau Busnes | 0 | 250,000 | 250,000 |
| Cyllidebau Wrth Gefn heb eu Gwario ond y bydd eu hangen mewn blynyddoedd i ddod | 1,014,172 | 298,200 | 1,312,372 |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Cyfyngu sy'n dal Grantiau | 1,840,594 | 188,215 | 2,028,809 |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Cyfyngu eraill | 304,197 | 88,413 | 392,609 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Eraill wedi'u Clustnodi ar gyfer Prosiectau Penodol | 2,675,940 | (89,776) | 2,586,164 |
| Cronfeydd Wrth Gefn heb eu Cyfyngu sy'n dal Grantiau | 365,104 | (365,104) | 0 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG** | **19,637,569** | **(2,859,239)** | **16,778,330** |

## 7. CRONFA WRTH GEFN GRANTIAU CYFALAF HEB EU CYMHWYSO

**7.1.** Mae'r gronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso yn dal unrhyw falans heb ei wario o'r grant cyfalaf cyffredinol. Nid yw hwn yn gronfa wrth gefn glustnodedig gan ei fod yn gronfa wrth gefn benodol i ddal cyllid cyfalaf, er y dylid nodi y darparir y grant heb unrhyw amodau, ac mae i fyny i'r Cyngor benderfynu pa brosiectau cyfalaf i'w cyllido o'r grant. Mae heb ei gymhwyso gan ni ddefnyddiwyd yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond bydd yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn 2024/25.

## 8. BALANSAU YSGOLION

**8.1.** Mae lefel balansau Ysgolion wedi gostwng o £6.716m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £5.577m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae gan 5 ysgol gynradd ddiffyg, o gymharu â'r llynedd pan nad oedd yr un ysgol gynradd yn wynebu diffyg. Mae pob ysgol sydd mewn diffyg wedi cytuno ar gynllun gwario fydd yn dileu'r diffyg dros gyfnod o amser. Mae'r balansau fesul sector yn cael eu crynhoi yn Nhabl 6, isod:-

**Tabl 6**

**Balansau Ysgolion fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2024**

| | Balansau ar 31/03/2023<br>£ | Balansau ar 31/03/2024<br>£ | Cynnydd / (Gostyngiad) yn ystod 2023/24<br>£ | Swm i'w ddyrannu i gydbwyso cyllidebau 2024/25<br>£ | Balans sydd ar gael<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 3,693,588 | 2,766,771 | (926,816) | 872,750 | 1,894,021 |
| **Uwchradd** | 2,761,638 | 2,630,684 | (130,954) | 1,293,980 | 1,336,704 |
| **Arbennig** | 260,757 | 179,098 | (81,659) | 0 | 179,098 |
| **Cyfanswm** | **6,715,983** | **5,576,553** | **(1,139,430)** | **2,166,730** | **3,409,823** |

## 9. Y CYFRIF REFENIW TAI

**9.1.** Mae balans cronfa'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gostwng o £12.107m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, i £8.956m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r manylion i'w gweld yn Nhabl 7, isod:-

**Tabl 7**

**Balans y Cyfrif Refeniw Tai fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2023** | | **12.107** |
| Gwarged y Cyfrif Refeniw 2023/24 | 8.727 | |
| Gwariant Cyfalaf a Gyllidwyd o Gronfeydd Wrth Gefn | (12.645) | |
| Symudiad Net yn 2023/24 | | (3.918) |
| **Balans Cau ar 31 Mawrth 2024** | | **8.189** |

**ATODIAD 2**

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

| 2023/24 | | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** | **Gwasanaethau** | **Nodyn** | **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 86,765 | (16,691) | 70,074 | Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | | 84,301 | (16,540) | 67,761 |
| 50,733 | (14,649) | 36,084 | Gwasanaethau Oedolion | | 48,246 | (13,242) | 35,004 |
| 22,064 | (7,095) | 14,969 | Gwasanaethau Plant | | 22,207 | (7,088) | 15,119 |
| 9,756 | (7,810) | 1,946 | Tai | | 8,168 | (7,187) | 981 |
| 35,261 | (9,553) | 25,708 | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | 33,479 | (9,921) | 23,558 |
| 17,380 | (11,019) | 6,361 | Rheoleiddio ac Economaidd | | 16,910 | (9,691) | 7,219 |
| 7,157 | (303) | 6,854 | Trawsnewid | | 7,509 | (340) | 7,169 |
| 26,525 | (16,244) | 10,281 | Adnoddau | | 27,838 | (16,803) | 11,035 |
| 2,144 | (181) | 1,963 | Busnes y Cyngor | | 2,347 | (217) | 2,130 |
| 1,145 | (1,034) | 111 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 3,384 | (723) | 2,661 |
| 742 | - | 742 | Rheolaeth Corfforaethol | | 673 | - | 673 |
| 27 | - | 27 | Costau heb eu ddosbarthu | | 93 | - | 93 |
| 14,857 | (21,479) | (6,622) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 14,982 | (19,942) | (4,960) |
| **274,556** | **(106,058)** | **168,498** | **Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau** | | **270,137** | **(101,694)** | **168,443** |
| | | 17,244 | Gwariant gweithredu arall | 10 | | | 15,570 |
| | | 8,574 | Cyllido ac incwm a gwariant buddsoddi | 11 | | | 10,990 |
| | | (208,373) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 12 | | | (189,647) |
| | | **(14,057)** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **5,356** |
| | | 14,102 | Colledion amhariad ar asedau anghyfredol sydd wedi eu rhoi yn erbyn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn | | | | 10,822 |
| | | (49,420) | Gwarged ar ailbrisio asedau anghyfredol | | | | (12,139) |
| | | (71,145) | Dileu Ased Pensiwn Net | 9c & 34 | | | (19,814) |
| | | 82,837 | Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 9c & 34 | | | (116,642) |
| | | **(23,626)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(137,773)** |
| | | | | | | | |
| | | **(37,683)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(132,417)** |

**ATODIAD 3**

## Y FANTOLEN FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2024

| | Nodyn | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 13 | 541,471 | 487,064 |
| Asedau Treftadaeth | 15 | 2,413 | 2,431 |
| Eiddo Buddsoddi | 16 | 8,175 | 6,579 |
| Asedau Anniriaethol | | 262 | 357 |
| Dyledwyr tymor hir | 18 | 1,032 | 1,234 |
| **Asedau tymor hir** | | **553,353** | **497,665** |
| | | | |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | | 620 | 1,065 |
| Rhestrau stoc | | 401 | 392 |
| Dyledwyr tymor byr | 18 | 51,201 | 38,855 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 35a | - | 22,500 |
| Arian a chywerthoedd arian | 19 | 32,107 | 19,740 |
| **Asedau Cyfredol** | | **84,329** | **82,552** |
| | | | |
| Benthyca tymor byr | 35b | (3,341) | (4,111) |
| Credydwyr tymor byr | 20 | (42,465) | (34,569) |
| Darpariaethau tymor byr | 21 | (456) | (702) |
| Derbyniadau grantiau ymlaen llaw | 30 | (9,353) | (4,735) |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(55,615)** | **(44,117)** |
| | | | |
| Credydwyr tymor hir | 20 | (166) | (158) |
| Darpariaethau tymor hir | 21 | (4,247) | (4,335) |
| Benthyca tymor hir | 35b | (121,175) | (121,557) |
| Derbyniadau grantiau tymor hir ymlaen llaw | 30 | (3,625) | (5,400) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 34 | (10,522) | - |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(139,735)** | **(131,450)** |
| **Asedau net** | | **442,332** | **404,650** |
| | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio | MIRS | 50,099 | 54,814 |
| Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio | 9 | 392,233 | 349,836 |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **442,332** | **404,650** |

## ATODIAD 4

# DATGANIAD AR Y SYMUDIAD YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN 2023/24

| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 7) | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 8) | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | Balansau Ysgolion (Nodyn 7) | Arian wrth Gefn Yr Brwdd Uchelgais | Cyfanswm Cronfa y Cyngor wrth gefn y gellir ei defnyddio | Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) | Cronfeydd wrth Gefn Clystnodedig CRT (Nodyn 8) | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio gan CTA | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio (Nodyn 9) | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (y Cyngor) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | **12,278** | **23,181** | **2,381** | **-** | **7,827** | **-** | **45,667** | **12,333** | **-** | **12,333** | **58,000** | **214,233** | **272,233** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | | | | | |
| Addasiad i'r balans agoriadol | | | | | | | | | | | **-** | | **-** |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (12,468) | - | - | - | - | - | (12,468) | 7,112 | - | 7,112 | **(5,356)** | **-** | **(5,356)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **137,773** | **137,773** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(12,468)** | **-** | **-** | | **-** | **-** | **(12,468)** | **7,112** | **-** | **7,112** | **(5,356)** | **137,773** | **132,417** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6) | 9,956 | - | (448) | - | - | - | 9,508 | (7,338) | - | (7,338) | **2,170** | **(2,170)** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig** | **(2,512)** | **-** | **(448)** | **-** | **-** | **-** | **(2,960)** | **(226)** | **-** | **(226)** | **(3,186)** | **135,603** | **132,417** |
| Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 7) | 4,273 | (3,544) | (25) | 407 | (1,111) | | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn** | **1,761** | **(3,544)** | **(473)** | **407** | **(1,111)** | **-** | **(2,960)** | **(226)** | **-** | **(226)** | **(3,186)** | **135,603** | **132,417** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **14,039** | **19,637** | **1,908** | **407** | **6,716** | **-** | **42,707** | **12,107** | **-** | **12,107** | **54,814** | **349,836** | **404,650** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | | | | | |
| **Addasiadau i'r balans agoriadol** | | | | | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | 1,016 | - | - | - | - | - | 1,016 | 13,041 | - | 13,041 | **14,057** | - | 14,057 |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | 23,625 | 23,625 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **1,016** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **1,016** | **13,041** | **-** | **13,041** | **14,057** | **23,625** | **37,682** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6) | (2,242) | | 482 | (407) | - | - | (2,167) | (17,114) | 509 | (16,605) | **(18,772)** | 18,772 | - |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig** | **(1,226)** | **-** | **482** | **(407)** | **-** | **-** | **(1,151)** | **(4,073)** | **509** | **(3,564)** | **(4,715)** | **42,397** | **37,682** |
| Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | 2,791 | (2,858) | - | 464 | (1,139) | 587 | (155) | 155 | - | 155 | **-** | **-** | **-** |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn** | **1,565** | **(2,858)** | **482** | **57** | **(1,139)** | **587** | **(1,306)** | **(3,918)** | **509** | **(3,409)** | **(4,715)** | **42,397** | **37,682** |
| **Balans ar Mawrth 2024** | **15,604** | **16,779** | **2,390** | **464** | **5,577** | **587** | **41,401** | **8,189** | **509** | **8,698** | **50,099** | **392,233** | **442,332** |

**ATODIAD 5**

## CRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI FEL AG YR OEDDENT AR 31 MAWRTH 2024

| Gwasanaeth | Enw'r Gronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2023 £ | Trosglwyddiadau i Mewn £ | Trosglwyddiadau Allan £ | Balans ar 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Cronfa Yswiriant | Cyllido colledion nad oes yswiriant ar eu cyfer a thaliadau dros ben ar bolisïau. | 1,250,000 | 97,745 | (97,745) | 1,250,000 |
| Dysgu | Cynllun Salwch – Cynradd | Cwrdd â chostau llanw oherwydd salwch mewn ysgolion cynradd. Mae pob ysgol yn talu premiwm blynyddol ac maent yn derbyn ad-daliad o'r gronfa hon i gwrdd â chostau ychwanegol a gafwyd oherwydd salwch. | 307,532 | 0 | (109,005) | 198,527 |
| Tai | Digartrefedd | Cyllido unrhyw alw ychwanegol sy'n uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb flynyddol. | 325,171 | 129,198 | 0 | 454,369 |
| Priffyrdd | Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf | Cwrdd ar unrhyw gostau ychwanegol sy'n uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb, oherwydd bod angen mwy o raeanu neu ddelio gyda llifogydd a difrod oherwydd stormydd. | 94,480 | 0 | 0 | 94,480 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Contractau Staff Gofal Cymdeithasol | Cyllido costau staffio / asiantaeth ychwanegol os oes rhaid cynyddu lefelau staffio yn sgil galw ychwanegol am wasanaethau. | 249,132 | 0 | (149,132) | 100,000 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Pwysau Gofal Cymdeithasol | Cyllido costau ychwanegol sy'n uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb flynyddol, a hynny oherwydd cynnydd yn y galw neu bwysau chwyddiant. | 143,690 | 0 | (143,690) | 0 |
| Dysgu | Cronfa Cau Ysgolion | Cyllido costau cynnal a chadw ysgolion sydd wedi cau, neu gyfrannu at gostau sefydlu ysgolion newydd. | 93,149 | 0 | 0 | 93,149 |
| Corfforaethol | Cronfa Chwyddiant | Cyllido pwysau ychwanegol oherwydd chwyddiant nad oes cyllid ar ei gyfer yn y gyllideb refeniw – dyfarniadau cyflog yn fwyaf nodedig. | 3,177,515 | 0 | (1,461,758) | 1,715,757 |
| Dysgu | Galw am Leoliadau Tu Allan i'r Sir | Cyllido costau ychwanegol sy'n uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb flynyddol oherwydd cynnydd yn y galw neu bwysau chwyddiant. | 500,000 | 0 | 0 | 500,000 |
| Corfforaethol | Gostyngiad mewn Grantiau | Darparu cyllid yn y tymor byr i wasanaethau os yw eu harian grant yn gostwng. Mae'r cyllid yn caniatáu i'r Gwasanaeth wneud newidiadau angenrheidiol i'r gwasanaeth a ddarperir yn y tymor hir. | 0 | 250,000 | 0 | 250,000 |
| **CYFANSWM RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH PARHAUS** | | | **6,140,669** | **476,943** | **(1,961,330)** | **4,656,282** |

| Gwasanaeth | Enw'r Gronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2023<br>£ | Trosglwyddiadau i Mewn<br>£ | Trosglwyddiadau Allan<br>£ | Balans ar 31 Mawrth 2024<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu | Rhesymoli Ysgolion | Cwrdd â chostau ychwanegol sy'n codi o'r rhaglen moderneiddio ysgolion, gan gynnwys costau diswyddo. | 83,356 | 452,296 | (133,861) | 401,791 |
| Cynllunio | Cynllun Datblygu Lleol | Cyllido costau ychwanegol, sy'n uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb refeniw flynyddol, wrth lunio'r Cynllun Datblygu nesaf. | 142,816 | 274,935 | (600) | 417,151 |
| Cynllunio | Apeliadau Cynllunio | Cyllido unrhyw gostau a geir wrth ddelio gydag apeliadau cynllunio ac unrhyw fath arall o heriau cyfreithiol mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio. | 0 | 35,000 | 0 | 35,000 |
| **CYFANSWM RISGIAU GWASANAETH A CHORFFORAETHOL PENODOL** | | | **226,172** | **762,231** | **(134,461)** | **853,942** |
| Corfforaethol | Cyfraniadau Refeniw heb eu Gwario ar Brosiectau Cyfalaf | Cyllid sydd wedi cael ei ddyrannu o arian refeniw fel cyfraniad tuag at brosiectau cyfalaf penodol yn y dyfodol. Mae cyllid yn cael ei ryddhau o'r gronfa pryd a phan fydd angen wrth i brosiectau ddatblygu. | 2,973,623 | 528,597 | 0 | 1,338,265 |
| Corfforaethol | Cyfraniadau Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol heb eu Gwario ar Brosiectau Cyfalaf | Cyllid sydd wedi cael ei ddyrannu o gronfeydd cyffredinol fel cyfraniad tuag at brosiectau cyfalaf penodol yn y dyfodol. Mae cyllid yn cael ei ryddhau o'r gronfa pryd a phan fydd angen wrth i brosiectau ddatblygu. | 1,428,541 | 0 | (1,174,747) | 253,794 |
| Dysgu | Addysg – Symiau wedi'u Cymudo | Cyfraniadau gan Ddatblygwyr, fel rhan o'r broses gynllunio, sy'n cyfrannu at gostau addysg ychwanegol sydd yn wynebu'r Cyngor o ganlyniad i'r datblygiad. | 346,593 | 164,655 | (181,022) | 330,226 |
| Tai | Symiau wedi'u Cymudo gan Ddatblygwyr Tai | Cyllid sy'n cael ei drosglwyddo i'r Cyngor gan Ddatblygwyr yn hytrach na darparu tai fforddiadwy mewn datblygiadau. | 807,807 | 186,830 | (155,000) | 839,637 |
| Priffyrdd | Cytundebau Adran 106 ar gyfer Lleoedd Agored | Cyfraniadau gan ddatblygwyr fel rhan o gytundebau cynllunio. | 24,872 | 29,208 | 0 | 54,080 |
| Gwarchod y Cyhoedd | Labordy Calibradu | Cyfraniadau gan awdurdodau partner tuag at gostau cyfalaf datblygu labordy calibradu. | 9,400 | 12,414 | 0 | 21,814 |
| Dysgu | Cronfa Ad-dalu TG mewn Ysgolion | Cwrdd â chostau adnewyddu offer TG mewn Ysgolion yn y dyfodol. | 461,000 | 0 | 0 | 461,000 |
| Eiddo | Trwsio a Chynnal a Chadw Ysgolion Uwchradd | Tanwariant o gyllideb refeniw y flwyddyn flaenorol sydd wedi'i glustnodi er mwyn ariannu gwaith trwsio a chynnal a chadw mewn ysgolion uwchradd. | 94,308 | 0 | 0 | 94,308 |

| Gwasanaeth | Enw'r Gronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2023<br>£ | Trosglwyddiadau i Mewn<br>£ | Trosglwyddiadau Allan<br>£ | Balans ar 31 Mawrth 2024<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | Cyfraniadau Datblygwyr - Priffyrdd | Cyfraniadau gan Ddatblygwyr, fel rhan o'r broses gynllunio, sy'n cyfrannu at gostau gwella priffyrdd a wynebir gan y Cyngor oherwydd y datblygiad. | 162,422 | 0 | 0 | 162,422 |
| Hamdden | Hawliad TAW Hamdden | Ad-daliad TAW o ganlyniad i newid statws TAW ffioedd mynediad canolfannau hamdden. I'w ddefnyddio i wella canolfannau hamdden. | 762,155 | 0 | 0 | 762,155 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Offer Teleofal | Cyllido costau cyflwyno offer digidol newydd. | 0 | 60,000 | 0 | 60,000 |
| Hamdden | Cronfa Ad-dalu Adnewyddu Caeau 3G | Cyllido costau adnewyddu caeau 3G yn y dyfodol. | 0 | 200,000 | 0 | 200,000 |
| Trawsnewid – TG | Mast Ynys Môn | Cyllido cost trwsio'r mast. | 0 | 40,450 | 0 | 40,450 |
| Hamdden | Offer Campfa yng Nghaergybi | Cyfrannu at gost adnewyddu offer campfa yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. | 0 | 80,000 | 0 | 80,000 |
| **CYFANSWM CRONFA GWARIANT CYFALAF YN Y DYFODOL** | | | **7,070,721** | **1,302,154** | **(3,674,724)** | **4,698,151** |
| Corfforaethol | Cronfa Trawsnewid | Cwrdd â chost datblygu cynlluniau i foderneiddio a thrawsnewid y gwasanaethau a ddarperir, a'u rhoi ar waith. | 0 | 250,000 | 0 | 250,000 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD GWELLA PROSESAU BUSNES** | | | **0** | **250,000** | **0** | **250,000** |
| Tai | Tai Fforddiadwy | Y balans sydd heb ei wario o bremiwm y Dreth Gyngor a neilltuwyd i ariannu grantiau a benthyciadau i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf. | 617,115 | 651,727 | 0 | 1,268,842 |
| Corfforaethol | Prosiectau sy'n cael eu hariannu gan Gyllidebau Wrth Gefn wedi'u Cyfyngu | Dyraniad o'r gyllideb refeniw er mwyn cyfieithu dogfennau moderneiddio ysgolion ac sydd heb gael ei wario. | 121,940 | 0 | (78,410) | 43,530 |
| Corfforaethol | Prosiect STEM | Cyllido cyfraniad y Cyngor tuag at y prosiect STEM. | 25,000 | 0 | (25,000) | 0 |
| Corfforaethol | Cronfa Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Cyllido cyfraniad y Cyngor tuag at Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru os yw'r swm yn uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb refeniw flynyddol. | 250,117 | 0 | 250,117 | 0 |
| **CYFANSWM CYLLIDEBAU WRTH GEFN NAD YDYNT WEDI CAEL EU GWARIO OND Y MAE GOFYN AMDANYNT MEWN BLYNYDDOEDD I DDOD** | | | **1,014,172** | **651,727** | **(103,410)** | **1,562,489** |

| Gwasanaeth | Enw’r Gronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2023<br>£ | Trosglwyddiadau i Mewn<br>£ | Trosglwyddiadau Allan<br>£ | Balans ar 31 Mawrth 2024<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwastraff | Cronfa Gwastraff | Arian grant heb ei ddyrannu. | 100,000 | 0 | (100,000) | 0 |
| Priffyrdd | Grant Llifogydd | Arian grant heb ei wario. | 36,473 | 0 | (36,473) | 0 |
| Tai | Gweinyddu Cefnogi Pobl | Grant heb ei wario fydd yn cael ei ddefnyddio i gyllido costau staff nad yw’r grant Cefnogi Tai blynyddol yn cwrdd â nhw. | 411,377 | 115,717 | (88,420) | 438,674 |
| Addysg | Ysgolion Bach a Gwledig | Arian grant heb ei wario. | 9,023 | 0 | (9,023) | 0 |
| Addysg | Diogelwch Covid mewn Ysgolion | Arian grant heb ei wario. | 9,056 | 0 | 0 | 9,056 |
| Addysg | Dysgu Oedolion yn y Gymuned – Costau Cynnal a Digidol | Arian grant heb ei wario. | 13,523 | 0 | (895) | 12,628 |
| Addysg | Strategaeth ADY | Arian grant heb ei wario. | 15,363 | 0 | 0 | 15,363 |
| Addysg | Grant Cerddoriaeth | Arian grant heb ei wario. | 31,280 | 0 | (9,174) | 22,106 |
| Priffyrdd | Rhwydwaith Bysiau Teithwyr | Arian grant heb ei wario. | 220,976 | 0 | (23,739) | 197,237 |
| Diwylliant | Talnet | Arian grant heb ei wario. | 14,040 | 0 | (13,837) | 203 |
| Dysgu | Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ôl-16 | Arian grant heb ei wario. | 82,185 | 10,972 | 0 | 93,157 |
| Cynllunio | Tirweddau a Lleoedd Cynaliadwy yng Nghefn Gwlad | Arian grant heb ei wario. | 37,574 | 29,422 | (32,600) | 34,396 |
| Cynllunio | Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy – Cefn Gwlad | Arian grant heb ei wario. | 46,425 | 0 | 0 | 46,425 |
| Dysgu | Tlodi Misglwyf | Arian grant heb ei wario. | 0 | 6,300 | 0 | 6,300 |
| Dysgu | Ysgolion Rhithwir Cymru | Arian grant heb ei wario. | 60,000 | 0 | (35,907) | 24,093 |
| Adnoddau | Gweinyddu Prydau Ysgol am Ddim | Arian grant heb ei wario. | 85,557 | 0 | (85,557) | 0 |
| Tai | Cartrefi ar gyfer Wcráin | Arian grant heb ei wario. | 467,047 | 74,861 | (23,150) | 518,758 |

| Gwasanaeth | Enw'r Gronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2023 £ | Trosglwyddiadau i Mewn £ | Trosglwyddiadau Allan £ | Balans ar 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnes y Cyngor | Diwygio Etholiadol | Arian grant heb ei wario. | 11,230 | 0 | (11,230) | 0 |
| Dysgu | TRAC | Arian grant heb ei wario. | 139,465 | 0 | (1,233) | 138,232 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Prynu Cerbydau Trydan | Arian grant heb ei wario. | 50,000 | 0 | (50,000) | 0 |
| Tai | ECO4 | Arian grant heb ei wario. | 0 | 61,071 | 0 | 61,071 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Maethu Cymru | Arian grant heb ei wario. | 0 | 35,111 | 0 | 35,111 |
| Tai | Adsefydlu ffoaduriaid o Afghanistan | Arian grant heb ei wario. | 0 | 114,951 | 0 | 114,951 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WEDI'U CYFYNGU SY'N CAEL EU HARIANNU GAN GRANTIAU** | | | **1,840,594** | **709,453** | **(521,238)** | **2,028,809** |
| Gwastraff | Incwm Proses Ailgylchu | Mae'n amod o'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy bod incwm a gynhyrchir gan weithgareddau ailgylchu'n cael ei ail-fuddsoddi i reoli gwastraff. | 255,130 | 100,000 | 0 | 355,130 |
| Diwylliant | Cronfa Prynu'r Amgueddfa | Defnyddir rhoddion i ychwanegu at gasgliad Oriel Ynys Môn. | 13,251 | 4,474 | 0 | 17,725 |
| Tai | Hamperi Nadolig | Mae'n cael ei ddefnyddio i brynu hamperi Nadolig ar gyfer preswylwyr sy'n wynebu tlodi ariannol. | 3,411 | 0 | (3,411) | 0 |
| Priffyrdd | Ffioedd y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy | Ffioedd a delir gan ddatblygwyr sy'n derbyn caniatâd gan y Bwrdd Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB). Mae'n ariannu costau staffio er mwyn delio â'r ceisiadau. | 32,405 | 0 | (19,040) | 13,365 |
| Gwarchod y Cyhoedd | Ffioedd Claddu ac Amlosgi Plant | Cyllido costau a geir gan Gynghorau Tref a Chymuned. | 0 | 6,389 | 0 | 6,389 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WEDI'U CYFYNGU ERAILL** | | | **304,197** | **110,863** | **(22,451)** | **392,609** |
| Cynllunio | Cynllunio – Datblygiadau Mawr | Cyllido cost delio gyda cheisiadau cynllunio datblygiadau mawr a gwaith cysylltiedig. | 841,576 | 20,269 | (382,057) | 479,788 |
| Datblygu Economaidd | Gwaith archeolegol yn Wylfa | Cyllid gan Horizon i gwblhau gwaith archeolegol yn Wylfa. | 522,420 | 0 | (86,843) | 435,577 |
| Eiddo | Astudiaeth Dichonolrwydd Ysgol Uwchradd Caergybi | Cyllido asesiad o gost to newydd yn Ysgol Uwchradd Caergybi. | 15,000 | 0 | (15,000) | 0 |

| Gwasanaeth | Enw'r Gronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2023 £ | Trosglwyddiadau i Mewn £ | Trosglwyddiadau Allan £ | Balans ar 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchod y Cyhoedd | Model Rhagfynegi Dŵr Ymdrochi | Talu costau cynnal a chadw offer monitro. | 5,354 | 0 | (200) | 5,154 |
| Cynllunio | Gallu a Chapasiti Cynllunio | Mae canran o'r ffioedd cynllunio sy'n cael eu cynhyrchu oherwydd cynnydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth Cynllunio. | 191,723 | 2,415 | 0 | 194,138 |
| Adnoddau Dynol | Cynllun Hyfforddeion | Balans cyllideb heb ei wario o flynyddoedd blaenorol i gyllido ymrwymiadau yn y dyfodol sy'n uwch na'r gyllideb flynyddol. | 285,743 | 0 | (26,830) | 258,913 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Ffi Weinyddol Cyllideb ar y Cyd | Efallai y bydd rhaid talu ffi weinyddol i'r awdurdod arweiniol er mwyn gweithredu'r gyllideb Gofal Cymdeithasol ar y Cyd. | 10,000 | 0 | 0 | 10,000 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Cynllun Cymorthyddion Dysgu Gwasanaethau Plant | Cyllido cymorthyddion dysgu sy'n arbenigo mewn cefnogi plant sydd angen gofal cymdeithasol. | 154,076 | 0 | (45,011) | 109,065 |
| Datblygu Economaidd | Ad-daliad cyd-fenter Stad Ddiwydiannol Penrhos | Incwm rhent ychwanegol a gadwyd i gyllido'r taliad sy'n ddyledus i LlC pan ddaw'r cytundeb cyd-fenter i ben. | 20,597 | 11,882 | 0 | 32,479 |
| Gwarchod y Cyhoedd | Awdurdod Iechyd Porthladd | Cyllido costau sefydlu'r Awdurdod Iechyd Porthladd. | 189,978 | 0 | 0 | 189,978 |
| Dysgu | Addasu swyddfeydd | Cyllido costau addasu swyddfeydd Addysg. | 35,000 | 0 | (35,000) | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | TGCh – Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus mewn Ysgolion | Gwella band eang TGCh mewn ysgolion. | 108,283 | 93,599 | 0 | 201,882 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant y Brifysgol Agored | Cyllido cost rhaglen hyfforddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. | 80,000 | 0 | (30,000) | 50,000 |
| Corfforaethol | Eisteddfod yr Urdd | Cyllido cost presenoldeb y Cyngor yn Eisteddfod yr Urdd yn 2026. Bydd swm o £50k y flwyddyn yn cael ei neilltuo yn ystod blynyddoedd ariannol 23/24, 24/25 a 25/26. | 0 | 50,000 | 0 | 50,000 |
| Busnes y Cyngor | Adolygiad Sgriwtini | Cyllido cost adolygiad o swyddogaeth a phrosesau Sgriwtini'r Cyngor. | 0 | 8,000 | 0 | 8,000 |

| Gwasanaeth | Enw'r Gronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2023 £ | Trosglwyddiadau i Mewn £ | Trosglwyddiadau Allan £ | Balans ar 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Ad-dalu Benthyciad Salix | Cyllido taliadau MRP terfynol, nad oes cyllideb ar eu cyfer, ar fenthyciadau Salix fu'n destun oedi. | 216,190 | 0 | 0 | 216,190 |
| Cynllunio | Rhoi Erthygl 4 ar Waith | Cyllido cost rhoi Erthygl 4 ar waith os yw'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen ag Erthygl 4. | 0 | 300,000 | 0 | 300,000 |
| Adnoddau | Caffael | Cyllido cost cefnogaeth allanol parhaus er mwyn rhoi cynllun gweithredu ar waith yn dilyn adolygiad o drefniadau caffael y Cyngor. | 0 | 45,000 | 0 | 45,000 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WEDI'U CLUSTNODI ERAILL AR GYFER PROSIECTAU PENODOL** | | | **2,675,940** | **531,165** | **(620,941)** | **2,586,164** |
| Corfforaethol | Cyllid Caledi Covid – Casglu'r Dreth Gyngor | Cyllid grant heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda cholledion Treth Gyngor o ganlyniad i Covid. | 365,104 | 0 | (365,104) | 0 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD CYLLID GRANT HEB EU CYFYNGU** | | | **365,104** | **0** | **(365,104)** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM CRONFEYDD CLUSTNODEDIG** | | | **19,637,569** | **4,794,536** | **(7,653,776)** | **16,778,329** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 23ain Gorffennaf 2024 |
| Pwnc: | Cais am Gynllun Dirprwyo mewn perthynas â'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau statudol mewn cysylltiad a unrhyw ddatblygiad sydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd<br>Cynghorydd Gary Prichard – Dirprwy Arweinydd<br>Cynghorydd Nicola Roberts – Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br><br>Christian Branch - Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad: | Angharad Crump - Rheolwr Cyflawni Rhaglen Ynys Ynni |
| Aelodau Lleol: | Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

**Y Pwyllgor Gwaith yn cytuno i argymell i'r Cyngor Llawn i gefnogi'r canlynol;**

1. **I ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd (neu pa bynnag wedi ei ddirprwyo i Ddeilydd Portffolio a enwebwyd gan yr Arweinydd), i gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiad sydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) ac sy'n gofyn am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel y diwygiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.**

2. **Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), i ddiweddaru adran 3.5.3.10 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r dirprwyaethau a roddwyd gan y penderfyniad.**

3. **Caniatâd i wyro oddi wrth ofynion Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor er mwyn galluogi i gyfieithiad Cymraeg o sylwadau'r Cyngor gael ei hanfon at yr Arolygaeth Gynllunio yn dilyn eu cyflwyno yn y Saesneg. (Mae'r eithriad ei angen oherwydd nad yw amserlen archwiliad NSIP yn caniatáu amser digonol i sylwadau'r Cyngor gael eu cyfieithu erbyn y dyddiad cyflwyno).**

**A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**

**Trosolwg o broses archwilio’r NSIP**

Mae Deddf Cynllunio 2008 (a’r Deddfau Seneddol dilynol sydd wedi diwygio ei chynnwys, megis Deddf Lleoliaeth 2011) yn darparu’r drefn gydsynio ar gyfer rhoi caniatâd cynllunio a chaniatâd arall ar gyfer Phrosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Mae prosiectau NSIP yn ddatblygiadau ar raddfa fawr sy’n cynnwys gorsafoedd cynhyrchu ynni, llinellau trydan, cyfleusterau harbwr y mae Llywodraeth y DU o’r farn eu bod mor bwysig fel bod angen i’r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol gadarnhau ar lefel genedlaethol ganiatâd i’w hadeiladu a’u gweithredu.

Cyflwynwyd y broses NSIP er mwyn mireinio’r broses gwneud penderfyniadau am brosiectau seilwaith mawr, gan ei gwneud yn decach ac yn gyflymach i gymunedau ac ymgeiswyr fel ei gilydd. I bob pwrpas, mae’r amserlen yn rhagnodi bod yn rhaid i benderfyniad gael ei gadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol tua 12 – 15 mis ar ôl cyflwyno’r cais.

Mae proses yr NSIP yn broses dechrau dwys lle mae gofyn i’r datblygwr ymgynghori ar brosiect arfaethedig cyn cyflwyno cais i’r Arolygiaeth Gynllunio.

Ar ôl i’r cais gael ei dderbyn, bydd arolygydd/panel o arolygwyr, a elwir yn Awdurdod Archwilio, yn ei archwilio.

Ar ôl cwblhau’r archwiliad, bydd yr Awdurdod Archwilio yn cyflwyno adroddiad argymhelliad i’r Ysgrifennydd Gwladol, fydd yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd datblygu.

Pan fo’r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer prosiect, bydd hyn yn digwydd trwy Orchymyn Cydsynio Datblygiad (GCD). Bydd un GCD a awdurdodwyd yn briodol yn rhoi’r holl gydsyniadau /pwerau angenrheidiol fel bod modd bwrw ymlaen â’r cynllun, ynghyd â’r caniatâd cynllunio, pwerau prynu gorfodol, awdurdod ar gyfer gwaith priffyrdd a strydoedd, caniatâd adeilad rhestredig ac ati.

**Rhaglen Ynys Ynni’r Cyngor**

Trwy ei Raglen Ynys Ynni, mae'r Cyngor, yn ymgysylltu ag amrywiaeth o ddatblygwyr sydd â diddordeb mewn adeiladu a gweithredu ar ddatblygiadau carbon isel ar yr Ynys.

Felly, byddid yn gwneud cais am ystod y datblygiadau arfaethedig o ran cynhyrchu allbwn a chaniatâd o dan wahanol gyfundrefnau cynllunio.
O ran y datblygiadau arfaethedig y mae’r Rhaglen Ynys Ynni yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd, byddai’r isod, oherwydd eu hallbwn cynhyrchu, yn creu NSIP a byddai’n ofynnol cael GCD gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

| A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau |
|---|
| - Fferm Wynt Mona (1,500MW) (EnbW) – wedi'i chyflwyno i'w harchwilio<br>- Fferm Solar Maen Hir (dros 350MW) (Lightsource BP) – yn y cam cyn ymgeisio – cyflwyniad Ch1 2025<br>- Byddai datblygiad niwclear newydd yn Wylfa hefyd yn NSIP a byddai angen y cyfryw Orchymyn ar ei gyfer.<br><br>Bydd holl swyddogaethau statudol y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw brosiect NSIP yn cael eu harwain gan y Rhaglen Ynys Ynni sy'n rhan o'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Defnyddir y dull hwn i sicrhau y gall y Cyngor ddarparu'r adnoddau a'r capasiti arbenigol sydd eu hangen i ymateb i alwadau a gofynion y broses mewn modd effeithiol ac amserol o ran ei swyddogaethau statudol ac anstatudol. Mae'r dull hwn, hefyd, yn sicrhau nad yw ymgysylltiad y Cyngor ag NSIP yn ymyrryd â swyddogaeth Gynllunio'r Cyngor.<br><br>Sicrheir adnoddau a chapasiti'r Cyngor i ymdrin â phrosiectau NSIP trwy ddarparu Cytundeb Perfformiad Cynllunio y ceir cytundeb y Cyngor a'r datblygwr iddo. Fel arfer, cytunir ar y Cytundeb Perfformiad Cynllunio fesul cam, rhywbeth sy'n fodd i'r Cynghorau ymgysylltu ag NSIP penodol ar gyfer y cam cyn ymgeisio, archwilio ac ôl-gydsynio. Fel hyn, mae modd i'r Cyngor ymgysylltu, dylanwadu a chyflawni ei ddyletswyddau statudol ac anstatudol ar bob cam o'r prosiect. Mae'r Cytundeb yn fodd i ni ddefnyddio ein contractwyr fframwaith ar gyfer cymorth, sy'n cynnwys cymorth amlddisgyblaethol a chyfreithiol.<br><br>Arweiniodd y Rhaglen Ynys Ynni ar ymatebion y Cyngor i brosiect Niwclear Newydd Wylfa Newydd, oedd yn brosiect NSIP, ac mae wedi arwain ar nifer o gynlluniau eraill a nodir yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac sy'n cael eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Ynys Ynni, felly, yn brofiadol ac yn gyfarwydd â'r broses gydsynio NSIP.<br><br>**Rôl statudol y Cyngor mewn perthynas â phrosiect NSIP**<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn annog awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt ddigon o ddirprwyaethau ar waith gan fod cam archwilio proses yr NSIP yn cymryd llawer o amser ac adnoddau ac, oherwydd mai'r Arolygiaeth sy'n pennu'r amserlen archwilio, nid yw'n bosibl cysoni'r terfynau amser fel bod y Cyngor yn cyflwyno sylwadau a thystiolaeth gyda chylch pwyllgorau'r Cynghorau.<br><br>Mae gan y Cyngor rôl allweddol a statudol fel yr awdurdod lletyol lleol, yr awdurdod cynllunio lleol a'r awdurdod priffyrdd lleol, drwy gydol y broses fel y nodir isod; |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau

| Cyn cais | Derbyn | Cyn archwilio | Archwilio | Ar ôl penderfynu |
|---|---|---|---|---|
| 28 diwrnod i roi sylwadau ar Ddatganiad o Ymgynghoriad Cymunedol Drafft | Yr Arolygiaeth Gynllunio/Ysgrifennydd Gwladol yn cael 28 diwrnod i benderfynu derbyn y cais am archwiliad (14 diwrnod i’r awdurdod lleol gyflwyno sylwadau digonol o’r ymgynghoriad | Ymateb i’r gwahoddiad i’r cyfarfod rhagarweiniol (rheol chwe llythyr) | Chwe mis ar gyfer archwilio (hyd at) | Gwneud i ffwrdd â gofynion a gwaith monitor |
| Ymateb i ymgynghoriad y datblygwr ynghylch y cynllun (a42) | | Ystyried amserlen ddrafft y gwaith archwilio a rhoi sylwadau os oes angen. | Derbyn y penderfyniad gweithdrefnol (gan gynnwys yr amserlen archwilio (rheol wyth | Gorfodaeth |
| Trafod cytundebau a gofynion Adran 106 gyda’r datblygwr | | Mynd i’r cyfarfod rhagarweiniol | Cyflwyno Adroddiad ar yr Effaith yn Lleol, y Datganiad o Dir Cyffredin a sylwadau ysgrifenedig yn gynnar yn yr archwiliad | Ymateb i hysbysiadau ceisiadau ynghylch newid amherthnasol a pherthnasol |
| Cynghorir awdurdodau lleol i ddechrau gweithio/trefnu dirprwyaethau ar gyfer Adroddiadau ar Effeithiau Lleol/ Datganiad o Dir Cyffredin | | Parhau i baratoi’r Datganiad o Dir Cyffredin, yr Adroddiad ar yr Effaith yn Lleol a sylwadau ysgrifenedig | Mynd i wrandawiadau /ymweliadau safle cysylltiedig a chymryd rhan ynddynt | |
| Cynghorir Awdurdodau Lleol i ystyried a gwneud trefniadau i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill | | Paratoi ar gyfer archwiliad – cymorth cyfreithiol ac arbenigol? | Cyflwyno ymrwymiad cynllunio wedi’i lofnodi erbyn y dyddiad cau | |
| Cytuno â’r datblygwr ar delerau unrhyw gytundeb perfformiad cynllunio | | Parhau i negodi gyda’r datblygwr | Ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a cheisiadau am ragor o wybodaeth | |
| | | | Gwneud sylw ar sylwadau a chyflwyniadau partïon eraill â diddordeb | |

Yn ystod y cyfnod archwilio bydd nifer o derfynau amser i'r Cyngor fel yr Awdurdod Lletyol Lleol gyflwyno cyflwyniadau a thystiolaeth. Yn eu plith, mae’r isod;

- Adroddiad ar yr Effaith yn Lleol
- Sylwadau Ysgrifenedig
- Ymrwymiad Cynllunio (A106)
- Datganiad Tir Cyffredin
- Ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio
- Ymateb i gais yr Awdurdod Archwilio am wybodaeth
- Gofynnir i'r Cyngor hefyd gymryd rhan yn ngwrandawiadau a sesiynau’r ymchwiliad.

Yr Arolygiaeth Gynllunio sy’n pennu dyddiad cau cyflwyno’r dogfennau hyn ac, felly, nid yw’n bosibl eu cysoni â chylch pwyllgorau’r Cyngor i’r rhain gael eu cymeradwyo.

Tra bod angen y Cynllun Dirprwyo i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, cadarnheir y gwneir pob ymdrech ar bob cam i sicrhau cymaint o fewnbwn gwleidyddol â phosibl drwy'r trefniadau llywodraethu a ganlyn, sydd eisoes ar waith.

**A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau**

| | |
|---|---|
| Lefel 1 | Arweinydd<br>Prif Weithredwr<br>(Uwch-berchennog Cyfrifol Rhaglen Ynys Ynni) |
| Lefel 2 | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinwyr<br>Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd,<br>Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Rheoleiddio Gwasanaeth a Datblygu Economaidd |
| Lefel 3 | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth – ‘Arweinwyr Eithriadol’<br>Rheolwr Cyflawni Rhaglen Ynys Ynni |
| Lefel 4 | Arweinwyr Pwnc Arbenigol (yn fewnol ac allanol (darperir allanol ar y Cytundeb Fframwaith ac fe’i hariennir dan ddarpariaeth Cytundeb Perfformiad Cynllunio)) |

Caiff swyddogion Lefel 1 eu briffio'n rheolaidd o ran ymgysylltiad y Rhaglen Ynys Ynni â phrosiect penodol a byddant, hefyd, yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog cyfatebol er mwyn i'r prosiect gymryd rhan mewn trafodaethau strategol.

Defnyddir y cyfarfodydd Lefel 2 rheolaidd i;

- rhannu gwybodaeth mewn perthynas â'r cynnig;
- ystyried a thrafod safbwynt y Cyngor mewn perthynas â'r cynnig;
- trafod yr effeithiau posibl a sut y caiff y rhain eu dileu neu eu lliniaru;
- trafod sut y gellir manteisio i'r eithaf ar fuddion lleol a'u sicrhau'n briodol;
- trafodaeth ynghylch cynigion iawndal gan gynnwys y rhai a sicrhawyd drwy A106.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd hefyd ar Lefel 3 a Lefel 4 i sicrhau bod materion a chyfarwyddiadau strategol yn cael eu rhaeadru i lawr yn ogystal â bod yn fforwm ar gyfer trosglwyddo’n uwch broblemau ac anawsterau a gafwyd wrth ymwneud â phrosiect o'r maint hwn.

Mae Lefel 3 a Lefel 4 yn swyddogion sy'n ymwneud â manylion technegol prosiect penodol.

Trefnir Sesiynau Briffio Aelodau Penodol, hefyd, gan y Rhaglen Ynys Ynni sy'n fodd i aelodau etholedig y wardiau hynny, y mae NSIP penodol a'r datblygwyr yn effeithio arnynt, ymgysylltu uniongyrchol â’i gilydd. Mae hyn yn cynnwys cyfle i aelodau gael gwybodaeth lawn am y prosiect a chael cyfle i ofyn cwestiynau.

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Bydd copïau o'r holl gyflwyniadau ffurfiol i'r archwiliad hefyd yn cael eu rhannu â swyddogion L2 ac aelodau etholedig perthnasol y wardiau y bydd y prosiectau’n cael effaith arnynt.<br><br>Bydd Datganiad Sefyllfa Cyngor Cyfan yn cael ei baratoi ar gyfer unrhyw brosiect NSIP. Mae'r Datganiad hwn yn ddogfen strategol allweddol sy'n ateb y diben a ganlyn;<br><br>- cadarnhau safbwynt y Cyngor cyfan mewn perthynas â phrosiect NSIP penodol<br>- dylanwadu ar yr hyn a ystyrir yn dderbyniol ac annerbyniol i'r Cyngor yn y cyflwyniad GCD a’i lywio;<br>- siapio holl sylwadau ysgrifenedig dilynol y Cyngor a chyflwyniadau i'r Archwiliad GCD;<br>- fframio'r hyn a geisir gan y Cyngor o ran lliniaru a buddion, er mwyn cyflawni ei amcanion a gofynion polisi cyffredinol; yn ogystal â<br>- sefydlu’r paramedrau ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn unol â chynllun Dirprwyo’r Cyngor Sir<br><br>Cadarnheir bod cynllun dirprwyo wedi’i roi ar waith i’r Cyngor ymdrin â Phrosiect Wylfa Newydd oedd yn gyfystyr ag NSIP a bod y Pwyllgor Gwaith eisoes wedi cytuno ar Gynllun Dirprwyo. Gwneir hynny mewn perthynas â’r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaeth statudol ar gyfer pob prosiect sy'n gyfystyr â Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n cynnwys Prosiect Fferm Solar Traffwll a archwiliwyd yn ddiweddar.<br><br>Cadarnhaodd ymwneud y Cyngor yng ngwaith archwilio’r ddau brosiect hyn fod angen cael cynllun dirprwyo ar waith i sicrhau y gallai’r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol o ran ymgysylltu â phrosiect o’r maint hwn, cyflwyno’i gyflwyniadau o fewn y terfynau amser a ragnodwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio a chymryd rhan yn y broses archwilio, naill ai drwy wrandawiadau neu ymholiadau.<br><br>Cadarnhaodd ein hymwneud yn y ddau archwiliad hyn, hefyd, fod ein dull gweithredu o ran cael Datganiad Sefyllfa Gorfforaethol yn ei le i lywio ein safbwynt mewn perthynas â phrosiect, wedi sicrhau bod safbwynt y Cynghorau, fel y’i nodwyd yn ein cyflwyniadau a’n tystiolaeth i’r archwiliad, yn gyson â'r sefyllfa gorfforaethol y cytunwyd arni.<br><br>Am y rheswm hwn gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith roi cynllun dirprwyo ar waith sy'n caniatáu i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor.<br><br>Argymhellir, hefyd, bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno, o ran y dirprwyaethau a gynigir, y gall unrhyw gamau a gymerir oddi tanynt gael eu dirprwyo ymhellach i unrhyw un o swyddogion y Cyngor gan y swyddog penodedig. Mae angen y gallu i ddirprwyo ymhellach fel bod modd i swyddogion gynrychioli'r Cyngor yn effeithiol mewn gwrandawiadau ac ymchwiliadau a chytuno ar faterion yn ystod archwiliad o'r fath. |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau |
|---|
| - **Cyflwyno fersiynau wedi’u cyfieithu o gyflwyniadau’r Cyngor**<br><br>O ran cyflwyno fersiynau dwyieithog o sylwadau a thystiolaeth y Cyngor i’r archwiliad, nid yw’r amserlen archwilio a ddarperir gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn caniatáu digon o amser i gyfieithu cyflwyniadau’r Cyngor erbyn y dyddiad cyflwyno. Gofynnir felly am ganiatâd i wyro oddi wrth ofynion polisi Iaith Gymraeg y Cyngor i ganiatáu ar gyfer cyfieithiad Cymraeg o gyflwyniadau'r Cyngor gael ei cyflwyno i'r broses archwilio ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Cadarnheir y gofynnir am hyn fel eithriad oherwydd gofynion y broses ac y darperir fersiwn Gymraeg o gyflwyniad y Cyngor bob amser.<br><br>Ni fydd y mesur hwn yn cael effaith ar y Cyngor yn cydymffurfio â safonau darparu gwasanaeth statudol, sy’n sicrhau gohebiaeth Gymraeg/ddwyieithog gyda’r cyhoedd a phersonau eraill yng Nghymru. Nid yw'r safonau hyn yn rhagnodi bod yn rhaid cyfathrebu â chyrff y tu allan i Gymru, megis Llywodraeth y DU, yn Gymraeg/dwyieithog. Bydd gohebiaethau/dogfennau perthnasol ar gael yn Gymraeg cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ni chaiff unrhyw ddogfennau eu cyhoeddi na’u cyhoeddi’n gyhoeddus hyd nes y bydd cyfieithiad Cymraeg ar gael. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Yr opsiwn arall a ystyriwyd oedd peidio â cheisio'r dirprwyaethau y gofynnwyd amdanynt. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i'r Pwyllgor Gwaith a/neu'r Cyngor Llawn gymeradwyo holl sylwadau a thystiolaeth y Cyngor ar archwiliad NSIP.<br><br>Gwrthodwyd yr opsiwn hwn gan na fyddai’n bosibl cysoni’r amserlen archwilio a ragnodwyd gan yr Arolygiaeth â chylch pwyllgorau’r Cyngor. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu na fyddai'r Cyngor yn gallu cyflwyno ei sylwadau a’i dystiolaeth i'r archwiliad ar amser ac, felly, ni fyddai'n cymryd rhan lawn yn yr archwiliad nac yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol.<br><br>Fel yr awdurdod lletyol lleol, awdurdod cynllunio lleol ac awdurdod priffyrdd lleol, mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae wrth archwilio cais NSIP.<br><br>Oherwydd dull rhagnodedig amserlen archwiliadau NSIP, nid oes cyfleoedd i wneud cais i ymestyn terfynau amser.<br><br>Ystyrir bod y dirprwyaethau a geisir yn gydbwysedd priodol rhwng cael Aelodau yn ymgysylltu â cheisiadau NSIP a chaniatáu i Swyddogion baratoi a chyflwyno sylwadau i'r archwiliad, sy'n fodd i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn llawn ac o fewn yr amserlenni archwilio a bennir gan yr Arolygaeth. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| O ran gallu cyflwyno fersiynau dwyieithog o gyflwyniad a thystiolaeth y Cyngor adeg y cyflwyno, unwaith eto, nid yw'r amserlen a bennwyd gan yr Arolygiaeth yn rhoi digon o amser i ddrafftio a sicrhau y caiff y gwaith cyfieithu ei wneud cyn y dyddiad cyflwyno. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Bwriedir gwneud newidiadau i gyfansoddiad y Cyngor. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn? |
| --- |
| Mae’r Cyngor Llawn eisoes wedi cymeradwyo math tebyg o ddirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau statudol y Cyngor mewn cysylltiad ag archwilio Prosiect Wylfa Newydd, oedd yn brosiect NSIP. Mae hyn, hefyd, mewn perthynas â swyddogaethau statudol y Cyngor ar gyfer pob prosiect sy'n gyfystyr â Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n cynnwys Prosiect Fferm Solar Traffwll a archwiliwyd yn ddiweddar.<br><br>Cadarnhaodd ymwneud y Cyngor yng ngwaith archwilio’r ddau brosiect hyn fod angen cael cynllun dirprwyo yn ei le i sicrhau y gallai’r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol o ran ymgysylltu â phrosiect o’r maint hwn, cyflwyno’i gyflwyniadau o fewn y terfynau amser a ragnodwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio a chymryd rhan yn y broses archwilio, naill ai drwy wrandawiadau neu ymholiadau. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Nid yw’n ofynnol cael cyllideb. |

| Dd – Asesu’r effaith posibl: (os yw’n berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Bydd y penderfyniad hwn yn fodd i’r Cyngor gyfrannu’n llawn at archwilio ar amser unrhyw ddatblygiad sy’n gyfystyr â Phrosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |

| Dd – Asesu'r effaith posibl: (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod â phwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | Nac ydynt |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Byddai'r penderfyniad hwn yn sicrhau bod sylwadau'r Cyngor ar waith archwilio unrhyw gais NSIP yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch-dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Yn gefnogol o argymhellion |
| 2 | Cyllid/Adran 151 (gorfodol) | - |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro | Yn gefnogol o argymhellion |
| 4 | Adnoddau Dynol | - |
| 5 | Eiddo | - |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | - |
| 7 | Caffael | - |
| 8 | Sgriwtini | - |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Amherthnasol |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| Amherthnasol |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **23ain Gorffennaf 2024** |
| Pwnc: | **Cyflwr economaidd-gymdeithasol Gogledd Ynys Môn a'r achos dros fuddsoddiad a chymorth** |
| Aelod Portffolio: | **Cynghorwyr Gary Pritchard a Robin Williams Dirprwy Arweinyddion** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Christian Branch, Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Tudur H. Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Cyng. Aled Morris Jones**<br>**Cyng. Liz Wood**<br>**Cyng. Derek Owen**<br>**Cyng. Jackie Lewis**<br>**Cyng. Llio Angharad Owen**<br>**Cyng. Euryn Morris**<br>**Cyng. Margaret Roberts**<br>**Cyng. Ieuan Williams**<br><br>**Ond mae hefyd yn berthnasol i bob Aelod Etholedig** |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:**

**1. Nodi *Adroddiad Effaith Economaidd-gymdeithasol Gogledd Ynys Môn* a chynnwys yr adroddiad fel ei fod yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa bresennol, y tueddiadau, y cyfleoedd a'r heriau.**

**2. Cefnogi'r Arweinydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet newydd dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg i godi ymwybyddiaeth o'r materion, heriau a chyfleoedd.**

**3. Cefnogi gweithgareddau parhaus y Cyngor i nodi a sicrhau cyllid allanol i hwyluso gweithgareddau adfywio yn y dyfodol.**

**4. Sicrhau bod Swyddogion ac Aelodau Etholedig yn defnyddio'r data sydd yn yr Adroddiad Effaith i wneud penderfyniadau gwybodus fel Cyngor llawn i gyflawni Cynllun y Cyngor (2023-2028).**


**Rhesymau:**

Mae'r swyddogaeth Datblygu Economaidd wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth i nodi'r sefyllfa bresennol a'r heriau y mae Gogledd Ynys Môn yn eu hwynebu, a dyhead y Cyngor i fuddsoddi arian yn yr ardal i fynd i'r afael â'r

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau: |
|---|
| heriau economaidd-gymdeithasol penodol.<br><br>Ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ar y sefyllfa yng Ngogledd Ynys Môn yn ôl yn 2019, mae cau nifer o safleoedd cyflogaeth pwysig megis Rehau, y gwaith datgomisiynu parhaus yn hen orsaf bŵer niwclear Wylfa Magnox, ynghyd â'r pandemig Covid-19 wedi dwysau'r colledion swyddi gwreiddiol yn sgil cau safle Octel a'r heriau economaidd-gymdeithasol i'r gymuned a'r gweithlu.<br><br>Mae Gogledd yr Ynys wedi bod yn dirywio ers dau ddegawd o leiaf. Mae'r diffyg swyddi yn golygu bod siaradwyr Cymraeg oedran gweithio yn symud o'r ardal gyda'u teuluoedd – gan adael poblogaeth sy'n heneiddio ac economi fregus.<br><br>Er bod yr ardal ddaearyddol yn cynrychioli traean o'r Ynys, ac un rhan o bump o'r boblogaeth, mae llai na un rhan o ddeg o swyddi'r Ynys wedi'u lleoli yng Ngogledd Ynys Môn. Mae Gogledd Ynys Môn yn gyfrifol am ddim ond 13% o Werth Ychwanegol Gros (GVA) yr Ynys, ac mae'r twf GVA yn yr ardal hon ers 1998 hanner yr hyn ydyw yng ngweddill yr Ynys.<br><br>Rhwng 2015 a 2021 mae'r ardal wedi colli 485 o swyddi, dros un rhan o bump o'r holl gyflogaeth. Dim ond 35% o drigolion sy'n gweithio yn yr ardal y maent yn byw ynddi ac mae Amlwch, y dref fwyaf yn yr ardal, o fewn y 30% ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Yn ôl y cyfrifiad diweddaraf (2021) mae 13,200 o bobl yn byw yng Ngogledd Ynys Môn. Rhwng cyfrifiad 2011 a 2021 mae'r boblogaeth 65+ yng Ngogledd Ynys Môn wedi cynyddu bron 30%, ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Nghymru (18%). Mae anweithgarwch economaidd wedi cynyddu yn yr ardal hon gan ei bod yn ardal boblogaidd i ymddeol iddi.<br><br>Mae'n destun pryder bod yr ardal wedi colli cymaint o drigolion rhwng 25 a 50 oed, pan fydd pobl fel arfer yn nyddiau cynnar eu gyrfa ac yn bwrw gwreiddiau. Yng Ngogledd Ynys Môn, mae mwy o drigolion 50 oed a hŷn na phobl rhwng 25-49 oed, a hynny o 2 i 1. Mae'r allfudo hwn wedi amharu ar y diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg yn yr ardal hon - mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Amlwch a Llannerchymedd wedi gostwng pedwar pwynt canran ers cyfrifiad 2011. |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

*Y newid ym mhroffil oedran poblogaeth Gogledd Ynys Môn rhwng 2011 a 2021:*




Fodd bynnag, mae nifer o gyfleoedd ar gyfer Gogledd yr Ynys, fel y nodir yn *Adroddiad Economaidd-gymdeithasol Gogledd Ynys Môn* ac mae'r Cyngor, ynghyd â'i bartneriaid strategol (yn cynnwys yr Asiantaeth Datgomisiynu Niwclear (NDA)) a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adfywio'r ardal.

Ni all y Cyngor a'r sector cyhoeddus adfywio Gogledd Ynys Môn ar eu pen eu hunain. Bydd denu buddsoddiadau newydd gan y sector preifat yn hanfodol. Er yr heriau, mae nifer o gyfleoedd:

a. Ailddatblygu hen safle Rehau i greu gofod diwydiannol a swyddfeydd o ansawdd uchel.
b. Cynnwys safleoedd Rhosgoch ac Octel yn y Porthladd Rhydd arfaethedig.
c. Y datblygiad niwclear arfaethedig yn Wylfa.
Ch. Manteision economaidd-gymdeithasol posib yn sgil datblygiadau ynni carbon isel amrywiol.

Ni ddylid diystyru chwaith bwysigrwydd y sector amaeth a'r economi ymwelwyr. Mae gwaith datblygu prosiectau'r Cyngor, sy'n cael ei hwyluso a'i ariannu'n rhannol drwy ein partneriaeth a'n cydweithrediad tymor hir â'r NDA a Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynllunio, cydsynio a datblygu Achos Busnes Ffurfiol i danategu ceisiadau am arian cyfalaf (beth bynnag fo'r ffynhonnell ariannu), hefyd yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r prosiectau a ganlyn:

i. Unedau Busnes newydd yn Amlwch, gyda chaniatâd cynllunio i godi 10 uned fusnes newydd (a fydd yn creu 33 o swyddi), i dargedu busnesau bach a chanolig a cheisio mynd i'r afael â'r prinder unedau busnes ansawdd uchel yn yr ardal a ledled Ynys Môn.

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau: |
| --- |
| ii. Adnewyddu'r Derfynfa Forol (hen Adeilad Shell) ym Mhorth Amlwch, i fynd i'r afael â'r prinder swyddfeydd ac unedau busnes o ansawdd uchel drwy adnewyddu adeilad amlwg, nad oes modd i'r Cyngor ei osod ar hyn o bryd, sy'n edrych dros yr harbwr rhestredig ym Mhorth Amlwch.<br><br>iii. Creu Parc Cymunedol 15 acer newydd ym Mhorth Amlwch, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas. Mae'r dyluniadau cysyniad ar gyfer y safle'n rhan o'r cais cynllunio sydd wrthi'n cael ei ystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd hen ddarn o dir diwydiannol, sydd wedi gordyfu ac sydd ddim yn cael ei ddefnyddio'n llawn, yn cael ei ddatblygu i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth yr ardal leol, gwarchod natur a darparu gofod cyhoeddus hygyrch er lles pawb (i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), yn ogystal â gwneud Porth Amlwch yn lle mwy deniadol fel cyrchfan ymwelwyr.<br><br>Rhaid dod o hyd i'r cyllid allanol angenrheidiol i wireddu'r prosiectau hyn a'u rhoi ar waith.<br><br>Mae gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu prosiectau treftadaeth, diwylliant a hanes yn yr ardal ac i'w gwneud yn fwy deniadol fel cyrchfan ymwelwyr, unwaith eto fel ein bod ni'n barod i ymgeisio am gyllid cyfalaf allanol i'w rhoi ar waith.<br><br>Dylid nodi bod yr ardal mewn perygl o ddirywiad pellach oni bai am y gwaith i ddatblygu rhagor o brosiectau gan na fyddai gennym brosiectau "parod i fynd" i ymgeisio am gyllid ar eu cyfer. Nod y cynigion hyn yw sicrhau bod yr ardal yn elwa o'r cyllid fydd ar gael yn y dyfodol ac ysgogi rhagor o fuddsoddi yn yr ardal.<br><br>Mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o ymyraethau ar waith er budd Gogledd yr Ynys, yn cynnwys grantiau i fusnesau a sefydliadau targed gwerth dros £160,000, sydd wedi helpu 33 o sefydliadau, a phob math o fesurau i wella ardaloedd yn cynnwys arwyddion newydd a byrddau gwybodaeth yn Amlwch, gwelliannau i'r Llwybr Arfordir a phont droed newydd ym Mae Cemaes dros yr afon Wygyr.<br><br>Er bod y prosiectau hyn yn golygu buddsoddiad sylweddol mewn cyfnod heriol dylid nodi/cydnabod bod gan y Cyngor enw da o ran cyflawni prosiectau tebyg ar hyd a lled yr Ynys.<br><br>Er bod llawer o'r gwaith a gyflawnir gan y Cyngor, wedi ac yn parhau i sicrhau canlyniadau positif, ar lefel strategol nid yw cwmpas a graddfa'r gwaith hwn yn ddigon i sicrhau newid trawsnewidiol parhaus ar gyfer yr ardal. Byd rhaid cydweithio â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, yr NDA a phartneriaid eraill i sicrhau'r newid y mae'r ardal yn ei haeddu.<br><br>Mae cyfleoedd ehangach, strategol a allai sicrhau newid trawsnewidiol yng Ngogledd yr Ynys. Yng nghyllideb y gwanwyn, 2024, fe wnaeth Llywodraeth y DU gadarnhau ei bod yn y broses o brynu safle Wylfa gan Hitachi. Mae'r Cyngor o'r farn bod hyn yn gam arwyddocaol ymlaen a'i fod yn rhoi cadarnhad i gymunedau lleol ei bod hi'n debygol iawn y bydd datblygiad niwclear newydd yn Wylfa, naill ai ar raddfa gigawat a/neu Adweithydd Modiwlaidd Bach, gan fod y safle wedi cael ei nodi fel un |

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau: |
| --- |
| o'r safleoedd gorau yn y DU ar gyfer datblygiad niwclear newydd. Mae'r Cyngor wedi bod yn gefnogwr brwd o ddatblygiad niwclear newydd ac mae wedi bod ynghlwm â hynny ers dros 10 mlynedd, gan ddylanwadau ar Lywodraethau a datblygwyr, a sicrhau bod anghenion y Gogledd yn cael eu cydnabod. Bydd hyn yn parhau â'r Llywodraeth newydd sydd bellach mewn grym. Er y datblygiad cadarnhaol hwn, mae'n bwysig cydnabod hyd yn oed os cadarnheir y datblygiad na fydd y buddion a fyddai ynghlwm â phrosiect mor fawr yn cael eu gweld yn lleol am nifer o flynyddoedd.<br><br>Drwy'r Rhaglen Ynys Ynni bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU, Great British Nuclear, Llywodraeth Cymru ac unrhyw randdeiliaid allweddol eraill yn gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa ac i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn cael ei ddatblygu mewn modd sy'n cydnabod a llwyr werthfawrogi naws yr ardal leol.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd wedi mynnu ac wedi rhoi llawer o bwys ar sicrhau bod Gogledd Ynys Môn yn chwarae rhan allweddol yng nghais Porthladd Rhydd y Cyngor, a all sicrhau twf economaidd cadarnhaol ar yr Ynys. Rhagwelir y bydd y Porthladd Rhydd yn creu rhwng 3,500 a 13,000 o swyddi yng Ngogledd Cymru, gyda'r mwyafrif yn Ynys Môn. Mae dau safle yng Ngogledd Ynys Môn wedi cael eu cynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol a gyflwynwyd i'r ddwy Lywodraeth. Mae'r ardal yn debygol o weld twf mewn swyddi, ac mae safleoedd tir llwyd yn yr ardal wedi cael eu clustnodi i'w hailddatblygu'n safleoedd Porthladd Rhydd uchel eu gwerth, gan sicrhau manteision sylweddol i annog buddsoddiadau gan y sector preifat.<br><br>Mae'n hanfodol bod y cydweithio agos a gwerthfawr, a'r cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, yr NDA (ac eraill) yn parhau er mwyn trawsnewid yr economi leol er budd ein trigolion a'n cymunedau. |
| |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Gwneud dim: dim ymyraethau newydd yng Ngogledd Ynys Môn; nid yw hyn yn cyd-fynd â pholisïau ac uchelgais y Cyngor ac mae'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd y sefyllfa'n gwella yng Ngogledd yr Ynys. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Mae gwireddu uchelgais Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor (2023-2023) ac mae'n hanfodol er mwyn gwireddu nifer o amcanion y cyngor. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi gan ei fod yn cyd-fynd â'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor (2023-2028), yn benodol "*Cydweithio i wireddu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn*" drwy:<br><br>• greu Ynys Môn iach a llewyrchus ble gall pobl ffynnu<br>• hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys<br>• ysgogi adfywiad economaidd a chymunedol<br>• parhau i fanteisio ar gyfleoedd cyllido allanol i sicrhau bod anghenion economaidd yr ynys yn cael sylw. |
| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| Ydi, nid ydym yn gofyn am gyllid ychwanegol o gyllideb graidd y Cyngor ar hyn o bryd. Hyd yma mae'r holl waith datblygu prosiectau wedi cael ei gefnogi gan y cyllid NDA a sicrhawyd gan y gwasanaeth Datblygu Economaidd.<br><br>Fodd bynnag, mae'r adroddiad terfynol yn nodi nifer o faterion strategol, sy'n gysylltiedig â Chynllun y Cyngor a'i amcanion strategol. Yn amlwg bydd angen rhywfaint o gyllid i wireddu'r rhain, boed yn gyllid refeniw neu gyfalaf, ar adeg pan fo cyllideb y Cyngor dan bwysau sylweddol. Bydd goblygiadau ariannol y cynlluniau ar gyfer Gogledd Ynys Môn yn cael eu hystyried fel rhan o Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a phan fydd cyllidebau cyfalaf yn cael eu gosod yn y dyfodol. Rhoddir blaenoriaeth i ddyletswyddau statudol y Cyngor a'r ffrydiau gwaith a fydd yn sicrhau'r buddion mwyaf i drigolion Ynys Môn. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys? | Mae'r penderfyniad hwn yn gyfle i sicrhau cyllid i symud prosiectau i fynd i'r afael â'r methiant yn y farchnad yn eu blaen yng Ngogledd Ynys Môn a chyflawni amcanion CAEGYM. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Ydi – os bydd y sefyllfa'n gwaethygu bydd y Cyngor yn wynebu costau uwch yn cynnwys costau tai, gofal cymdeithasol ac addysg. |
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud y penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | Yn y gorffennol mae swyddogion CSYM wedi sicrhau symiau sylweddol o arian gan yr NDA a Llywodraeth Cymru i ddatblygu prosiectau yng ngogledd yr Ynys. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â noddwyr allanol yn cynnwys yr NDA, Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas i ddatblygu prosiectau i wella'r sefyllfa. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | Ymgynghorwyd yn helaeth fel rhan o CAEGYM er mwyn nodi blaenoriaethau cymunedau. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar y parcdir wedi |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | amlygu awch i fuddsoddi yn yr ardal a chefnogi cynnig y Cyngor. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | Bydd y grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn elwa o'r amcanion yn yr adroddiad i ddadwneud y dirywiad economaidd gan fod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o brofi anfantais economaidd-gymdeithasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y rhai sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol yn elwa'n uniongyrchol o'r ymrwymiad i symud prosiectau yn eu blaen i wella sefyllfa economaidd Gogledd Ynys Môn. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Byddai cynyddu cyfleoedd gwaith yn lleol yn un o gadarnleoedd y Gymraeg yn lleihau allfudo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chryfhau cymunedau. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cefnogi – ond cynnwys mwy o wybodaeth ar yr ymyraethau strategol ehangach megis Wylfa Newydd, Porthladd Rhydd a chydweithio â phartneriaid allweddol. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Cefnogi – ond dylid cyfeirio'n benodol at y rhagolygon ariannol heriol sy'n wynebu'r Cyngor. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Cefnogol |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| *Adroddiad Effaith Economaidd-gymdeithasol Gogledd Ynys Môn (Mai 2025)* |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| *Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn*<br><br>https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Business/Regeneration/North-Anglesey-Economic-Regeneration-Plan.pdf |

Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

# Adroddiad Effaith Economaidd-Gymdeithasol Gogledd Ynys Môn

Ebrill 2024

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol 3
2 Rhagarweiniad 8
3 Gogledd Ynys Môn mewn cyd-destun 9
4 Heriau i economi Gogledd Ynys Môn 14
5 Heriau i gymuned Gogledd Ynys Môn 22
6 Cyfleoedd 28
7 Edrych tua'r dyfodol 33

# 1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor Sir) wedi cynhyrchu'r adroddiad tystiolaeth hwn i egluro'r sefyllfa a heriau presennol sy'n wynebu Gogledd yr Ynys ynghyd ag **uchelgais buddsoddi'r Cyngor er mwyn mynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol yr ardal.**

1.2 Ers cynhyrchu'r adroddiad diwethaf ar Ogledd Ynys Môn yn 2019, mae'r ffaith bod safleoedd cyflogaeth mawr fel Rehau wedi cau a gwaith yn parhau ar ddatgomisiynu'r orsaf niwclear Wylfa Magnox flaenorol, ynghyd â phandemig Covid-19, wedi **gwaethygu'r colledion swydd oedd eisoes wedi digwydd yn sgîl cau Octel a'r heriau economaidd-gymdeithasol cysylltiedig i'r gymuned a'r gweithlu.**

1.3 Mae **Gogledd yr Ynys wedi bod yn dirywio'n barhaus ers ugain mlynedd o leiaf.** Oherwydd prinder gwaith, mae siaradwyr Cymraeg oedran gweithio wedi symud allan gyda'u teuluoedd, gan adael poblogaeth sy'n heneiddio ac economi dan bwysau.

1.4 Mae **gan Ogledd yr Ynys gyfleoedd sylweddol** - mae'r Cyngor Sir a'i bartneriaid strategol (gan gynnwys yr Asiantaeth Datgomisiynu Niwclear (NDA)) yn gweithio'n galed i adfywio'r ardal.

1.5 Mae angen hefyd penderfyniadau a buddsoddiadau strategol i greu'r newid strwythurol sydd taer ei angen ar yr ardal – mae **defnyddio safle Wylfa yn y dyfodol** (naill ai ar gyfer Adweithyddion Modiwlar Bach (SMR) neu orsaf niwclear 'giga') a **statws Porthladd Rhydd** yn hanfodol i hyn. Mae'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi prynu safle Wylfa am £160m yn ddiweddar yn gam yn y cyfeiriad iawn.

1.6 **Bydd y Porthladd Rhydd hefyd yn gatalydd i'r economi.** Mae wedi'i ddylunio i roi hwb sylweddol i'r Rhaglen Ynys Ynni fel bod Ynys Môn yn arwain y byd mewn ynni carbon isel, a hwb i fasnach drwy Borthladd Caergybi. Bydd safle Treth Gogledd Ynys Môn yn impetws pellach i adfywio gogledd yr Ynys.

### Mae'r economi leol yn dioddef ar ôl i safleoedd cyflogaeth hanesyddol bwysig, yn cynnig swyddi da a sefydlog, gau.

1.7 Roedd dirywiad y diwydiannau a fu'n bwysig yn hanesyddol, a chau safleoedd cyflogaeth, wedi dechrau ymhell cyn i Wylfa Magnox gau. Yn 2004, ar ôl mwy na hanner canrif, penderfynodd gwmni Great Lakes Chemical Corporation gau ffatri Octel yn Amlwch gyda **dros gant o swyddi da, medrus lleol yn cael eu colli.**

1.8 Gwelodd ddatgomisiynu Wylfa Magnox a chau Rehau **485 o swyddi'n cael eu colli rhwng 2015 a 2021, oedd yn cyfateb i 21% o holl swyddi'r ardal yn 2021.** Roedd y rhain yn gyflogwyr gwerth uchel, cyflogau uchel pwysig.

1.9 Yn 2021 dim ond 2,285 o swyddi oedd yng Ngogledd yr Ynys **– llai na 10% o holl swyddi'r Ynys** er bod Gogledd Ynys Môn yn draean o'i harwynebedd. Mae'r ardal bellach wedi'i nodweddu'n drwm gan yr economi sylfaenol – yn benodol **y sectorau gwasanaethau llety a bwyd**, sydd fel arfer â'r cyflogau isaf ond erbyn hyn yn cynnal twristiaeth a lletygarwch.

1.10 Mae Tabl 1 isod yn dangos y gwahaniaeth moel rhwng cyflogau a sectorau yng Ngogledd Ynys Môn – mae gan y swyddi mwyaf niferus hefyd y cyflogau isaf.

Tabl 1: Canran gyflogaeth a chyflogau'r gwahanol sectorau[1]

| Diwydiant | Cyflogaeth Gogledd Ynys Môn | Cyflog canolrifol blynyddol Cymru (£) |
|---|---|---|
| Mwyngloddio a chwareli | 0% | 42,206 |
| Cyflenwyr trydan, nwy, stêm ac aer-gyflyru | 0% | 30,732 |
| Gwasanaethau ariannol ac yswiriant | 0% | 26,820 |
| Gweithgareddau eiddo tirol | 0% | 20,349 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 1% | 29,803 |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 2% | 22,969 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 2% | 30,550 |
| Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 2% | 20,308 |
| Cludiant a storio | 4% | 24,654 |
| Gweithgynhyrchu | 4% | 30,926 |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 4% | 24,560 |
| Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth | 5% | 19,986 |
| Cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gwaith adferol | 8% | 27,887 |
| Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol | 11% | 22,327 |
| Addysg | 11% | 25,459 |
| Adeiladu | 13% | 28,098 |
| Y fasnach gyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau a beics modur | 13% | 17,907 |
| Gwasanaethau llety a bwyd | 18% | 10,267 |
| | Sectorau cyflogaeth blaenllaw yng Ngogledd Ynys Môn | ....sydd fel arfer gyda chyflogau is |

1.11 Mae colli swyddi yn y diwydiannau hanesyddol flaenllaw hyn hefyd yn golygu bod Gogledd yr Ynys ond wedi cyfrannu **13% o holl Werth Ychwanegol Crynswth (GVA) Ynys Môn** yn 2020. Roedd twf GVA Gogledd yr Ynys ond yn hanner twf gweddill yr Ynys dros y cyfnod hwn.

1.12 Er i dwristiaeth ar Ynys Môn weld twf sylweddol ar y cyfan, mae Gogledd yr Ynys yn cael trafferth hawlio ei 'siâr', gyda'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn aros yn ne'r Ynys.

## Mae prinder swyddi da'n arwain at lefelau uchel o gymudo allan o'r ardal, anweithgarwch economaidd ac amddifadedd.

1.13 Mae lefel uchel o gymudo allan o'r ardal i weithio (dim ond 35% o breswylwyr yn cymudo oedd hefyd yn gweithio yng Ngogledd yr Ynys) ond oherwydd ei natur ymylol mae 71% yn aros ar yr Ynys.

1.14 Mae Amlwch, y dref fwyaf yng Ngogledd yr Ynys, yn y 30% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran incwm a chyflogaeth, ac yn y 20% uchaf o rai mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau. Mae preswylwyr yn gynyddol ddibynnol ar


[1] Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (2021 a 2022). Y Gofrestr Fusnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES 2021), ONS. Dylid nodi bod BRES 2022 wedi cael ei ryddhau ond ni ddisgwylir i hyn newid canfyddiadau'r adroddiad yn sylweddol.

fanciau bwyd a rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023 roedd cynnydd o bron i 155% yn y defnydd o fanciau bwyd yn Amlwch.

### ...ac erbyn hyn mae hyd yn oed preswylwyr oedran gweithio'n symud i ffwrdd o'r ardal

1.15 Mae hyn yn creu poblogaeth sy'n heneiddio, wedi'i waethygu gan boblogrwydd yr ardal i bobl wedi ymddeol. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau fyth ar economi a gwasanaethau sy'n cael trafferth ymdopi'n barod.

Ffigwr 1-1: Newid ym mhroffil poblogaeth Gogledd Ynys Môn rhwng 2011 a 2021




### ...gan achosi rhagor o broblemau i'r economi leol a gwanhau mwy fyth yr iaith Gymraeg a'i diwylliant a gwead cymunedau'r ardal.

1.16 Mae nifer y preswylwyr yn Amlwch a Llannerch-y-medd sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o bedwar pwynt canran ers Cyfrifiad 2011 (o 62% o'r preswylwyr 3+ oed i 58%).

### Bydd buddsoddi yn amgylchedd naturiol a threftadaeth ardderchog yr ardal, ac mewn prosiectau ynni glân, yn creu gwaith, gwella lles a darpariaethau i breswylwyr lleol a denu mwy o ymwelwyr.

1.17 **Mae gwaith adfywio** eisoes ar y gweill gan gynnwys ymyriadau lleol llwyddiannus a phrosiectau mawr yn cael eu dyrannu fydd yn cynnal swyddi a buddsoddiad yng Ngogledd Ynys Môn. Fodd bynnag mae unrhyw newid strwythurol yn gofyn cael cydweithrediad rhwng partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae defnyddio safle Wylfa yn y dyfodol, a'r cyfleoedd a ddaw o statws Porthladd Rhydd, yn greiddiol i adfywio'r Gogledd.

1.18 Mae'r **gwaith parhaus o ddatgomisiynu safle Wylfa Magnox yn cynnal swyddi da** a bydd hyn yn parhau dros y tymor canolig. Mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i weithio gyda'r NDA i achub ar bob cyfle i sicrhau manteision y broses ddatgomisiynu i bobl leol.

1.19 Mae **Cynllun Buddsoddi Canol Tref Amlwch** yn cynnwys cynlluniau i droi ardal helaeth, a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan y diwydiant copor ac i dipio gwastraff trefol, yn dirlun parc ynghyd â darn golygfaol newydd o Lwybr Arfordir Cymru a gwelliannau ffisegol i dir y cyhoedd. Yn ddiweddar, codwyd arwyddion newydd modern yn ac o gwmpas y dref a'r porthladd i dynnu sylw at dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog Amlwch. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal leol a gwella lles y gymuned.

1.20 Disgwylir i **Raglen Ynys Ynni Ynys Môn a phrosiectau ynni glân eraill** greu cyfleoedd gwaith sylweddol ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredol.

1.21 Disgwylir i'r dynodiad diweddar o **Borthladd Rhydd** ar gyfer Ynys Môn greu rhwng 3,500 a 13,000 o swyddi da a medrus yng ngogledd Cymru. Gall hyn yn ei dro **greu manteision i'r gadwyn gyflenwi a chreu swyddi newydd yng Ngogledd yr Ynys** yn sgîl datblygu safleoedd y Porthladd Rhydd (yn enwedig Safle Treth Gogledd Ynys Môn).

Bydd cyllid yn y dyfodol yn helpu i wireddu manteision y cynigion hyn.

1.22 Mae angen mwy o fuddsoddiad i adeiladu ar gynlluniau llwyddiannus ynghyd ag ymyrryd strategol yng Ngogledd yr Ynys. Mae hyn yn unol â Chynllun y Cyngor (2023-2028) a'r gwaith o gyflawni amcanion Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (NAERP).

1.23 **Prosiectau ynni glân a buddsoddi yn Wylfa yw dyfodol Gogledd Ynys Môn –** drwy **raglen ddatgomisiynu'r NDA a phrosiectau niwclear newydd**.

1.24 Yn y gyllideb ddiweddaraf (Mawrth 2024), cyhoeddodd Lywodraeth y DU ei bod wedi prynu safle Wylfa Newydd. Mae'r Cyngor Sir yn croesawu'r cyhoeddiad hwn yn wresog iawn ynghyd â'r elfen o ymrwymiad y mae'n ei roi i'r gymuned leol a buddsoddwyr posib mewn pŵer niwclear. Rydym yn cydnabod bod ansicrwydd o hyd a heb ddiystyru o gwbl faint o waith cynllunio, seilwaith a chyllid y bydd ei angen i ddarparu gorsaf pŵer niwclear newydd. Er hynny mae'r pryniant yn gam pwysig mewn cyflwyno manteision trawsnewidiol ynni niwclear i Ynys Môn ac yn enwedig i Ogledd yr Ynys.

1.25 Yn y tymor byrrach, mae prosiectau ar y gweill fydd yn cynnal yr economi a gwella lles preswylwyr Gogledd Ynys Môn ond na fydd yn arwain at y newid systemig a thrawsnewidiol sydd angen ei weld yn yr ardal. Mae'r rhan fwyaf o unrhyw swyddi a fyddai'n deillio o Wylfa (os yw'n digwydd) yn debygol o fod flynyddoedd i ffwrdd ac yn y cyfamser mae angen buddsoddi yng Ngogledd yr Ynys i greu amgylchedd a fyddai'n hwyluso a gwneud y mwyaf o unrhyw fanteision yn deillio o Wylfa:

- **Ailwampio Terfynell Forol** - bydd cyllid yn cael ei dargedu i ateb y prinder gofod busnes a swyddfeydd o ansawdd uchel drwy ailwampio adeilad Cyngor amlwg na ellir ei osod ar hyn o bryd, sy'n edrych dros yr harbwr rhestredig ym Mhorthladd Amlwch. Bydd hyn yn ateb y galw presennol a'r cynnydd yn y galw o ganlyniad i'r Porthladd Rhydd, niwclear newydd a'r uchelgais i fanteisio ar weithgareddau masnachol yn y Porthladd.

- **Cost gweithredu Parc Cymunedol Amlwch** – mae'r prosiect hwn wedi'i ddwyn ymlaen gan y Cyngor Sir ac wedi ymgynghori â Chyngor Tref Amlwch. Bydd y parc yn gwasanaethu preswylwyr lleol ac ymwelwyr drwy roi cyfle i fwynhau gweithgareddau awyr agored, gan wella cysylltiadau i Lwybr yr Arfordir a'r argraff gyffredinol o'r lle. Mae'r parc wedi'i ddylunio i hwyluso manteision drwy gyflwyno'r datblygiad mewn cyfnodau. Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno.
- **Unedau Busnes Amlwch** - bydd cyllid yn cael ei dargedu i ateb y prinder gofod busnes o ansawdd uchel i gynorthwyo twf busnesau bach a chanolig a phrosiectau ynni glân. Rhoddwyd caniatâd cynllunio unfrydol i'r prosiect yn Ebrill 2024. Eto, bydd hyn yn helpu i ateb y galw presennol ac i ddod.

**Cyllid Refeniw Capasiti Tair Blynedd** - nid oes gan y Cyngor Sir gapasiti na chyllid i gynllunio a pharatoi bidiau a chynigion ar gyfer prosiectau blaenoriaeth fel y rhai uchod. Bydd y cyllid hwn yn helpu i ddatblygu gwythïen o brosiectau'n barod i'w cynnwys mewn bidiau (e.e. i lywodraeth Cymru neu lywodraeth y DU) pan fydd cyllid ar gael a chylchoedd bidio'n agor.

# 2 Rhagarweiniad

2.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor Sir) wedi comisiynu Quod i gyflawni trosolwg trylwyr seiliedig ar dystiolaeth o gyd-destun economaidd-gymdeithasol Gogledd Ynys Môn.

### Cyd-destun yr adroddiad

2.2 Mae'r adroddiad a'i ganfyddiadau'n egluro'r heriau presennol sy'n wynebu Gogledd yr Ynys a'r cyfleoedd fydd yn helpu i benderfynu ar themâu a blaenoriaethau'r ymyriadau a'r buddsoddi yn yr ardal.

2.3 Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r ystadegau diweddaraf (gan gynnwys data a ryddhawyd o Gyfrifiad 2021) ac effaith newidiadau a digwyddiadau sylweddol sydd wedi effeithio ar yr economi leol ac ar gymunedau lleol ers 2019, y tro diwethaf i astudiaeth debyg gael ei gwneud. Yn ogystal ag ateb yr heriau, mae'r adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar y cyfleoedd y gall Gogledd yr Ynys fanteisio arnynt a gwella amodau cymdeithasol ac economaidd yr ardal. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyd-fynd a chyfrannu at amcanion Cynllun newydd y Cyngor (2023-2028).

2.4 Mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) wedi gwahodd rhanddeiliaid i gyfrannu at y Strategaeth Effaith Economaidd-Gymdeithasol ddiweddaraf. Bydd adborth y rhanddeiliaid yn cynorthwyo i benderfynu ar feysydd ffocws a blaenoriaeth y Strategaeth ac yn helpu'r NDA i wneud y defnydd gorau o'r cyllid er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i gymunedau. Bydd yr adroddiad hwn yn cynorthwyo'r NDA i ailwampio'r Strategaeth.

2.5 Er mwyn gwireddu potensial Gogledd yr Ynys rhaid cael cefnogaeth yr NDA a phartneriaid strategol eraill – gan gynnwys rôl allweddol a strategol yr NDA fel perchennog tir, ei weithgareddau datgomisiynu ac yn ariannu ymyriadau lleol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn bwydo i Strategaeth Effaith Economaidd-Gymdeithasol Leol ddiweddaraf yr NDA ac yn helpu i adnabod y blaenoriaethau buddsoddi a chyllido strategol ar gyfer Gogledd yr Ynys yn y dyfodol.

### Strwythur yr adroddiad

2.6 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Adran 3: Gogledd Ynys Môn mewn cyd-destun** – trosolwg ar ddaearyddiaeth ac economi'r ardal a chyfleoedd posib i ateb ei phroblemau economaidd-gymdeithasol.
- **Adran 4:** Heriau i economi Gogledd Ynys Môn – trosolwg ar yr heriau presennol a hanesyddol o ran cyflogaeth a chynhyrchedd yr ardal.
- **Adran 5:** Heriau i gymuned Gogledd Ynys Môn - trosolwg ar yr heriau presennol a hanesyddol ar gyfer preswylwyr.
- **Adran 6:** Cyfleoedd – trosolwg ar y cyfleoedd y gallai Gogledd yr Ynys fanteisio arnynt gan egluro'r angen am ymyriadau.
- **Adran 7:** Prosiectau'r Dyfodol – Prosiectau'r Dyfodol ar gyfer Gogledd yr Ynys sy'n cael blaenoriaeth gan y Cyngor Sir.


# 3 Gogledd Ynys Môn mewn cyd-destun

3.1 Mae Gogledd Ynys Môn yn ymestyn dros 23,000 ha o dir. Mae hyn yn 33% o holl arwynebedd tir Ynys Môn. Y dref fwyaf yw Amlwch (poblogaeth Cyfrifiad 2021: 2,450) – gyda chyfres o bentrefi llai, a'r mwyaf o'r rhain yw Cemaes (poblogaeth Cyfrifiad 2021: 800). Mae'n gartref i orsaf niwclear flaenorol Wylfa Magnox (sydd yn y broses o gael ei datgomisiynu)[2] yn ogystal â nifer o safleoedd tir llwyd mawr gan gynnwys Rhosgoch a hen safle Octel.

3.2 Mae gan yr ardal 13,200 o breswylwyr a thua 2,300 o swyddi. Mae dwysedd y boblogaeth a'r gyflogaeth yn isel iawn a'r rhan fwyaf o'r swyddi yn yr economi sylfaenol.[3]

3.3 Oherwydd lleoliad ymylol Gogledd yr Ynys, draw o'r prif ffyrdd a'r rheilffyrdd a gyda gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus gwael, mae ei phoblogaeth breswyl a gweithio'n llai dwys na gweddill Ynys Môn a Chymru'n gyffredinol. Dangosir hyn yn  a Tabl 2 isod.

Ffigwr 3-1: Lleoliad ymylol Gogledd Ynys Môn




[2] https://www.dailypost.co.uk/business/business-news/last-spent-fuel-flask-departs-16944436
[3] Mae gwasanaethau a chynhyrchion yr economi sylfaenol yn darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol hynny y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt yn aros yn ddiogel, gwâr a di-risg. Mae gwasanaethau iechyd a gofal, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a siopau manwerthu ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol. https://businesswales.gov.wales/cy/yr-economi-sylfaenol

Tabl 2: Poblogaeth breswyl a phoblogaeth weithio Gogledd Ynys Môn o'i gymharu ag Ynys Môn a Chymru'n gyffredinol[4]

| | Nifer y preswylwyr | Preswylwyr i bob cilometr sgwâr | Cyflogaeth | Cyflogaeth i bob cilometr sgwâr |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Môn | 13,200 | **57** | 2,275 | **10** |
| Gweddill Ynys Môn | 68,900 | 97 | 23,000 | 32 |
| Cymru | 3,107,500 | 150 | 1,335,500 | 64 |

3.4 Ers cynhyrchu'r adroddiad hwn ddiwethaf yn 2019, mae ffatri Rehau wedi cau ei drysau ac aeth Gogledd yr Ynys, fel gweddill y byd, drwy bandemig Covid-19. Nid dyma ddechrau'r trafferthion economaidd i Ogledd yr Ynys – mae wedi bod yn dirywio'n barhaus ers amser maith ac mae taer angen buddsoddiad strwythurol a strategol. Trafodir y problemau a'r cyfleoedd yn fanwl drwy gydol yr adroddiad hwn.

## Cyd-destun polisi a strategol

3.5 Mae adfywio Gogledd Ynys Môn wedi'i gysylltu i bolisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

3.6 Mae polisi yng Ngogledd Ynys Môn, fel gweddill Cymru, wedi'i gysylltu i'r saith nod llesiant a gyflwynir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y rhai mwyaf perthnasol yn y fan hyn yw:

- **Cymru ffyniannus:** cymdeithas arloesol a chynhyrchiol sy'n datblygu economi o bobl fedrus ac addysgedig sy'n cynhyrchu cyfoeth a chreu cyfleoedd cyflogaeth.
- **Cymru iachach:** cymdeithas lle y mae pobl yn mwynhau'r lles corfforol a lles meddwl gorau.
- **Cymru fwy cyfartal:** cymdeithas lle y bydd pobl yn gallu cyflawni eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
- **Cymru o gymunedau cydlynol:** cymunedau deniadol, hyfyw, diogel ac wedi eu cysylltu.
- **Cymru lle mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu:** cymdeithas sy'n hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden.

### Y Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd

[4] NOMIS 2023, Y Gofrestr Fusnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES) 2021. Dylid nodi bod BRES 2022 wedi cael ei ryddhau ond ni ddisgwylir i hyn newid canfyddiadau'r adroddiad yn sylweddol.

3.7 Cafodd y Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 fel strategaeth datblygu defnydd tir dros gyfnod o 15 mlynedd a'i ffocws ar ddatblygu cynaliadwy.

3.8 Mae'r Cyngor wedi dechrau'r broses o ddiweddaru'r Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd – gan gynnwys ystyried safleoedd yng Ngogledd Ynys Môn.

### Cynllun y Cyngor 2023-2028

3.9 Mae adfywio a thwf economi Gogledd Ynys Môn yn unol â gweledigaeth y Cyngor o 'greu Ynys Môn iach a ffyniannus lle y gall pobl ffynnu'.

3.10 Mae Cynllun 2023-2028 yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer moderneiddio gwasanaethau a ffyrdd o weithio'r Cyngor. Mae'r Cynllun yn cynnwys chwe amcan strategol a'r rhai mwyaf perthnasol i adfywio Gogledd Ynys Môn yw:

- Yr Iaith Gymraeg – cynyddu cyfleoedd i gael dysgu a defnyddio'r iaith;
- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer y genhedlaeth bresennol a rhai'r dyfodol;
- Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys; a
- Newid Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, delio gyda newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero-net erbyn 2030.

### Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn

3.11 Mae Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (NAERP) yn cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer yr ardal. Ei nod yw dod â manteision economaidd i Ogledd yr Ynys a helpu i ateb yr heriau a gyflwynir yn sgîl datgomisiynu Wylfa A a chau ffatri Rehau, a gwneud y mwyaf o botensial safle Wylfa, gyda ffocws o'r newydd ar ôl i Lywodraeth y DU brynu'r safle.

3.12 Mae'r Cynllun Adfywio'n rhoi fframwaith i helpu i dywys penderfyniadau buddsoddi a chyfeirio partneriaid at flaenoriaethau'r ardal. Mae'r Cynllun Adfywio wedi'i ategu gan Gynllun Gweithredu sy'n cyflwyno'r prosiectau penodol fydd yn cael eu darparu a bydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau y gellir adrodd ar gynnydd y prosiectau, ac unrhyw brosiectau newydd sy'n cwrdd â'r themâu blaenoriaeth. Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd a bydd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd Ynys Môn a Gweledigaeth Dwf Gogledd Cymru.

### Yr NDA

3.13 Mae Strategaeth Effaith Gymdeithasol a Chymunedau (2024)[5] yr NDA yn cydnabod amgylchiadau economaidd-gymdeithasol canlynol yr ardal leol:

- Y dibynnu trwm ar Safle Gwasanaethau Adfer Niwclear Wylfa Magnox, a'r sefyllfa wedi gwaethygu ar ôl i nifer o gyflogwyr mawr ar yr Ynys gau yn y blynyddoedd diwethaf;

---

[5] https://www.gov.uk/government/publications/nda-social-impact-and-communities-strategy-april-2024/nda-social-impact-and-communities-strategy-april-2024

- Cryfder economaidd isel yr ardal;

- Cryfderau eraill yr ardal gan gynnwys "arlwy twristiaeth bywiog a deniadol" a "ffocws strategol ar ynni gwyrdd".

3.14 Mae'n ail-bwysleisio ymrwymiad parhaus yr NDA i gefnogi Morlais, y Rhaglen 'Cymunedau Llewyrchus' a Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn.

## Rôl strategol partneriaid allweddol gan gynnwys yr NDA

3.15 Mae gan yr NDA rôl allweddol i'w chwarae yng Ngogledd Ynys Môn – mae ei rôl fel perchennog tir mawr, mewn datgomisiynu safleoedd Wylfa Magnox, ac fel cyllidwr, yn golygu ei fod yn bartner strategol pwysig yn Ynys Môn.

3.16 Ar ôl ystyried heriau economaidd-gymdeithasol neilltuol Gogledd Ynys Môn (a ddisgrifiwyd uchod) a chydnabod yr ansicrwydd o gwmpas statws prosiect Wylfa Newydd, yn 2019 cyhoeddodd yr NDA ymrwymiad i amrywiol brosiectau fel rhan o Gynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (NAERP)[6][7]:

- Unedau busnes newydd – yn Amlwch ac mewn lleoliadau addas eraill wrth i gyfleoedd godi.
- Hyrwyddo buddsoddiad preifat – hyrwyddo a chefnogi buddsoddiadau newydd yn yr ardal.
- Cymorth i fusnesau – sicrhau cymorth a chyngor i fusnesau newydd ac i fusnesau sydd eisiau ehangu.
- Addysg, sgiliau a chyflogadwyedd – datblygu sgiliau a phrofiad gwaith i bobl leol a pharhau i fuddsoddi yn y campws peirianneg yn Grŵp Llandrillo-Menai a chyfleoedd arloesi ac Ymchwil a Datblygu ehangach drwy M-Sparc Cymru.
- Mynydd Parys – datblygu'r safle ymhellach fel atyniad twristiaeth a darparu cysylltiadau iddo / ohono.
- Ardal harbwr Cemaes – achub ar gyfleoedd i wella edrychiad a gwerth economaidd yr ardal.
- Datblygiadau Ynys Ynni Ynys Môn.
- Cymorth ariannol i Môn CF ac yn enwedig drwy ddarparu hyfforddiant er mwyn arfogi pobl Ynys Môn â'r sgiliau angenrheidiol i ddod o hyd i waith.
- Paratoi Bargen Dwf Gogledd Cymru – sy'n cynnwys prosiect Porth Caergybi, Canolfan Rhagoriaeth Niwclear.

3.17 Noda'r NAERP hefyd fod *"cyfleoedd yn bodoli i adfywio safleoedd allweddol yn yr ardal a chyflwyno tir newydd ar gyfer buddsoddi. Byddai cyflwyno tir ac adeiladau ychwanegol ar gyfer*

---

[6] Strategaeth Effaith Economaidd-Gymdeithasol Leol yr NDA (2020): https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/897130/NDA_local_social_and_economic_impact_strategy_2020_update.pdf
[7] NAERP 2019: https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Busnes/Adfywio/Cynllun-Adfywio-Economaidd-Gogledd-Ynys-M%C3%B4n.pdf

*unedau deori a thwf yn cynorthwyo mentrau a busnesau bach a chanolig i ddatblygu."* Dyma'n union beth y mae'r Prosiect Ailwampio Terfynell Forol yn ceisio ei gyflawni.

3.18 Mae'r adroddiad hwn yn asesu pa rai o'r prosiectau uchod y dylai'r Cyngor Sir ganolbwyntio arnynt a faint o arian sydd ei angen i'w datblygu.

# 4 Heriau i economi Gogledd Ynys Môn

4.1 Mae heriau economaidd Gogledd Ynys Môn yn deillio o golli swyddi yn sgîl cau safleoedd cyflogaeth mawr fel Wylfa Magnox, Rehau ac Octel. Collwyd rhwng 500 a 570 o swyddi'n uniongyrchol gyda llawer mwy'n cael eu colli'n anuniongyrchol a thrwy'r gadwyn gyflenwi leol. Ni ddaeth swyddi cystal yn lle'r rhai a gollwyd gan adael Gogledd Ynys Môn gyda dwysedd cyflogaeth isel a thwf cynhyrchedd sydd ar ei hôl hi o'i gymharu ag ardaloedd eraill.


Mae cyflogaeth yr ardal yn isel iawn a'r rhan fwyaf o'r swyddi yn yr economi sylfaenol

4.2 Yng Ngogledd yr Ynys roedd y 2,285 o swyddi a gofnodwyd yn 2021 yn llai na 10% o holl gyflogaeth Ynys Môn.[8]

4.3 Mae'r gyflogaeth leol yn bennaf yn yr economi sylfaenol, gan symud i ffwrdd yn amlwg o'r swyddi medrus hanesyddol a dalai gyflogau uchel fel rhai'r sectorau gweithgynhyrchu, cludiant a storio. Y sector mwyaf yw llety a bwyd sy'n cyfrif am 18% o gyflogaeth Gogledd Ynys Môn fel y mae Ffigwr 4-1 yn ei ddangos isod. Mae hyn yn uwch na ffigurau cyfartalog Ynys Môn a Chymru'n gyffredinol, sy'n 14% am y naill a 8% am y llall.

4.4 Y sectorau ail fwyaf yw manwerthu ac adeiladu (13% yr un).


Ffigwr 4-1: Cyfran gyflogaeth y gwahanol sectorau[9]




[8] Y Gofrestr Fusnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES) 2021. Dylid nodi bod BRES 2022 wedi cael ei ryddhau ond ni ddisgwylir i hyn newid canfyddiadau'r adroddiad yn sylweddol.
[9] Ibid.

4.5 Mae dwysedd swyddi yn y rhan yma o'r Ynys hefyd yn isel gyda Gogledd yr Ynys ond yn cynnig 10 swydd i bob cilometr sgwâr a dim ond Amlwch sydd â chrynodiad sylweddol o swyddi. Gwelwn hyn yn Ffigwr 4-2 sydd hefyd yn dangos manwerthu, llety, bwyd, y celfyddydau, adloniant a hamdden fel y prif sectorau yn Amlwch.

Ffigwr 4-2: Dwysedd swyddi yng Ngogledd Ynys Môn o'i gymharu â gweddill yr Ynys[10]




Mae Gogledd yr Ynys wedi'i chysylltu'n wael.

4.6 Yn wahanol i drefi mawr eraill ar Ynys Môn, mae Amlwch yn bell o Wibffordd yr A55 sy'n cynorthwyo rhannau eraill o'r Ynys i elwa o gysylltedd ac sydd â mwy o siawns o ddenu gweithwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

4.7 Ar gyfartaledd yn y car, mae'n cymryd rhwng 25 a 30 munud i gyrraedd Cyffordd 6 ar yr A55 (ger Llangefni) o Amlwch ac o leiaf 25 munud i gyrraedd Cyffordd 5 ar yr A55 (ger Rhosneigr) ar y ffordd i Gaergybi.

4.8 I deithio o Amlwch i Gaergybi yn y car, mae'n cymryd rhwng 35 a 40 munud er bod y ddwy dref ond 14 milltir oddi wrth ei gilydd.

[10] Y Gofrestr Fusnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES) 2021. Dylid nodi bod BRES 2022 wedi cael ei ryddhau ond ni ddisgwylir i hyn newid canfyddiadau'r adroddiad yn sylweddol.

Ac mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gwbl anfoddhaol.

4.9 Mae mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar Ynys Môn gyda'r gwaethaf yng Ngogledd Cymru, gyda gwasanaethau anfynych a drud ac oriau gweithredu cyfyngedig. [11]

4.10 Mae'r sefyllfa yng Ngogledd yr Ynys yn waeth fyth. Yn y bore dim ond un gwasanaeth bws sy'n mynd o Gaergybi, tref fwyaf Ynys Môn, i Amlwch i gyrraedd cyn 9am.

4.11 Mae lleoliad ymylol yr ardal a'i mynediad gwael at drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu ei bod yn anoddach i Ogledd yr Ynys ddenu cyflogwyr i leoli yn yr ardal – oherwydd y gweithlu bychan y gellir dewis ohono a diffyg cysylltedd i gadwyni cyflenwi a'r farchnad.

Mae llai o swyddi yn y diwydiannau oedd unwaith yn flaenllaw...

4.12 Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r diwydiannau oedd unwaith yn flaenllaw yng Ngogledd yr Ynys, ac yn allweddol i'r economi leol, wedi dirywio'n sylweddol.

4.13 Ers 2004 collwyd dros 2,300 o swyddi ar ôl i fusnesau gau ar draws Ynys Môn. O'r rhain roedd rhwng 500 a 575 yng Ngogledd yr Ynys – yn Wylfa Magnox, Octel a Rehau. Roedd hyn yn rhan fawr o'r economi ac yn cyfateb i fwy na 20% o'r holl swyddi presennol yng Ngogledd yr Ynys.

4.14 Roedd colli Wylfa Magnox, yn enwedig, yn ergyd fawr i economi Gogledd yr Ynys. Yn ei anterth roedd yn cyflogi tua mil o bobl. Mae'r gwaith datgomisiynu'n parhau i gyflogi gweithwyr, a bydd hyn yn parhau dros y tymor canolig, ac mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i weithio gyda'r NDA i achub ar bob cyfle i sicrhau budd o'r broses ddatgomisiynu i'r ardal leol.

4.15 Rhwng 2015 a 2021, collwyd 450 o swyddi yng Ngogledd yr Ynys (i lawr o 510 i ddim ond 25) yn y sector trydan, nwy, stêm ac aer-gyflyru, sef 21% o'r holl swyddi yn yr ardal yn 2021. Y prif reswm am hyn oedd cau Wylfa Magnox (pan gollwyd 300-350 o swyddi) a diffyg swyddi eraill i weithwyr medrus yn y diwydiant.

4.16 Mae Strategaeth Effaith Economaidd-Gymdeithasol Leol yr NDA (2020)[12] yn cydnabod bod poblogaeth Gogledd yr Ynys wedi dibynnu'n drwm ar Orsaf Niwclear Wylfa Magnox am gyflogaeth a thwf economaidd a bod swyddi eraill o werth uchel yn brin yn yr ardal. Roedd cau ffatri Rehau'n ergyd arall i economi Gogledd yr Ynys pan gollwyd cant o swyddi. Roedd 70% o'r staff a oedd yn gweithio yn Rehau yn byw yng Ngogledd yr Ynys a 25% yn Amlwch ei hun.

4.17 Mae colli'r cyflogwyr hyn wedi cael effaith negyddol ar sawl cenhedlaeth o deuluoedd yr ardal. Er enghraifft, roedd 70% o'r swyddi yn Rehau yn cael eu cyflawni gan wahanol genedlaethau o'r un teuluoedd. Roedd bron i 30% o weithwyr Rehau yn 55+ oed pan gaeodd y ffatri. Er eu bod yn agos at oed ymddeol, mae'r gweithwyr hyn wedi cael trafferth neilltuol dod o hyd i waith newydd ar ôl i'r safle hwn gau. Mae Tabl 3 isod yn dangos cyfanswm y colledion swydd yn dilyn cau ffatrïoedd ar Ynys Môn.

---

[11] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-datganiad-y-cynnydd.pdf
[12] Strategaeth Effaith Economaidd-Gymdeithasol Leol yr NDA (2020): https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/897130/NDA_local_social_and_economic_impact_strategy_2020_update.pdf

4.18 Mae Tabl 3 isod yn dangos cyfanswm y swyddi a gollwyd yn sgil cau ffatrïoedd ar Ynys Môn

Tabl 3: Colledion swydd ar Ynys Môn yn dilyn cau ffatrioedd ers 2004[13]

| Blwyddyn | Cwmni | Colledion Swydd |
|---|---|---|
| Gogledd Ynys Môn | | |
| 2004 | Octel | 100 - 120 |
| 2015- | Wylfa Magnox | 300 – 350 (mwy pan oedd yn ei anterth) |
| 2019 | Rehau | 100 |
| **Cyfanswm Gogledd yr Ynys** | | **500 - 570** |
| Gweddill Ynys Môn | | |
| 2006 | Cig Môn | 100 |
| 2008 | Peboc | 60 |
| 2008 | Eaton Electrical | 265 |
| 2009 | Anglesey Aluminium | 300 - 400 |
| 2013 | Welsh Country Foods | 300 - 350 |
| 2019 | Marco Cable Management | 40 |
| 2022 | Orthios | 120 |
| 2023 | 2-Sisters | 730 |
| **Cyfanswm** | | **2,415 - 2,635** |

4.19 Cafwyd hefyd effeithiau canlyniadol ar ôl i fusnesau gau mewn llefydd eraill ar yr Ynys – caeodd ffatri 2-Sisters yn Llangefni yn ddiweddar gyda 730 o swyddi'n cael eu colli a 57 o'r rheini'n byw yng Ngogledd yr Ynys.


4.20 Yn y gyllideb ddiweddaraf (Mawrth 2024), cyhoeddodd Lywodraeth y DU ei bod wedi prynu safle Wylfa Newydd. Mae hyn yn cynyddu'r sicrwydd y bydd niwclear newydd (giga neu adweithyddion SMR) ar y safle ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y daw rhai o'r swyddi 'a gollwyd' yn ôl i Ogledd yr Ynys – gan roi hyder i'r gymuned leol ac i fuddsoddwyr posib mewn pŵer niwclear. Fodd bynnag mae ansicrwydd sylweddol o hyd o gwmpas yr elfennau cynllunio, seilwaith a chyllid y bydd eu hangen i ddarparu gorsaf niwclear newydd. Bydd unrhyw swyddi'n deillio o Wylfa (os yw'n digwydd) rai blynyddoedd i ffwrdd ac yn y cyfamser mae angen buddsoddi yng Ngogledd yr Ynys.

Gwasanaethau llety a bwyd yw'r sectorau cryfaf erbyn hyn....

4.21 Mae  isod yn dangos symudiad i ffwrdd o'r hen ddiwydiannau blaenllaw fel gweithgynhyrchu, cludiant a storio a thuag at wasanaethau llety a bwyd.

[13] Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn

Ffigwr 4-3 Symudiad tuag at wasanaethau llety a bwyd fel y diwydiannau blaenllaw[14] [15]




...ond sydd fel arfer gyda chyflogau isel

4.22 Nid yw'n bosib cael data cyflogau yn ôl sector ar gyfer ardal ddaearyddol fach. Fodd bynnag, dengys **Error! Reference source not found.** y gyfran o gyflogaeth sydd gan bob sector ar Ynys Môn, a'r cyflog canolrifol yng Nghymru. Mae'n dangos mai'r sectorau cryfaf, sef manwerthu a llety / bwyd, sydd fel arfer â'r cyflogau isaf.

[14] Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (2021 a 2022). Y Gofrestr Fusnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES 2021), ONS. Dylid nodi bod BRES 2022 wedi cael ei ryddhau ond ni ddisgwylir i hyn newid canfyddiadau'r adroddiad yn sylweddol.
[15] Nid oedd unrhyw gyflogaeth yn 'Cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gwaith adferol' yn 2011 ond roedd 190 o weithwyr yn y sector hwn yn 2021. Byddai hyn yn gyfradd dwf cyflogaeth ddiddiwedd. I bwrpas dangos hyn ar y graff, tybiwyd cyfradd dwf o 150%. Fodd bynnag, 'Gwasanaethau llety a bwyd' yw'r diwydiant mwyaf blaenllaw o hyd oherwydd ei faint cymharol (a ddangosir gan faint y swigen), ei gyfradd dwf cyflogaeth a'i gryfder cymharol yng Ngogledd Ynys Môn.

Tabl 4: Cyflogau canolrifol yng Nghymru (o'i gymharu â'r sector blaenllaw) [16]

| Diwydiant | Cyflogaeth Gogledd Ynys Môn | Cyflog canolrifol blynyddol Cymru (£) |
|---|---|---|
| Mwyngloddio a chwareli | 0% | 42,206 |
| Cyflenwyr trydan, nwy, stêm ac aer-gyflyru | 0% | 30,732 |
| Gwasanaethau ariannol ac yswiriant | 0% | 26,820 |
| Gweithgareddau eiddo tirol | 0% | 20,349 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 1% | 29,803 |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 2% | 22,969 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 2% | 30,550 |
| Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 2% | 20,308 |
| Cludiant a storio | 4% | 24,654 |
| Gweithgynhyrchu | 4% | 30,926 |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 4% | 24,560 |
| Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth | 5% | 19,986 |
| Cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gwaith adferol | 8% | 27,887 |
| Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol | 11% | 22,327 |
| Addysg | 11% | 25,459 |
| Adeiladu | 13% | 28,098 |
| Y fasnach gyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau a beics modur | 13% | 17,907 |
| Gwasanaethau llety a bwyd | 18% | 10,267 |
| | Sectorau cyflogaeth blaenllaw yng Ngogledd Ynys Môn | …ac fel arfer gyda chyflogau is |

Oherwydd natur y swyddi a cholli sectorau cynhyrchedd uchel, mae twf GVA yng Ngogledd yr Ynys ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill yr Ynys.

4.23 Mae colli cyflogwyr mawr mewn diwydiannau ynni a gweithgynhyrchu gwerth uchel fel y soniwn uchod yn un o'r prif ffactorau a effeithiodd ar weithgarwch economaidd yng Ngogledd yr Ynys.


4.24 Cynhyrchir yr ystadegau GVA ardaloedd bach[17] gan yr ONS. O ystyried pa mor anodd yw mesur GVA ar raddfa mor fach, ystadegau arbrofol yn unig yw'r rhain a dylid eu trin felly. Er

[16] Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (2021 a 2022). Y Gofrestr Fusnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES 2021), ONS. Dylid nodi bod BRES 2022 wedi cael ei ryddhau ond ni ddisgwylir i hyn newid canfyddiadau'r adroddiad yn sylweddol.
[17] ONS (2023). Amcangyfrifon gwerth ychwanegol crynswth (GVA) ardaloedd bach y DU. Dylid nodi bod yr amcangyfrifon hyn wedi eu casglu o ddata ardaloedd bach a'u bod felly'n arbrofol. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva/datasets/uksmallareagvaestimates

hynny maen nhw'n awgrymu bod twf GVA yn y Gogledd ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill yr Ynys ( Ffigwr 4-4 isod):

- Cyfrannodd Gogledd yr Ynys ddim ond 13% o gyfanswm GVA Ynys Môn yn 2020 – i lawr o 17% yn 1998.
- Rhwng 1998 a 2020, tyfodd GVA Gogledd Ynys Môn o 39% sy'n llai na hanner y twf cyfatebol ar draws gweddill yr Ynys.

Ffigwr 4-4: Twf GVA




4.25 Amcangyfrifwyd y byddai cyfnod datblygu Wylfa Newydd wedi ychwanegu £1m o Werth Ychwanegol Crynswth (GVA)[18] y flwyddyn i economi Gogledd yr Ynys, gan godi i £7.2m y flwyddyn yn ystod y cyfnod adeiladu a £5.7m y flwyddyn yn y cyfnod gweithredol.

4.26 Fel y nodwn uchod, mae penderfyniad Llywodraeth y DU i brynu safle Wylfa'n gam mawr ymlaen i adfywio datblygiadau ynni niwclear yng Ngogledd yr Ynys yn y dyfodol.

### Mae'r economi ymwelwyr yn dioddef

4.27 Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddwyochrog ar dwristiaeth Ynys Môn. I ddechrau, dioddefodd yr Ynys o ddiffyg ymwelwyr oherwydd y cyfnodau clo cenedlaethol. Fodd bynnag, ar ôl codi'r cyfyngiadau, gwelodd Ynys Môn fwy o ymwelwyr nag arfer.

4.28 Roedd yr ymwelwyr yn ymweld yn bennaf â de'r Ynys – sy'n achosi dwy broblem bwysig:

- Mae'n cyflwyno nifer o heriau i dde'r Ynys lle'r oedd y pwysau ar y seilwaith ymwelwyr yn llawer mwy na chapasiti'r gwasanaethau llety lleol, y rhwydwaith ffyrdd lleol, meysydd

---

[18] IACC; Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned yn ymwneud â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. ONS.

parcio yn yr atyniadau twristiaeth mwyaf poblogaidd, a'r gwasanaethau rheoli gwastraff. Mae hyn yn achosi effeithiau negyddol i breswylwyr, ymwelwyr a'r amgylchedd.

- Nid yw Gogledd yr Ynys yn elwa o fforddolion a gwariant gan ymwelwyr, a fyddai'n helpu i gynnal canol y trefi, y pentrefi ymylol, yr atyniadau a'r economi leol.

Mae natur ymylol Gogledd Ynys Môn, y diffyg gwasanaethau hamdden a thwristiaeth lleol a'r ffaith na ŵyr y cyhoedd am rai o atyniadau'r ardal, yn golygu nad yw potensial y farchnad dwristiaeth yn cael ei gyflawni. Roedd hyn yn glir o'r Arolwg Iechyd Canol Trefi a gomisiynwyd gan y Cyngor Sir.

# 5 Heriau i gymuned Gogledd Ynys Môn

5.1 Mae poblogaeth hŷn Gogledd Ynys Môn wedi cynyddu ac erbyn hyn mae gan yr ardal fwy o anweithgarwch economaidd nag yn 2011. Mae'r boblogaeth graidd o bobl mewn oedran gweithio'n crebachu ac yn tueddu i gymudo allan o Ogledd yr Ynys i weithio. Mae pobl yn dibynnu'n drwm ar gerbydau preifat. Yr effaith yn gyffredinol yw cymuned leol gyda lefel uchel o amddifadedd.


### Mae poblogaeth hŷn Gogledd Ynys Môn wedi cynyddu dros amser

5.2 Oherwydd natur ymylol yr ardal, mae'r boblogaeth iau mewn oedran gweithio wedi lleihau a'r boblogaeth hŷn wedi cynyddu, a hyn wedi'i waethygu gan boblogrwydd cynyddol yr ardal fel lle i bobl gael ymddeol a hynny yn ei dro'n cynyddu anweithgarwch economaidd yr ardal.

5.3 Dangosir hyn yn isod. Mae'n nodedig bod y boblogaeth 25-50 oed wedi gweld colledion sylweddol – yr oedran pan fydd pobl fel arfer yn anterth eu gyrfaoedd.

5.4 Ar y llaw arall, rhwng 2011 a 2021 cynyddodd boblogaeth 65+ Gogledd yr Ynys o bron i 30%, oedd yn fwy na'r cyfartalog drwy Gymru o 18%.[19] Mae anweithgarwch yr ardal hefyd wedi cynyddu drwy fod yn gyrchfan poblogaidd ar gyfer ymddeol. Mae hyn yn creu problemau o ran gwasanaethau lleol ac i'r economi leol.

Ffigwr 5-1: Y newid ym mhroffil poblogaeth Gogledd Ynys Môn rhwng 2011 a 2021




[19] Cyfrifiadau 2011 a 2021 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

5.5 Mae'r oed canolrifol ar Ynys Môn wedi cynyddu o 45 i 48 rhwng y ddwy flwyddyn Cyfrifiad.[20]

### Mae niferoedd derbyn myfyrwyr newydd wedi amrywio

5.6 Mae'r Fforwm Derbyn i Ysgolion wedi cyhoeddi niferoedd derbyn i ysgolion ar gyfer Ynys Môn a ddangosir yn **Error! Reference source not found.** isod:

Tabl 5: Niferoedd derbyn newydd Gogledd Ynys Môn o'i gymharu â gweddill yr Ynys[21]

| | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Môn[22] | 179 | 164 | 192 |
| Llangefni[23] | 218 | 218 | 228 |
| Ynys Môn | 1,329 | 1,353 | 1,380 |

5.7 Er bod Gogledd Ynys Môn wedi gweld lleihad mewn niferoedd derbyn newydd rhwng 2020 a 2021, cynyddodd y niferoedd unwaith eto yn 2022. Mae'r niferoedd hyn yn awgrymu bod niferoedd derbyn i ysgolion yn eithaf sefydlog ond mae'r rhesymau am yr amrywiad hwn yn aneglur. Mewn cymhariaeth, mae niferoedd derbyn i ysgolion yn Llangefni ac ar yr Ynys yn gyffredinol wedi cynyddu'n raddol.

5.8 Er bod y boblogaeth oedran gweithio yn 2021 yn llai nag yn 2011, gall fod yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan deuluoedd ifanc yn dychwelyd am resymau'n ymwneud â'r pandemig. Mae'r Fforwm Derbyn i Ysgolion hefyd wedi cynnig cwpwl o esboniadau posib:

- Yn ystod cyfnodau clo Covid-19, roedd rhai rhieni wedi symud eu plant i ysgolion eraill oherwydd eu bod yn anfodlon â'r addysg ar-lein a dderbyniodd eu plant.
- Problemau gyda'r Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig (PAN) – bydd y niferoedd yn cael eu hadolygu a gofynnir am gyfiawnhad o'r niferoedd gan ysgolion.

### Effaith y lleihad yn y boblogaeth oedran gweithio

5.9 Mae gan Ogledd Ynys Môn boblogaeth sy'n heneiddio – mae nifer y bobl 70+ oed wedi cynyddu'n sylweddol a nifer y bobl dan 50 oed wedi gostwng rhwng y ddau gyfrifiad (2011 a 2021). Mae effeithiau hyn yn cyflwyno'r risgiau a'r heriau canlynol i gymunedau Gogledd yr Ynys:

- Mwy o bwysau ar gyfleusterau gofal iechyd.
- Cynnydd yn y gymhareb ddibyniaeth a'r angen am ofal. Yn Amlwch mae'r lwfans i ofalwyr yn llai na £70 yr wythnos – swm bach iawn.[24] Maen nhw felly'n debygol o ddefnyddio banciau bwyd i fwydo eu hunain.
- Mwy o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Lleihad ym maint y farchnad lafur.

---

[20] https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000001/
[21] https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Fforwm-Derbyn-Ysgolion.aspx
[22] Ar sail yr ysgolion canlynol: Ysgol Gynradd Amlwch, Ysgol Cemaes, Ysgol Garreglefn, Ysgol Llanfechell, Ysgol Penysarn, Ysgol Rhosybol ac Ysgol Syr Thomas Jones.
[23] Ar sail yr ysgolion canlynol: Ysgol Bodffordd, Ysgol y Graig, Ysgol Talwrn, Ysgol Corn Hir, Ysgol Gyfun Llangefni.
[24] https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/15822349.food-bank-praises-amlwchs-generosity-calls-people-need-come-forward-help/

- Colli diwylliant a siaradwyr Cymraeg – mae nifer y preswylwyr yn Amlwch a Llannerch-y-medd sy'n gallu siarad Cymraeg (3+ oed) wedi gostwng o bedwar pwynt canran ers Cyfrifiad 2011.

### Gweithgarwch economaidd is o'i gymharu â chyfartaledd gweddill Ynys Môn a Chymru...

5.10 Mae'r gyfran o'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar yng Ngogledd Ynys Môn yn is na chyfartaledd gweddill Ynys Môn a Chymru.

5.11 Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae llai na hanner y boblogaeth 16+ oed (49%) yng Ngogledd yr Ynys yn economaidd weithgar ac mewn gwaith o'i gymharu â 51% ar gyfer Ynys Môn yn gyffredinol a 54% ar gyfer Cymru. Dangosir hyn yn **Error! Reference source not found.** isod:

Tabl 6: Gweithgarwch economaidd (preswylwyr 16+ Cyfrifiad 2021)

| | Gogledd Ynys Môn | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|---|
| Economaidd weithgar: Mewn gwaith | 49% | 51% | 54% |
| Economaidd weithgar: Diwaith | 3% | 3% | 3% |
| Economaidd anweithgar | 48% | 46% | 44% |

5.12 Gallai hyn fod oherwydd y cynnydd anghymesur yn y boblogaeth 50+ oed a ddaeth yn economaidd anweithgar ers pandemig Covid-19.

### Diffyg gofod busnes a swyddfeydd addas

5.13 Mae gan Ynys Môn y ddarpariaeth swyddfa isaf o holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru gyda dim ond 3.5% o'r holl ddarpariaeth ond lefel feddiannu o 99.5%, sef yr uchaf ar draws y rhanbarth.

5.14 Mae hyn yn arbennig o ddrwg yng Ngogledd yr Ynys o gofio hefyd y bydd galw cryf yn debygol o fod yn y dyfodol o ganlyniad i'r Porthladd Rhydd, prosiectau niwclear newydd ac adfywiad gweithgareddau masnachol ym Mhorth Amlwch, gan gynnwys Gwynt Ar y Môr.

5.15 Mae datblygu swyddfeydd busnes o ansawdd uchel yng Ngogledd yr Ynys, fel yr unedau busnes sydd newydd gael caniatâd yn Amlwch ac ailwampio adeilad Shell, yn greiddiol i sicrhau bod yr ardal yn gallu achub ar bob cyfle a mantais a ddaw o'r buddsoddiad trawsnewidiol yn y Porthladd Rhydd ac unrhyw ddatblygiad posib yn Wylfa.

### Lefel uchel o gymudo allan o Ogledd yr Ynys i weithio....

5.16 Mae natur ymylol Ynys Môn yn golygu bod preswylwyr Gogledd yr Ynys sy'n cymudo allan o'r ardal i weithio'n gadael yr ardal ond heb adael yr Ynys ei hun. Yng Nghyfrifiad 2011, dim ond 35% o breswylwyr yn cymudo oedd hefyd yn gweithio yng Ngogledd yr Ynys ond gyda 71% yn aros ar yr Ynys. Mewn cymhariaeth roedd 50% o breswylwyr Llangefni sy'n cymudo, hefyd yn gweithio yn y dref.

5.17 Oherwydd prinder gwaith ac yn enwedig swyddi sy’n talu’n dda, mae preswylwyr yn gadael Gogledd yr Ynys ond yn aros ar yr Ynys – a hyn yn bennaf mae’n debyg oherwydd yr amser a’r gost o gymudo’n bellach i ffwrdd.

5.18 Felly hefyd – ychydig iawn sy’n cymudo i Ogledd yr Ynys – preswylwyr yr ardal sy’n gwneud y rhan fwyaf o’r swyddi (58%) gyda dim ond 9% yn cymudo yno o’r tu allan i’r Ynys. Dangosir y patrymau cymudo allan yn Nhabl 7 a **Error! Reference source not found.** isod.

5.19 Bydd y dynodiad Porthladd Rhydd a datblygu safle Wylfa yn y dyfodol yn greiddiol i sicrhau bod llai’n cymudo allan o’r ardal ac i adfywio Gogledd yr Ynys fel cyrchfan cyflogaeth, gyda goblygiadau positif i’r gymuned leol.

Tabl 7: Cymudo allan o Ogledd Ynys Môn[25]

| | | Preswylwyr Gogledd yr Ynys sy’n cymudo |
|---|---|---|
| Gweithio yn | Gogledd Ynys Môn | 35% |
| | Gweddill Ynys Môn | 36% |
| | Oddi ar yr Ynys | 29% |
| | Cyfanswm | 100% |

Tabl 8: Cymudo mewn i Ogledd yr Ynys[26]


| | | Gweithwyr Gogledd Ynys Môn |
|---|---|---|
| Byw yn | Gogledd Ynys Môn | 58% |
| | Gweddill Ynys Môn | 33% |
| | Oddi ar yr Ynys | 9% |
| | Cyfanswm | 100% |

...yn bennaf mewn cerbydau preifat

5.20 Eto, mae lleoliad ymylol Gogledd Ynys Môn a’i seilwaith gwael o ran trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod 86% o boblogaeth weithio’r ardal yn defnyddio cerbyd preifat i gyrraedd y rhan yma o’r Ynys. Dim ond 2% o’r boblogaeth weithio sy’n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

[25] Cyfrifiad 2011 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
[26] Cyfrifiad 2011 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Ffigwr 5-2: Dull teithio i weithio yng Ngogledd Ynys Môn[27]




5.21 Mae data Cyfrifiad 2021 wedi'i wyrdroi gan Covid-19.

**...oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus wael (ac yn gwaethygu)**

5.22 Mae trafnidiaeth gyhoeddus i breswylwyr yn wael ar hyn o bryd. Yn y bore, dim ond dau wasanaeth bws sydd o Amlwch i Gaergybi (rhif 61) ac yn cyrraedd cyn 9am (h.y. mewn pryd i weithio):

- Yr 0655 sy'n cyrraedd Caergybi am 0738; a
- Yr 0745 sy'n cyrraedd Caergybi am 0842.

5.23 Mae pob gwasanaeth o Amlwch i Fangor sy'n cyrraedd cyn 9am yn cymryd dros awr.

5.24 Bydd y sefyllfa ond yn gwaethygu. **Yn ddiweddar, cyhoeddodd Arriva doriadau i'w wasanaethau bws ar draws yr Ynys, gan gynnwys yr 62A o Amlwch.** Mae'r cyhoeddiad yn cysylltu'n benodol i fod angen lleihau'r gwasanaeth bws i'r gwaith hirdymor a pharhaus ar Bont Menai gan achosi siwrneiau arallgyfeirio hir.

5.25 Gallai olygu bod preswylwyr yr Ynys, yn enwedig pobl fregus ac oedrannus, yn gaeth i'w cymunedau. Ar gyfer Gogledd yr Ynys, gallai hyn waethygu natur ymylol yr ardal a'r diffyg cysylltedd oddi mewn ac allan o'r ardal ar gyfer gweithio.


**Mae hyn yn creu ardal gyda lefelau uchel o amddifadedd**

[27] Cyfrifiad 2011 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

5.26 Oherwydd y lefel uchel o gymudo allan, mynediad gwael at wasanaethau, diffyg swyddi da a chynhyrchedd sydd ar ei hôl hi, mae Gogledd yr Ynys yn amddifad o'i gymharu â gweddill Cymru.

5.27 Mae Amlwch - y rhan fwyaf poblog o Ogledd yr Ynys - yn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae yn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran incwm a chyflogaeth, ac yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau (oherwydd ei lleoliad ymylol).[28] Dangosir hyn yn isod:

Ffigwr 5-3: Map amddifadedd ar gyfer Gogledd Ynys Môn




### Mae preswylwyr yn dibynnu'n gynyddol ar fanciau bwyd

5.28 Mae rhoddion i fanc bwyd Amlwch, a'r defnydd o'r banc, wedi cynyddu'n aruthrol yn y cyfnod diweddar. Rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023, derbyniodd fanc bwyd Amlwch bron i 180% yn fwy o roddion (o 52 o barseli i 145) gyda'r defnydd yn cynyddu o bron i 155% (o 648kg i 1,658kg). Mae hyn (yn rhannol) oherwydd prinder gwaith (a gwaith sy'n talu'n dda) a lefelau uchel o anweithgarwch economaidd.

[28] https://mapdata.llyw.cymru/layergroups/inspire-wg:WelshIndexOfMultipleDeprivationWIMD2019

# 6 Cyfleoedd

6.1 Mae gan yr NDA rôl allweddol i'w chwarae yng Ngogledd Ynys Môn – mae ei rôl fel perchennog tir mawr, mewn datgomisiynu safleoedd Wylfa Magnox, ac fel cyllidwr, yn golygu ei fod yn bartner strategol pwysig yn Ynys Môn.

6.2 Mae eisoes wedi cyfrannu'n ariannol at raglenni'r Cyngor drwy:

- Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (NAERP) – yn 2019, rhoddodd yr NDA £495,000 ar gyfer cynllun NAERP y Cyngor, tuag at amrywiol prosiectau.[29]
- Cronfa Adfywio Gogledd Ynys Môn – hyd yma mae £117,000 o'r cyllid uchod gan yr NDA wedi'i roi'n uniongyrchol i fusnesau lleol a chyrff trydydd sector i helpu i greu swyddi. Mae'r arian hwn wedi cefnogi 20 o fusnesau, diogelu 35 o swyddi, creu 42 o swyddi eraill a darparu cyfleoedd gwirfoddoli i 130 o bobl.[30]
- Mae cyfraniad cyllid pellach o £75,000 yn 2023 wedi golygu bod y Cyngor wedi gallu parhau i ddatblygu a gweithredu prosiectau am flwyddyn ariannol ychwanegol.

6.3 Mae'r arian hwn wedi cynorthwyo i greu nifer o brosiectau a helpu i ddiffinio cyfleoedd pellach i'r NDA ac eraill gael buddsoddi yn yr ardal a pharhau i gefnogi ei phroblemau economaidd-gymdeithasol. Mae angen cyllid pellach i baratoi a darparu prosiectau allweddol yng Ngogledd yr Ynys.

6.4 Noda Gynllun Busnes 2022-2025 yr NDA fod cryfder 'economaidd-gymdeithasol' yn un o'r prif ffactorau i hyrwyddo newid. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gyfrannu at gynnal economïau lleol cynaliadwy ar gyfer cymunedau sy'n byw wrth ymyl safleoedd NDA, a lle bo'n bosib bod cyfrannu at dwf economaidd rhanbarthol yn cael ei gydnabod fel gweithgaredd pwysig, ynghyd ag ymarfer da o ran datblygu sgiliau, cefnogi prosiectau ynni glân a'r gadwyn gyflenwi leol.

6.5 Fel y soniwyd yn flaenorol mae'r NDA wedi rhoi cymorth i nifer o'r cyfleoedd a restrir yn NAERP. Mae'r adran yma'n disgrifio tri o'r cyfleoedd hynny a allai fod o fudd i economi a chymunedau Gogledd yr Ynys a helpu i ateb y problemau economaidd-gymdeithasol presennol:

- Y potensial ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a chael mwy o bobl i ymweld a gwario yng Ngogledd Ynys Môn.
- Achub ar bob mantais a gyflwynir gan y Rhaglen Ynys Ynni (yn enwedig y datblygiadau yn Wylfa a chyfleoedd yn deillio o fewnfuddsoddi drwy'r Porthladd Rhydd).
- Gwneud y mwyaf o'r dynodiad Porthladd Rhydd a'r twf economaidd sy'n cael ei ddatgloi – yn enwedig yng Ngogledd yr Ynys.

6.6 Bwriad y cyfleoedd hyn yw mynd i'r afael â'r newid strwythurol sydd ei angen i gynnal economi Gogledd yr Ynys.

---

[29] https://www.gov.uk/government/news/nda-pledges-495000-to-aid-north-anglesey-economic-regeneration-plan
[30] https://www.gov.uk/government/news/nda-supports-launch-of-north-anglesey-regeneration-fund

Y potensial ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a chael mwy o bobl i ymweld a gwario yng Ngogledd Ynys Môn.

6.7 Mae gan Ogledd yr Ynys rannau helaeth wedi eu dynodi'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol (AHNE), nifer o safleoedd ecolegol hynod bwysig yn cynnwys gwarchodfeydd natur byd-eang bwysig (fel Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru Cemlyn), nifer o draethau dilychwin a rhai o'r golygfeydd arfordirol gorau ar gyfer teulu'r morfil (yn cynnwys morfilod, llamhidyddion a dolffiniaid) yng Ngogledd Cymru.[31][32][33] Mae nifer o gyfleoedd i wneud defnydd gwell o'r asedau lleol (yn enwedig Porth Amlwch a Mynydd Parys) er mwyn denu mwy o ymwelwyr a gwella'r ddarpariaeth i breswylwyr.

6.8 Yn ddiweddar, codwyd arwyddion i gerddwyr ac arwyddion ffordd newydd yn ac o gwmpas Amlwch i dynnu sylw at dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yr ardal. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i ddatblygu parc ac efallai i gomisiynu darn o gelfyddyd gyhoeddus i ddenu twristiaid.

6.9 Mae Cynllun Buddsoddi drafft Canol Tref Amlwch yn rhagweld y dylai buddsoddiad yn y dref ganolbwyntio ar bum thema:

- **Gwelliannau i dir y cyhoedd:** gan gynnwys yr arwyddion mynegbyst sydd eisoes o gwmpas Amlwch a Phorth Amlwch.
- **Gwelliannau ffisegol:** gan gynnwys ailwampio a / neu ailddatblygu eiddo gwag ac sy'n dadfeilio, fel yr ardal helaeth a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan y diwydiant copor ac i dipio gwastraff trefol, a gwelliannau i ffryntiau siopau.
- **Symud o gwmpas:** gan gynnwys gwelliannau i hygyrchedd cerddwyr ac i'r seilwaith beicio.
- **Rheoli canol y dref:** gan gynnwys datgloi safleoedd datblygu.
- **Technoleg a data:** gan gynnwys band-eang / Wi-Fi cyflym iawn – sy'n arbennig o berthnasol yn Amlwch o ystyried bod angen denu mwy o dwristiaid (a mwy o wariant) i Ogledd yr Ynys.

6.10 Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru hefyd Raglen Ddigidol wedi'i thargedu at fuddsoddi mewn cysylltedd digidol ar draws y rhanbarth. Mae'r Rhaglen yn cyfrannu at waith ehangach dan arweiniad y sector cyhoeddus a chwmnïau rhwydweithiau cyhoeddus i ehangu ac uwchraddio cysylltedd 'sefydlog' (e.e. band-eang ffeibr) a rhwydweithiau diwifr a ffonau symudol fel 4G a 5G.

Mae'r dynodiad Porthladd Rhydd yn addo creu mwy o swyddi sy'n talu'n dda

6.11 Yn dilyn bid ar y cyd llwyddiannus gan Stena Line a'r Cyngor Sir, bydd Ynys Môn bellach yn ennill statws Porthladd Rhydd. Mae'r broses achos busnes ar y gweill a disgwylir y bydd y Porthladd Rhydd yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn.

---

[31] Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (NAERP): https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Busnes/Adfywio/Cynllun-Adfywio-Economaidd-Gogledd-Ynys-M%C3%B4n.pdf
[32] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Countryside/Anglesey-AONB-Management-Plan-2015-%E2%80%93-2020.pdf
[33] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Countryside/Anglesey-AONB-Management-Plan-2015-%E2%80%93-2020-Appendix-1.pdf

6.12 Bydd y Porthladd Rhydd yn gatalydd i'r economi. Mae wedi'i ddylunio i roi hwb sylweddol i'r Rhaglen Ynys Ynni fel bod Ynys Môn yn arwain y byd mewn ynni carbon isel, a hwb i fasnach drwy Borthladd Caergybi. Bydd penderfyniad diweddar llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU i ymestyn cyfnod hawlio manteision treth y Porthladd Rhydd yn sicrhau'r budd gorau posib i Ynys Môn a Gogledd Cymru oddi wrth y statws.

6.13 Mae tri safle treth yn rhan o'r Porthladd Rhydd – Parth Ffyniant Ynys Môn wrth ymyl Caergybi, Safle Treth Canol Ynys Môn, a Safle Treth Gogledd Ynys Môn.

6.14 Bydd Parth Ffyniant Ynys Môn hefyd yn cynnwys safle tollau gyda rheolau symlach ar gyfer tollau a masnach gan greu mwy o gymhellion buddsoddi a masnach. Yn y dyfodol ni fydd nwyddau a ddaw i mewn ac a fydd yn aros yn y safle tollau'n gorfod cydymffurfio â threfn drethi a thollau arferol y DU gan gefnogi buddsoddiadau busnes hirdymor a rhoi hwb i ffyniant Ynys Môn a Gogledd Cymru.

6.15 Disgwylir i'r Porthladd Rhydd helpu i greu rhwng 3,500 a 13,000 o swyddi medrus gyda chyflogau da yng Ngogledd Cymru, gan gynyddu cynhyrchedd lleol a gweithgarwch economaidd ar draws Gogledd Cymru.

6.16 Gallai gweithlu a busnesau bach a chanolig Gogledd yr Ynys elwa o'r gwaith fydd yn cael ei greu'n uniongyrchol o ddatblygu'r Porthladd Rhydd a safleoedd eraill cysylltiedig (yn enwedig Safle Treth Gogledd Ynys Môn) yn ogystal â thrwy'r gadwyn gyflenwi. Gallai hyn helpu i adfer swyddi yn y diwydiannau gwerth uchel a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol.

6.17 Mae'r Porthladd Rhydd yn ymgysylltu'n gyson â rhanddeiliaid lleol (Prifysgol Bangor, MSParc, y Sefydliad Allforio a Masnach Ryngwladol, Grŵp Llandrillo Menai) ar gynlluniau i integreiddio cyflwyno'r Porthladd Rhydd â strategaethau lleol, gan gynnwys rhai i uwchraddio'r gweithlu lleol.

6.18 Mae'r cyfleoedd yn cynnwys cyflymu nifer y gweithredwyr sy'n cynhyrchu ynni glân, cynaliadwy drwy adeiladu ar raglenni sero-net blaenllaw presennol yr Ynys, fel gwynt ar y môr, niwclear, solar ac ynni llanw. Mae gan weithredwyr masnachol ddiddordeb cryf yn y cyfleoedd hyn.

6.19 Er mwyn gwneud y mwyaf o'r Porthladd Rhydd, mae angen swyddfeydd cyflogaeth yng Ngogledd yr Ynys lle y bydd y twf economaidd cysylltiedig yn gallu lleoli. Bydd y Porthladd Rhydd yn rhoi hwb sylweddol i'r Rhaglen Ynys Ynni ac eto'n cael effaith ar weithgarwch economaidd a'r gadwyn gyflenwi. Bydd angen cael digon o le cyflogaeth er mwyn gallu gwneud y mwyaf o'r manteision yng Ngogledd yr Ynys.

### Ynys Ynni Ynys Môn a phwysigrwydd Wylfa (datgomisiynu a chyfleoedd newydd)

6.20 Mae Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn, a sefydlwyd gan y Cyngor Sir, yn gydymdrech bartneriaeth rhwng nifer o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector, gan roi Ynys Môn ar flaen yr ymdrechion ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel gyda'r gobaith o greu budd economaidd aruthrol.

6.21 Mae'r rhaglen yn cynnwys buddsoddiadau mewn hydrogen, llanw, niwclear a gwynt ar y môr a dylai'r statws Porthladd Rhydd roi hwb mawr iddi. Disgwylir i gyfleoedd gwaith sylweddol gael eu creu maes o law ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau wrth i ddatblygiadau mawr symud tuag at eu cyfnodau adeiladu a gweithredol.

6.22 Wylfa – mae datgomisiynu'r safle presennol **a defnyddio safle Wylfa yn y dyfodol yn greiddiol i wneud y mwyaf o fanteision y prosiect Ynys Ynni** a chyflwyno manteision i'r gogledd.

6.23 **Mae buddsoddiad newydd yn Wylfa'n hollbwysig i ddyfodol Gogledd yr Ynys ac mae Wylfa mewn lle da i gyfrannu at gapasiti niwclear y DU yn y dyfodol, fel yr oedd Llywodraeth y DU yn ei gydnabod pan brynodd y safle'n ddiweddar.** Gallai gefnogi datblygiad Adweithyddion Modiwlar Bach (SMR) a / neu orsaf gigawat fawr. Byddai buddsoddiad o'r fath yn datgloi manteision sylweddol i Ogledd yr Ynys gan greu cymaint â mil o swyddi diogel yn talu'n dda yn y cyfnod gweithredol, yn ogystal â chreu galw sylweddol am swyddi adeiladu ac effeithiau cadwyn gyflenwi. Gallai unrhyw ddatblygiad sylweddol drawsnewid economi Gogledd yr Ynys - **mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol i weld safle Wylfa'n cael ei ddefnyddio yn y dyfodol a datblygiad niwclear newydd.**

6.24 Mae'r Cyngor Sir hefyd yn ymrwymedig i weithio gyda'r NDA i wneud y defnydd gorau o'r **rhaglen ddatgomisiynu yn Wylfa** a **gwneud y mwyaf o unrhyw gyfle hirdymor ar gyfer arloesi cysylltiedig** (mewn ffordd debyg i'r gwaith ymchwil i isotopau meddygol a defnyddio concrid gwastraff yn Nhrawsfynydd). Mae cyfleoedd sylweddol i fusnesau ar Ynys Môn all wasanaethu gwaith a wneir yn Wylfa a Thrawsfynydd – bydd gofod llawr iawn yn y lle iawn yn greiddiol i wneud y mwyaf o fanteision hyn.

6.25 Fel yr eglurwn uchod, nid safle Wylfa'n unig yw'r Rhaglen Ynys Ynni – a derbyniwn fod ansicrwydd yn parhau o gwmpas datblygu Wylfa Newydd. Mae cyfleoedd ychwanegol yn gysylltiedig â'r Rhaglen Ynys Ynni, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- **Yr Hwb Hydrogen ym Mharc Cybi** yng Nghaergybi, fydd y datblygiad cyntaf o'i fath yng Nghymru. Ei amcan yw sefydlu cyfleusterau cynhyrchu a dosbarthu hydrogen gwyrdd, cynyddu sicrwydd ynni hydrogen ac ysgogi masnacheiddio a mabwysiadu hydrogen fel tanwydd, yn enwedig ar gyfer y sector cludiant.
- **Morlais -** Ynni Morol Ynys Môn. Prosiect ynni llanw gan Menter Môn yw hwn i greu manteision i gymunedau lleol a'r economi a helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan carbon isel glân. Mae'n gyfle pwysig i Ynys Môn gael bod yn arweinydd byd mewn datblygu, gweithgynhyrchu a gosod cyfarpar ynni llanw. Bydd y prosiect yn cael effeithiau sylweddol ar Ynys Môn a Chymru ac yn rhan allweddol o ddarparu'r Ynys Ynni. Yn y cylch diweddaraf o Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth, dyfarnwyd 22.4MW o'r 48MW a ddyrannwyd ar draws y DU o dan y cylch hwn i gwmnïau'n bidio gydag arae Morlais.

6.26 Mae manteision y prosiectau hyn yn cynnwys:

- Disgwylir i gyfleoedd gwaith sylweddol gael eu creu maes o law ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau wrth i ddatblygiadau mawr symud tuag at eu cyfnodau adeiladu a gweithredol.
- Cynnwys BBaCh lleol yng ngweithgareddau cadwyn gyflenwi'r prosiectau hyn.
- Cyflawni ymrwymiadau sero-net.

6.27 Mae'r prosiectau hyn yn gyfleoedd pwysig sy'n defnyddio, ac a fydd yn parhau i ddisgwyl, dull cydweithredol o weithio i'w datblygu. Mae'r Ynys Ynni'n cysylltu i'r weledigaeth yn Strategaeth

Gynaliadwyedd (2022) yr NDA[34] i ddod yn arweinydd mewn trawsnewid etifeddiaeth niwclear yn gyfleoedd datblygu cynaliadwy lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai amcanion yr Etifeddiaeth a'r Canlyniadau ganolbwyntio ar rymuso pobl a chymunedau i greu economïau lleol cynaliadwy.

6.28 Mae'r NDA yn bartner strategol pwysig i wireddu manteision y Prosiect Ynys Ynni yng Ngogledd yr Ynys:

- Y rhaglen ddatgomisiynu a'r swyddi sy'n cael eu cynnal gan ddatgomisiynu (er y bydd llai ohonynt dros amser)
- Perchennog tir mawr.
- Cyllid economaidd-gymdeithasol i gynlluniau lleol eraill.

### Yr angen am ofod llawr cyflogaeth

6.29 Er mwyn ennill y budd mwyaf o'r Rhaglen Ynys Ynni a'r dynodiad Porthladd Rhydd, rhaid cael gofod cyflogaeth i fusnesau BBaCh gael tyfu. Yn hanesyddol mae prinder gofod llawr o ansawdd uchel i fusnesau BBaCh, sy'n atal twf economaidd ar draws yr Ynys ac yn Amlwch. Adlewyrchwyd hyn yn y caniatâd cynllunio diweddar a roddwyd i Unedau Busnes Amlwch.

6.30 Mae galw'r farchnad am unedau busnes yn uchel gydag Achos Amlinellol Strategol (SOC) wedi'i baratoi dros gyflwyno unedau busnes newydd yn Amlwch er mwyn sicrhau bod gan fusnesau le iawn i sefydlu a / neu dyfu. Disgwylir i'r unedau busnes fod â lle i 12 o fusnesau BBaCh a 33 o swyddi ansawdd uchel i bobl leol.

6.31 Mae'r prosiect yn adeiladu ar Raglen Safleoedd ac Eiddo lwyddiannus y Cyngor Sir a ariannwyd gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd – oherwydd nad yw'r arian hwn ar gael mwyach, mae'r Cyngor yn ei ystyried i fod yn brosiect blaenoriaeth sydd angen buddsoddiad cyfalaf. Mae wedi cael caniatâd cynllunio ar ôl ymgysylltu'n helaeth gyda'r cyhoedd ac yn lleol.

---

[34] NDA (2022). *NDA Sustainability Strategy.* Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1063625/NDA_group_Sustainability_Strategy_2022.pdf

# 7 Edrych tua'r dyfodol

7.1 Mae'r dadansoddiad sylfaenol hwn, a'r heriau a'r cyfleoedd allweddol penodol sy'n wynebu Gogledd Ynys Môn, yn tanlinellu'r angen i geisio a sicrhau cyllid i fynd i'r afael â materion allweddol (e.e. diweithdra, anweithgarwch economaidd a chynhyrchiant isel, pobl o oedran gweithio yn allfudo), yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar yr amrywiaeth o gyfleoedd a nodwyd.

7.2 Mae CSYM, gyda chymorth partneriaid ariannu fel yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Y Gymdeithas a Llywodraeth Cymru, eisoes yn datblygu portffolio o brosiectau a allai helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn.

7.3 Mae gwaith datblygu prosiectau, gan gynnwys cynllunio, cydsynio a datblygu Achosion Busnes ffurfiol i fod yn sail i geisiadau cyllid amrywiol, yn mynd rhagddo'n dda ar gyfer:

(i) Adnewyddu'r Adeilad Terminws Morol (hen Adeilad Shell) Porth Amlwch, a fydd yn mynd i'r afael â'r prinder swyddfeydd o ansawdd uchel ac arwynebedd llawr busnes yn yr ardal drwy adnewyddu adeilad amlwg, amhosibl ei osod gan y Cyngor sy'n edrych dros yr harbwr rhestredig ar hyn o bryd ym Mhorth Amlwch.

(ii) Parc Cymunedol newydd Porth Amlwch. Mae dyluniadau cysyniadol ar gyfer y safle yn sail i gais cynllunio sy'n cael ei ystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd. Bydd y darn o hen dir diwydiannol sydd wedi gordyfu ac sy'n segur ar hyn o bryd, a thomen ddinesig, yn cael ei ailddatblygu i hyrwyddo treftadaeth a diwylliant lleol, cadwraeth natur, hyrwyddo lles, ffyrdd o fyw egnïol ac ymdeimlad o gymuned, creu man cyhoeddus amrywiol, cynaliadwy a hygyrch sydd o fudd i bawb (sy'n cyd-fynd yn llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), yn ogystal â gwneud Porth Amlwch yn gyrchfan fwy atyniadol i ymwelwyr.

(iii) Unedau Busnes newydd Amlwch, gyda chaniatâd cynllunio pellach wedi'i roi ar gyfer 10 uned fusnes newydd (a fyddai'n darparu lle ar gyfer 33 o swyddi), wedi'u targedu at fusnesau bach a chanolig ac yn anelu at fynd i'r afael â'r prinder arwynebedd llawr busnes o ansawdd uchel yn yr ardal ac ar draws Ynys Môn gyfan.

7.4 **Blaenoriaeth CSYM, yn y tymor byr, fydd gweithio gyda phartneriaid a cheisio cyllid i symud y prosiectau hyn ymlaen, o'r cam cydsynio ac Achos Busnes presennol i sicrhau'r cyllid angenrheidiol a gweithredu a chyflawni prosiectau cyfalaf yn llawn.**

7.5 Yn y tymor canolig i'r tymor hir, mae CSYM yn parhau i weithio i ddatblygu portffolio o gynigion pellach a fydd yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a nodwyd ac o ffrydiau ariannu posibl gan bartneriaid mewn perthynas â datblygu economaidd, treftadaeth, arfordir a chefn gwlad, gwella canol trefi ac adfywio a thwristiaeth cyrchfan.

## Capasiti Cyllid Refeniw

7.6 Er mwyn datblygu a chyflawni'r dyheadau tymor canolig i dymor hir hyn, fodd bynnag, mae angen Capasiti Cyllid Refeniw ar CSYM.

7.7 Mae sefyllfa bresennol cyllid cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fod wedi nodi a datblygu cynigion i lefel uwch i allu cystadlu, a gwneud bidiau a cheisiadau, ar gyfer ffrydiau ariannu amrywiol a chymorth buddsoddi.

7.8 Heb y cyllid refeniw hael a dderbyniwyd hyd yma ar gyfer Gogledd Ynys Môn gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, ni fyddai wedi bod yn bosibl i CSYM fod wedi gwneud y gwaith i ddatblygu'r cynigion cyffrous a nodwyd yn 7.3 uchod cyn belled ag a wnaed.

7.9 Fodd bynnag, nid oes gan CSYM y capasiti na'r cyllid i gynllunio a pharatoi ymhellach. Felly, mae refeniw ychwanegol yn hanfodol i ddatblygu prosiectau'n barod i'w cyflwyno pan ddaw cyllid ar gael a phan fo amrywiol rowndiau ar agor i wneud ceisiadau am arian. Byddai hyn yn sicrhau nad yw CSYM yn methu cyfleoedd i geisio cyfalaf cychwynnol hanfodol a chael gafael ar fuddsoddiad pwysig a mawr ei angen yng Ngogledd yr Ynys. Mae angen hyn cyn rhaglen gyfalaf 2025/26.

7.10 Hyd yn oed gyda'r prosiectau gorau posibl wedi'u paratoi ac yn barod i gystadlu am gyllid y sector cyhoeddus, fodd bynnag, mae terfyn ar yr hyn y gall y Cyngor ei gyflawni ac, ar ei ben ei hun, ni fydd yn gallu cyflawni'r trawsnewid gwirioneddol y mae'r ardal yn ei haeddu. Er bod dyfodol Wylfa yn parhau i fod yn ansicr (hyd yn oed ar ôl i'r safle gael ei brynu am £160m gan Lywodraeth y DU), mae creu swyddi sylweddol, ailstrwythuro economaidd a thrawsnewid sylweddol yng Ngogledd Ynys Môn yn debygol o fod flynyddoedd i ffwrdd a dim ond drwy gydweithio gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol a rhanbarthol ehangach y gellir cyflawni hyn.

This page is intentionally left blank